# Adnewyddu Trwydded Channel 4

Datganiad

Cyhoeddwyd 15 Hydref 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........................................ 3
2. Cyflwyniad ........................................ 6
3. Fframwaith ar gyfer adnewyddu trwydded ........................................ 7
4. Y cyd-destun rydym yn adnewyddu’r drwydded ynddo ........................................ 14
5. Penderfyniadau ynghylch y drwydded ........................................ 21

# 1. Trosolwg

1.1 Bydd trwydded gyfredol Channel 4 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae Ofcom yn gyfrifol am bennu hyd ac amodau trwydded newydd ar gyfer Channel 4 Television Corporation (C4C) i ddarparu'r sianel gwasanaeth cyhoeddus, Channel 4.

1.2 Mae Channel 4 yn dal yn rhan allweddol o ecoleg ddarlledu'r DU, gyda chynulleidfaoedd yn parhau i'w sgorio, a'r amrywiaeth ehangach o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan C4C, yn uchel. Mae ein hadolygiadau blynyddol diweddar o berfformiad C4C wedi canfod ei fod yn parhau i gyflawni'n dda o un flwyddyn i'r llall yn erbyn ei gylch gwaith.[1] Mae ymchwil cynulleidfaoedd a gomisiynwyd gennym fel rhan o'r broses hon yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i ystyried bod Channel 4 yn unigryw ac yn llwyddo i hyrwyddo lleisiau newydd ac amrywiol, cynrychioli cynulleidfaoedd o wahanol grwpiau hil, hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth drwy gynrychioli anabledd. O'r herwydd, mae'n parhau i chwarae rhan allweddol o ran yr ystod a'r amrywiaeth yn y maes Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU. Yn ystod cyfnod y drwydded bresennol, mae C4C hefyd wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn sgiliau a hyfforddiant cynhyrchu ledled y DU.

1.3 Wrth i arferion gwylio cynulleidfaoedd barhau i esblygu, mae'n rhaid i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gystadlu'n galetach byth i ddenu cynulleidfaoedd, sy'n rhoi rhagor o bwysau ar gynaliadwyedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae model gweithredu presennol C4C, lle mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid hysbysebu, yn golygu ei fod yn wynebu heriau ariannol unigryw, a rhaid iddo weithio'n galed i sicrhau bod ei wasanaethau'n parhau i ddenu'r cynulleidfaoedd iau y mae ganddo ddyletswydd i'w gwasanaethu.

1.4 Yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, bydd C4C yn parhau i newid o fod yn ddarlledwr llinol[2] yn bennaf i'r hyn y mae ei strategaeth ddiweddaraf yn ei alw'n "ffrydiwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf".[3] Mae'n anelu at gyrraedd hyn erbyn 2030. Nod y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud ynghylch cynnwys a hyd trwydded Channel 4 yw cefnogi C4C yn y newid hwn. Maent yn ceisio diogelu buddsoddiad C4C mewn cynnwys unigryw yn y DU i gynulleidfaoedd a diogelu'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol i holl gynulleidfaoedd y DU, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau rôl unigryw Channel 4 o ran lluosogrwydd newyddion yn y DU;
- Galluogi materion cyfoes ymchwiliol C4C i gael mwy o effaith;
- Rhoi mwy o hyblygrwydd i gefnogi trawsnewid digidol C4C;
- Cynyddu gofynion Channel 4 o ran cynhyrchu y tu allan i Loegr; a
- Rhoi sicrwydd hirdymor i C4C a'r diwydiant gyda thrwydded deng mlynedd

1.5 Mae'r broses aildrwyddedu wedi amlygu pryderon sylweddol ymysg rhanddeiliaid yn y sector cynhyrchu am rôl C4C yn cefnogi'r economi greadigol yn y DU y tu allan i Lundain, ac yn enwedig y tu allan i Loegr, ei ymgysylltiad â'r sector cynhyrchu y tu allan i Loegr, a'i ymrwymiad i'r agenda hwn. Rydym o'r farn y bydd ein penderfyniad i gynyddu lefel cwotâu

[1] Tudalen we: Rheoleiddio Channel 4.
[2] Mae 'llinol' yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei wylio'n fyw ar set deledu.
[3] Tudalen we: Fast Forward strategy.

Gwnaed y tu allan i Loegr Channel 4, ochr yn ochr â'r canllawiau rydym yn eu rhoi ar sut dylai C4C adrodd ar ei ddull comisiynu ym mhob un o'r gwledydd,[4] yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Dylai'r cwotâu uwch gefnogi cynyrchiadau y tu allan i Loegr, cyfrannu at amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau cymunedau ar draws y DU, a rhoi'r hyblygrwydd priodol i C4C weithredu ei strategaeth ddigidol yn llwyddiannus i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei gylch gwaith er budd holl gynulleidfaoedd y DU. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae'n bwysig bod C4C yn fwy agored a thryloyw ynghylch ei effaith yn y gwledydd a'i fod yn cyhoeddi data'n rheolaidd ar ei ddull o gomisiynu yn y dyfodol er mwyn helpu i sicrhau presenoldeb cryf a pharhaus ym mhob un o'r gwledydd.

## Ein penderfyniadau ynghylch trwydded Channel 4 – crynodeb

**Newyddion**

**Cadw amod y drwydded sy'n mynnu dim llai na 208 awr o newyddion yn ystod oriau gwylio brig**,[5] bob blwyddyn galendr dros gyfnod y drwydded.

**Cadw amod y drwydded sy'n mynnu un rhaglen newyddion** y dydd yn gynnar gyda'r nos, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

**Cael gwared ar amod y drwydded sy'n mynnu bod un rhaglen newyddion yn cael ei darlledu amser cinio** bob diwrnod o'r wythnos.

**Materion Cyfoes**

**Cadw amod y drwydded sy'n mynnu dim llai na 80 awr** o raglenni materion cyfoes yn ystod **oriau gwylio brig**.

**Lleihau nifer yr oriau o faterion cyfoes** sy'n rhaid eu darlledu ym mhob blwyddyn galendr o ddim llai na 208**, i ddim llai na 178 awr**.

**Cynyrchiadau gwreiddiol**

**Cadw'r gofyniad bod o leiaf 70% o'r oriau** o raglenni yn ystod **oriau brig** yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth.

**Lleihau'r gofyniad presennol bod o leiaf 56%** o'r oriau o raglenni a gynhwysir yn y gwasanaeth ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth **i o leiaf 45% o'r oriau bob blwyddyn galendr.**

**Cynyrchiadau rhanbarthol**

**Cadw'r gofyniad bod yn rhaid i o leiaf 35% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr** sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod yn rhaid i **o leiaf 35% o'r gwariant** ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25.

**Cynyddu'r gofynion ar Channel 4 mewn perthynas â chynhyrchu rhaglenni yn y DU y tu allan i Loegr** o 2030 ymlaen.

[4] Yn y datganiad hwn, mae 'gwledydd' yn cyfeirio at Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
[5] Ystyrir mai'r oriau gwylio brig fydd rhwng 18:00 a 22:30.

O 2030 ymlaen, **y bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r oriau o raglenni** ym mhob blwyddyn galendr **a gaiff eu gwneud yn y DU** i'w gwylio ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i **o leiaf 12% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU** i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr a defnyddio canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn darparu canllawiau sy'n nodi y **dylai C4C fynd ati bob blwyddyn i nodi ei strategaeth ar gyfer comisiynu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon** dros y flwyddyn i ddod a sut mae wedi cyflawni ei strategaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'w randdeiliaid allweddol ledled y DU.

**Cynyrchiadau annibynnol**

**Cadw'r gofyniad bod o leiaf 25%** o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys ar y gwasanaeth yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol.

**Hyd y drwydded**

**Adnewyddu'r drwydded am gyfnod o ddeng mlynedd** gan ddechrau o 1 Ionawr 2025.

Rydym yn tynnu dau amod o'r drwydded o ganlyniad i newidiadau a wnaed gan Ddeddf Cyfryngau 2024:

- cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr
- rhaglenni ysgol.

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir y datganiad hwn

2.1 Daw'r drwydded bresennol ar gyfer Channel 4 i ben ar ddiwedd 2024. O dan adran 231 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf'), mae gan Ofcom y pŵer i adnewyddu trwydded Channel 4 am gyfnod pellach.

2.2 Ar 6 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ('ymgynghoriad mis Rhagfyr') ar adnewyddu trwydded Channel 4. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 14 Chwefror 2024. Cawsom 22 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â nifer o sylwadau ychwanegol gan randdeiliaid ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

2.3 Roedd nifer o'r ymatebion a ddaeth i law yn canolbwyntio ar ein cynnig i gadw cwotâu Gwnaed y tu allan i Lundain ('MoL') Channel 4 ar 35% o'r oriau a'r gwariant a'r cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr ('MoE') ar 9% o'r oriau a'r gwariant.

2.4 Wedi i ni ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd gan C4C, gwnaethom gyhoeddi ail ymgynghoriad ('ymgynghoriad mis Gorffennaf') ar 19 Gorffennaf 2024, lle roeddem yn cynnig cynyddu cwotâu MoE Channel 4 i 12% o'r oriau a'r gwariant o 2030 ymlaen. Nid oeddem wedi ymgynghori ar gynigion newydd ar gyfer unrhyw amodau trwydded eraill nac ar hyd y drwydded. Ond, roeddem wedi dweud y byddem yn ystyried unrhyw sylwadau newydd a fyddai'n codi pwyntiau am ein cynnig ym mis Rhagfyr ar gyfer cwotâu MoL, gan eu bod yn gysylltiedig â'r cwotâu MoE a gynigiwyd yn ymgynghoriad mis Gorffennaf. Cawsom 26 ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf, ac roedd tri ohonynt yn gwbl gyfrinachol.

2.5 Ar ôl ystyried yr ymatebion i ymgyngoriadau mis Rhagfyr a mis Gorffennaf yn ofalus, ac ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant a rhanddeiliaid ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau, rydym nawr yn cyhoeddi'r datganiad hwn sy'n nodi ein casgliadau ar hyd ac amodau trwydded newydd Channel 4.

# 3. Fframwaith ar gyfer adnewyddu trwydded

## Cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4

3.1 Mae C4C yn gorff nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd ac sy'n cael ei ariannu drwy refeniw masnachol. Lansiwyd ei brif sianel, sef Channel 4, yn 1982 gyda'r nod o ymestyn y dewis sydd ar gael i wylwyr, gan apelio at chwaethau a diddordebau nad yw darlledwyr eraill yn darparu ar eu cyfer yn gyffredinol a thrwy hynny annog arloesedd a datblygiad y sector cynhyrchu annibynnol. Ers hynny, mae C4C wedi lansio amrywiaeth o sianeli portffolio[6] a gwasanaeth ffrydio, y cyfeirir ato yn y datganiad hwn fel Channel 4 Streaming (All4 gynt).[7]

3.2 Mae gan Channel 4 gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigryw a phenodol ac mae'n cyfrannu at ddibenion cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[8] Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn rhagweld cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau'r amcanion a nodir yn adran 264(6) y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus sydd, gyda'i gilydd: yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu; yn adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y DU a'i hamrywiaeth; ac yn hwyluso, i raddau priodol, ddealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus ar newyddion a materion cyfoes.

3.3 Cylch gwaith statudol C4C yw darparu amrywiaeth eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel sydd, yn benodol: yn dangos arloesedd, dulliau arbrofi a chreadigrwydd o ran ffurf a chynnwys rhaglenni; yn apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol; yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr angen i sianeli gwasanaeth cyhoeddus gynnwys rhaglenni addysgol; ac yn arddangos cymeriad unigryw.[9]

3.4 Mae gan C4C hefyd amrywiaeth o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau statudol y gall eu cyflawni ar draws unrhyw wasanaethau darlledu neu ar-lein,[10] gan gynnwys Channel 4 Streaming.[11] Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i:

a) wneud amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n apelio at chwaethau a buddiannau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol;
b) darparu newyddion a materion cyfoes;
c) darparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc;
d) gwneud, darlledu a dosbarthu ffilmiau o safon uchel, y bwriedir iddynt gael eu dangos i gynulleidfaoedd yn y DU, a darlledu a dosbarthu ffilmiau (gan gynnwys ffilmiau trydydd parti) sy'n adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y DU i gynulleidfaoedd;

[6] Mae'r rhain yn cynnwys E4, E4 Extra, More4, Film4, a 4seven.
[7] Tudalen we: Channel 4 transforms brand to help viewers navigate crowded digital world.
[8] Nodir y dibenion hyn yn adran 264(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[9] Adran 265(3) y Ddeddf. Rhaid i drwydded Channel 4 gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i C4C gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4.
[10] Gwasanaethau rhaglenni ar-alw a gwasanaethau eraill a gaiff eu darparu drwy'r rhyngrwyd lle bydd rhywun yn arfer rheolaeth olygyddol dros y deunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth yw'r gwasanaethau ar-lein perthnasol.
[11] Mae'r dyletswyddau cynnwys cyfryngau wedi'u nodi yn adran 198A o'r Ddeddf.

e) helpu i ddatblygu pobl sydd â thalent greadigol;
f) hyrwyddo barn wahanol a safbwyntiau newydd;
g) hyrwyddo mesurau y bwriedir iddynt sicrhau bod pobl yn wybodus a bod ganddynt gymhelliant i gymryd rhan mewn cymdeithas;
h) cefnogi ac ysgogi dadl ar sail gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth a safbwyntiau o bob rhan o'r byd a herio safbwyntiau sydd wedi ennill eu plwyf.

3.5 Mae gan C4C ragor o rwymedigaethau penodol sydd wedi'u nodi yn y drwydded darlledu ar gyfer Channel 4.

## Amodau blaenorol y drwydded

3.6 Mae trwydded bresennol Channel 4 yn cynnwys rhwymedigaethau i ddarparu, ym mhob blwyddyn o gyfnod y drwydded:

- 208 awr o raglenni newyddion yn ystod oriau brig, gan gynnwys:
  - un rhaglen amser cinio bob diwrnod o'r wythnos ac un yn gynnar gyda'r nos bob diwrnod o'r wythnos; a
  - rhaglen yn gynnar gyda'r nos ar benwythnosau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.
- 208 awr o raglenni materion cyfoes, gydag 80 awr i'w neilltuo ar gyfer oriau brig.
- 25% o raglenni cymwys i'w comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- 56% o holl raglenni Channel 4 i fod yn gynyrchiadau gwreiddiol, gyda 70% o'r rhaglenni yn ystod oriau brig yn gynyrchiadau gwreiddiol.
- 35% o'r oriau a'r gwariant i'w neilltuo i raglenni sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU a'r tu allan i'r M25.
- 9% o'r oriau a'r gwariant i'w neilltuo i raglenni a gynhyrchir yn y DU a'r tu allan i Loegr.
- 30 munud o raglenni ysgol.

3.7 Mae'r drwydded yn cynnwys amrywiaeth o amodau eraill, fel gofynion sy'n ymwneud ag isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, nad oes yn rhaid i ni eu hystyried fel rhan o adnewyddu trwydded Channel 4 ac nad ydynt felly'n cael sylw yn y datganiad hwn. Ni fydd yr amodau hyn yn newid yn y drwydded newydd.

## Ofcom yn adnewyddu'r drwydded

3.8 Cafodd y drwydded bresennol ei phennu yn 2014 am gyfnod o ddeng mlynedd ac mae gan Ofcom y pŵer i adnewyddu'r drwydded am gyfnod pellach. Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom wneud y canlynol:

- gosod amodau trwydded mae Ofcom yn eu "*hystyried yn briodol*" i sicrhau rhai materion penodol a bennir o dan y Ddeddf; a
- phennu cyfnod y drwydded newydd, a allai redeg "*am y cyfryw gyfnod ag y gwêl Ofcom yn briodol*". [12]

3.9 Mae'r amodau y mae'n rhaid i Ofcom eu gosod yn nhrwydded Channel 4 yn cynnwys gofynion i sicrhau:

[12] Adran 231 o'r Ddeddf.

- swm priodol o newyddion a materion cyfoes (ac i'r amser gael ei rannu rhwng oriau brig ac adegau eraill sy'n briodol ym marn Ofcom);[13]
- cyfran addas o raglenni a gomisiynir gan gynhyrchwyr annibynnol (dim llai na 25% o raglenni cymwys);[14]
- cyfran briodol o raglenni i fod yn gynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer y sianel (gydag amodau fel y gwelwn sy'n briodol ar gyfer oriau brig ac adegau eraill);[15] a
- chyfran briodol o raglenni a wneir y tu allan i Lundain.[16]

3.10 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyffredinol, o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[17] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.[18] Wrth bennu'r amodau a phennu hyd y drwydded newydd, felly, bydd Ofcom yn ystyried cyfraniad Channel 4 at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn rhagweld y bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r dibenion hyn gyda'i gilydd, felly efallai y byddai'n briodol gosod gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol ddarlledwyr.

## Effaith y drwydded

3.11 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

3.12 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau o'r effaith yn rhan o arfer llunio polisïau da ac, felly, rydym yn disgwyl eu cynnal yng nghyswllt mwyafrif helaeth o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

3.13 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud wedi'u nodi yn adran 5. Mae'r dadansoddiad yn ein hymgyngoriadau ym mis Rhagfyr a mis Gorffennaf yn gyfwerth ag asesiad effaith mewn perthynas â'r cynigion rydym yn penderfynu arnynt yn y datganiad hwn. Rydym wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'r asesiad yn y datganiad hwn.

3.14 Fel rydym yn ei egluro'n fwy trylwyr yn y datganiad hwn, ac mewn perthynas â phob penderfyniad yn adran 1, rydym yn disgwyl y bydd ein penderfyniadau ar hyd ac amodau trwydded Channel 4 yn cael effaith gadarnhaol ar C4C a'i gynulleidfaoedd. Byddai'r amodau newydd yn helpu i sicrhau bod dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chylch gwaith

[13] Adran 279 o'r Ddeddf.
[14] Adran 277 o'r Ddeddf.
[15] Adran 278 o'r Ddeddf.
[16] Adran 288 o'r Ddeddf.
[17] Adran 3 o'r Ddeddf.
[18] Adran 3(4)(a) o'r Ddeddf.

Channel 4 yn cael eu cyflawni drwy sicrhau niferoedd priodol o raglenni newyddion, materion cyfoes, cynyrchiadau gwreiddiol, wedi'u gwneud yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU a chynyrchiadau annibynnol. Rydym yn credu y bydd hyn er budd cynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd iau y mae gan C4C ddyletswydd benodol i'w gwasanaethu.

3.15 Ar yr un pryd, bydd y drwydded yn hyrwyddo cynaliadwyedd C4C yn y dyfodol drwy roi'r hyblygrwydd sydd ei angen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol *Fast Forward* yn llwyddiannus (gweler paragraff 4.5 isod) er mwyn iddo allu parhau i gyflawni cylch gwaith Channel 4 a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau dros gyfnod y drwydded.

3.16 Ers mis Mai 2024, mae gan Ofcom ddyletswydd statudol newydd i ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd wrth gyflawni swyddogaethau rheoleiddio penodol.[19] Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i Ofcom ystyried pwysigrwydd hybu twf economaidd a sicrhau bod unrhyw gamau rheoleiddio a gymerwn yn rhai angenrheidiol a chymesur. Rydym o'r farn y bydd ein penderfyniadau'n hyrwyddo cynaliadwyedd C4C ac y bydd hyn, yn ei dro, yn hybu twf economaidd yn y DU.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

3.17 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

3.18 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('Deddf 1998') hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn esbonio sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

3.19 Er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac, yn benodol, a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

3.20 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym hefyd yn meddwl yn fwy eang am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith). Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;

[19] O dan adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015. Mae Gorchymyn Twf Economaidd (Swyddogaethau Rheoleiddio) (Diwygio) 2024 yn cymhwyso'r ddyletswydd a nodir yn adran 108 at Ofcom.

b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;

c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

3.21 Gwnaethom gynnal asesiad o effaith ein cynigion ar gydraddoldeb yn yr ymgynghoriadau ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr. Rydym yn nodi crynodeb o'n hasesiad, ymatebion rhanddeiliaid a'n casgliadau isod.

## Yr hyn roeddem wedi'i ddweud

3.22 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gwnaethom ddweud y byddai ein cynigion i leihau rhai o rwymedigaethau C4C i ddarparu cynnwys ar Channel 4, er mwyn rhoi'r hyblygrwydd iddo fuddsoddi mwy yn ei gynnwys a'i wasanaethau ar-lein, yn debygol o fod o fudd i gynulleidfaoedd iau yn benodol drwy gynyddu amrywiaeth ac ansawdd y cynnwys ar y llwyfannau maent fwyaf tebygol o'u defnyddio. Rydym hefyd wedi nodi y gallai ein cynnig i gadw gofynion newyddion craidd Channel 4 fod o fudd i gynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gan fod ymchwil yn dangos bod darpariaeth newyddion C4C yn boblogaidd ymysg y cynulleidfaoedd hyn.[20]

3.23 Roeddem yn cydnabod y gallai ein cynigion gael effaith niweidiol ar gynulleidfaoedd sy'n fwy dibynnol ar deledu darlledu traddodiadol, gan gynnwys pobl hŷn a'r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Gwnaethom hefyd ddweud ei bod yn bosibl na fydd ein cynigion i gadw cwotâu cynhyrchu rhanbarthol Channel 4 ar eu lefelau presennol, yn arwain at gynnydd posibl yn yr effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, neu'r economi greadigol yn yr ardaloedd hyn.[21]

3.24 Yn ymgynghoriad mis Gorffennaf, gwnaethom gyflwyno ein barn y gallai ein cynnig i gynyddu cwotâu MoE C4C gael effaith gadarnhaol ar yr economi greadigol yn y gwledydd. Gwnaethom ddweud y gallai'r cynigion hefyd wella'r ffordd y caiff bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a'u diwylliannau a'u traddodiadau eu hadlewyrchu a'u cynrychioli i wylwyr neu ddinasyddion yn y DU.[22]

3.25 Gwnaethom ddweud ei bod hefyd yn bosibl y gallai cynyddu cwotâu MoE Channel 4 olygu y bydd llai o gynhyrchu ar gyfer Channel 4 yn digwydd yn rhanbarthau Lloegr neu Lundain, a all gael effaith negyddol ar yr economi greadigol ac ar gynulleidfaoedd sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.[23]

## Sylwadau rhanddeiliaid

3.26 Mewn ymateb i'r ymgynghoriadau ym mis Rhagfyr a mis Gorffennaf, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon am effaith strategaeth digidol yn gyntaf C4C ar grwpiau penodol.[24] Roedd y rhain yn cynnwys cynulleidfaoedd sy'n dibynnu mwy ar wasanaethau darlledu traddodiadol (er enghraifft, cynulleidfaoedd hŷn a'r rheini heb fynediad band eang neu sydd mynediad cyfyngedig at fand eang), cynulleidfaoedd dall a rhannol ddall ac aelodau o weithlu'r diwydiant creadigol. Dywedodd nifer o randdeiliaid y byddai ein cynigion ynghylch

---

[20] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 8.

[21] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 8-9.

[22] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 6.

[23] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 6.

[24] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1-2; Ymateb RNIB i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1-2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.

cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol Channel 4 yn rhoi cynulleidfaoedd a chwmnïau cynhyrchu dan anfantais yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[25] Ar y llaw arall, roedd C4C o'r farn y dylai ein cynnig i gynyddu cwotâu MoE Channel 4 gael effaith gadarnhaol ar yr economi greadigol yn y gwledydd a gallai hefyd wella cynrychiolaeth cynulleidfaoedd.[26]

3.27 Rydym yn trafod y pwyntiau hyn a'n hymateb yn fanylach yn adran 5.

### Ein hasesiad

3.28 Rydym yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith bosibl y newidiadau ar gynulleidfaoedd sy'n fwy dibynnol ar wasanaethau llinol C4C. Rydym wedi ceisio lliniaru'r risg o unrhyw effeithiau andwyol ar gynulleidfaoedd llinol drwy ddiogelu elfennau craidd cyflawni cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus C4C, drwy sicrhau bod C4C yn parhau i ddarparu lefelau priodol o newyddion, materion cyfoes a chynyrchiadau gwreiddiol ar wasanaeth llinol Channel 4.

3.29 Rydym yn parhau i ystyried ei bod yn briodol i C4C gael mwy o hyblygrwydd i fuddsoddi mwy yn ei gynnwys a'i wasanaethau ar-lein. Mae hyn yn debygol o fod o fudd i gynulleidfaoedd iau, y mae gan C4C ddyletswydd benodol i'w gwasanaethu. Mae hefyd yn debygol o fod o fudd i gynulleidfaoedd llinol, gan y bydd cefnogi cynaliadwyedd ariannol C4C yn sicrhau y gall barhau i gyflawni dyletswyddau Channel 4 o ran cylch gwaith a chynnwys cyfryngau dros gyfnod nesaf y drwydded.

3.30 Rydym yn cydnabod pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd a'r sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac rydym yn rhoi sylw manylach i hyn yn adran 5 isod.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

3.31 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

### Yr hyn roeddem wedi'i ddweud

3.32 Yn ymgyngoriadau mis Rhagfyr a mis Gorffennaf, gwnaethom gyflwyno ein safbwynt na fyddai ein cynigion i adnewyddu trwydded Channel 4 yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw cylch gwaith C4C yn cynnwys rhaglenni Cymraeg (S4C yw'r gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg) ac nid yw trwydded Channel 4 yn cynnwys unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.[27]

### Sylwadau rhanddeiliaid

3.33 Mewn ymateb i'r ymgynghoriadau ym mis Rhagfyr a mis Gorffennaf, nododd Screen Scotland nad oedd unrhyw ystyriaeth debyg i asesiad o'r effaith ar yr iaith Aeleg.[28]

[25] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Dienw 2 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb WGGB i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

[26] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.

[27] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 9; Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 7.

[28] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1.

Dywedodd yr Athro Robert Beveridge y dylai C4C gael is-gwota ar gyfer cynhyrchu Gaeleg, oherwydd bod yr iaith mewn mwy o berygl na'r Gymraeg.[29]

3.34 Cytunodd C4C â'n hasesiad a nododd, er nad oes gofyniad arno i gomisiynu rhaglenni Cymraeg, ei fod yn cydweithio ag S4C ar nifer o raglenni Cymraeg.[30] Pwysleisiodd Cymru Greadigol y manteision anuniongyrchol y gellir eu gwireddu drwy weithio ar y cyd (gan gyfeirio hefyd at y cydweithio rhwng C4C ac S4C) ac awgrymodd y dylai unrhyw drwydded yn y dyfodol ddarparu fframwaith i gefnogi mwy o'r gwaith hwn.[31]

3.35 Nododd Cymru Greadigol y gallai unrhyw ofynion trwydded a allai leihau effaith gadarnhaol buddsoddiad C4C yng Nghymru gael effeithiau negyddol ar y Gymraeg.[32]

## Ein hasesiad

3.36 Rydym yn croesawu cydweithio rhwng C4C a rhanddeiliaid eraill yn y gwledydd (gan gynnwys darlledwyr eraill ac asiantaethau sgrin). Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad, nid yw cylch gwaith C4C yn cynnwys rhaglenni Cymraeg ac nid yw trwydded Channel 4 yn cynnwys unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Nid oes fframwaith ar gyfer Gaeleg sy'n cyfateb i'r fframwaith a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. BBC ALBA yw'r gwasanaeth cyfryngau Gaeleg sy'n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth rhwng y BBC ac MG ALBA.

3.37 At ei gilydd, rydym yn ystyried na fydd ein penderfyniadau yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[29] Ymateb yr Athro Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[30] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9.
[31] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 1.
[32] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.

# 4. Y cyd-destun rydym yn adnewyddu'r drwydded ynddo

## Y cyd-destun darlledu a'r strategaeth i drawsnewid C4C

4.1 Fel y nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, mae'r sector darlledu wedi newid yn aruthrol ers adnewyddu trwydded Channel 4 ddiwethaf yn 2014. Mae gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi gostwng yn sylweddol, yn enwedig ymysg grwpiau oedran iau, gyda mwy a mwy o gynulleidfaoedd yn gwylio cynnwys ar-alw. Ar yr un pryd, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cystadleuaeth ddwys a chynyddol am sylw cynulleidfaoedd gan wasanaethau ffrydio byd-eang, gan roi cynaliadwyedd system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU dan bwysau.

4.2 O ganlyniad, mae pob un o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU ar wahanol gamau yn eu strategaethau i symud o fodel darparu llinol yn bennaf i un digidol yn gyntaf. Mae proffil cynulleidfa C4C yn gwyro tuag at bobl iau na phroffil y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Dyma'r grŵp oedran sy'n troi oddi wrth wylio teledu llinol traddodiadol gyflymaf, gyda nifer y bobl 16-24 oed sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos yn gostwng o 76% yn 2018 i 48% yn 2023.[33]

4.3 Fel rhan o'r broses hon, roeddem wedi comisiynu ymchwil gan Jigsaw i wella ein dealltwriaeth o ganfyddiadau a defnydd cynulleidfaoedd o wasanaethau C4C. Canfu'r ymchwil fod brand Channel 4 yn apelio llai at gynulleidfaoedd iau.[34] Fodd bynnag, roedd cynulleidfaoedd hŷn a'r rheini sy'n fwy cyfarwydd â Channel 4 yn tueddu i weld y darlledwr yn gliriach fel darlledwr sy'n gwthio ffiniau ac sy'n fwy amrywiol yn ei allbwn na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[35]

4.4 Mae hyn oll yn golygu bod trawsnewidiad digidol llwyddiannus C4C yn bwysicach fyth. Mae wedi bod ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus cyntaf i nodi dull gweithredu sy'n blaenoriaethu twf digidol yn glir dros wylio llinol.

### Mae *Fast Forward* yn nodi cynlluniau C4C ar gyfer trawsnewid digidol

4.5 Ers i ni gyhoeddi'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, mae C4C wedi lansio ei strategaeth newydd sy'n arwydd bod C4C yn trawsnewid yn gyflymach i fod yn wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf. Dyma brif elfennau *Fast Forward*:

- Twf a thrawsnewidiad digidol: gan gynnwys symud buddsoddiad i gomisiynu digidol yn gyntaf a chanolbwyntio ar lai o deitlau sy'n cael mwy o effaith ac sy'n perfformio'n dda ar ei wasanaeth ffrydio ac yn ystod oriau brig ar Channel 4.
- Busnes newydd amrywiol: gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o symud i mewn i berchnogaeth eiddo deallusol a thyfu haen tanysgrifio ei wasanaeth ffrydio.

[33] Ofcom, Cyfryngau'r Genedl: y DU 2024, t. 9.
[34] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 23.
[35] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 22-23.

- Ail-lunio'r busnes ar gyfer byd digidol yn gyntaf: gan gynnwys lleihau nifer y bobl (mewn hen weithrediadau yn bennaf), symud allan o ganolfan C4C yn Llundain yn Horseferry Road i eiddo newydd, a chau sianeli llinol llai.

4.6 Rydym yn cefnogi'r amcanion y tu ôl i *Fast Forward*, ac mae cyflawni hyn yn llwyddiannus yn rhan hanfodol o allu C4C i barhau i gyflawni ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn y DU, yn enwedig gwylwyr iau, yn ogystal â helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd yn y tymor hir.

## Cyd-destun ariannol y drwydded newydd

4.7 Mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi bod yn gweithredu mewn amodau economaidd heriol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda dirywiad yn y farchnad hysbysebu ar y teledu yn dilyn adferiad ar ôl Covid yn 2021. Lleihaodd gwariant yn y farchnad hysbysebu ar y teledu 8.9% yn 2023 i £4.9bn (o £5.38bn y flwyddyn flaenorol). Cafodd hyn ei sbarduno gan leihad sylweddol o 13.6% mewn gwariant ar deledu llinol yn 2023, i £3.9bn. Cynyddodd gwariant ar hysbysebu ar lwyfannau darlledu fideo-ar-alw (BVoD) i £979.6m, sydd 15.9% yn uwch na'r ffigur yn 2022, gan barhau â thuedd o dwf cadarn. Ond nid yw hyn yn gwrthbwyso gostyngiadau mewn gwariant ar deledu llinol. Yn Ch1 2024, profodd y farchnad hysbysebu teledu'r twf cyntaf o un flwyddyn i'r llall mewn dwy flynedd, a hynny o ffigur cymedrol o 1.3%, wedi'i sbarduno gan BVoD, a oedd wedi codi 19.2%. Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd twf hysbysebion BVoD yn cyflymu ymhellach eleni, yn enwedig oherwydd hysbysebion ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr.[36]

### Mae'r amgylchedd economaidd heriol wedi effeithio ar C4C, ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch ei gynaliadwyedd ariannol

4.8 Mae model gweithredu presennol C4C yn golygu ei fod yn dibynnu'n bennaf ar hysbysebu i ariannu ei hun ac felly mae'n fwy agored na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol eraill i amrywiadau yn y farchnad hysbysebu. Yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod C4C wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd fel rhan o'i strategaeth *Fast Forward*, gan gynnwys dileu swyddi staff a datgomisiynu rhai cyfresi.

4.9 Fel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'r amgylchedd macroeconomaidd ehangach heriol wedi effeithio ar sefyllfa ariannol C4C. Mae'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf y mae wedi'i darparu i ni yn dangos bod ei refeniw yn 2022 a 2023 5% yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, dirywiad a sbardunwyd bron yn gyfan gwbl gan y gostyngiad mewn refeniw hysbysebu llinol.[37]

4.10 Er bod C4C wedi gwrthbwyso rhywfaint o'r gostyngiad refeniw yn 2022 a 2023 drwy wario llai ar gynnwys, mae terfyn ar lefel y gostyngiad sy'n bosibl wrth iddo fynd ar drywydd strategaeth gomisiynu digidol yn gyntaf sy'n canolbwyntio ar fuddsoddiad mewn rhaglenni sy'n cael llawer o effaith ac sy'n sbarduno twf. O ganlyniad i hynny, disgwylir y bydd y

[36] AA/WARC.

[37]Cyflwynodd C4C ei geisiadau i Ofcom am y drwydded newydd ym mis Mai 2023 ('cyflwyniad mis Mai 2023' C4C), a oedd yn cynnwys amcangyfrif o flwyddyn lawn o gostau a refeniw ar gyfer 2022 a ffigurau o'i gynllun busnes tair blynedd ar gyfer 2023 a 2024. Ers hynny, mae C4C wedi cyflwyno adroddiad ar gostau gwirioneddol 2022 a 2023 (costau, refeniw a gwarged/diffyg) ac wedi diweddaru ei amcanestyniadau refeniw a chostau ar gyfer 2024 (ymateb C4C i gais am wybodaeth, Ebrill 2024, Atodiad 1.v.).

gwarged disgwyliedig ar gyfer cyfnod y drwydded bresennol tua 30% yn is na'r hyn a ragwelwyd yng nghyflwyniad mis Mai 2023 C4C.

4.11 Mae strategaeth *Fast Forward* C4C wedi'i chynllunio i ymateb i newidiadau mewn arferion gwylio cynulleidfaoedd ac mae'n adlewyrchu'r angen i gyflymu arallgyfeirio ffrydiau refeniw oddi wrth hysbysebion llinol. Nod ei strategaeth flaenorol, sef *Future4*, oedd cynhyrchu 30% o gyfanswm refeniw drwy hysbysebu digidol erbyn 2025.[38] Yn *Fast Forward*, mae'r targed hwn wedi cael ei newid i 30% yn 2024, sef blwyddyn yn gynharach, a 50% erbyn 2030.[39]

4.12 Rhannodd C4C wybodaeth â ni am y targedau arbed costau ar gyfer strategaeth *Fast Forward* (2024 i 2026), er mwyn helpu i ailddylunio'r busnes ar gyfer y trawsnewid digidol.[40] Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd C4C yn gallu cefnogi ei anghenion comisiynu byrdymor os caiff yr arbedion cost hyn eu cyflawni.

4.13 Fodd bynnag, mae perfformiad diweddar C4C yn dangos nad yw'r ansicrwydd hirdymor ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng refeniw llinol a digidol, a'i gynaliadwyedd ariannol, wedi lleihau. Yn ein hadolygiad diweddaraf o Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau C4C ('Adroddiad SMCP')[41], gwnaethom ddweud bod C4C yn esblygu ei strategaeth hysbysebu i adlewyrchu newidiadau mewn technoleg ac arferion cynulleidfaoedd. Ond mae perfformiad cymharol ei ffrydiau refeniw llinol a digidol yn dangos bod angen iddo gyflymu ei drawsnewidiad digidol. Rydym yn dal o'r farn bod angen i C4C gadw hyblygrwydd, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau comisiynu, er mwyn trawsnewid i fod yn ddarlledwr digidol yn gyntaf a pharhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd a sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor.

4.14 Rydym yn trafod rhagamcanion ariannol diweddaraf C4C a'n profion ar ei dybiaethau yn yr adran ar hyd trwyddedau yn adran 5.

## Y Ddeddf Cyfryngau a chyd-destun deddfwriaethol y drwydded newydd

4.15 Ers i ni gyhoeddi'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, mae Deddf Cyfryngau 2024 wedi dod yn gyfraith. Bydd y Ddeddf Cyfryngau yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU i drawsnewid yn ddigidol. Mae'n galluogi newidiadau i'r ffordd y mae C4C yn cyflawni ei rwymedigaethau a'i fodel gweithredu, gan gynnwys drwy'r canlynol:

- Diweddaru'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn ffordd a fydd yn cefnogi C4C yn ei drawsnewidiad digidol drwy alluogi darlledwyr gwasanaeth

[38] Tudalen we: Future4 strategy.
[39] Tudalen we: Fast Forward strategy.
[40] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill 2024, Atodiad 1. u.
[41] O dan adran 198B o'r Ddeddf, mae'n rhaid i C4C gyhoeddi datganiad blynyddol o bolisi cynnwys cyfryngau sy'n nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn ystod y flwyddyn i ddod ac sy'n adrodd ar ei berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhaid i C4C ymgynghori ag Ofcom wrth baratoi'r datganiad a rhoi sylw i ganllawiau Ofcom. O dan adran 266 o'r Ddeddf, rhaid i C4C baratoi datganiad tebyg mewn perthynas â chyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a rhwymedigaethau trwydded Channel 4. Yn ein canllawiau, gofynnwn i C4C gyfuno'r datganiadau mewn dogfen rydym yn cyfeirio ati fel Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau (SMCP) C4C. Mae ymateb Ofcom i adroddiadau SMCP C4C, a'n Hadroddiad SMCP diweddaraf, i'w gweld yn: Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ynghylch ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2023.

cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar draws ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys llwyfannau ar-lein trydydd parti, a nifer o'u cwotâu ar wasanaethau ar-alw dynodedig.

- Cyflwyno trefn newydd i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus byw ac ar-alw ar gael ac yn cael amlygrwydd ar lwyfannau teledu clyfar mawr, gan ategu'r rheolau amlygrwydd presennol ar gyfer amserlenni rhaglenni electronig (EPG).

4.16 Byddwn yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith cyn gynted â phosibl ac rydym wedi cyhoeddi Map sy'n nodi ein cynllun lefel uchel ar gyfer gwneud hynny.[42]

4.17 Mae dau newid arall sy'n berthnasol i'r drwydded newydd eisoes wedi dod i rym:

- mae'r cyfyngiad ar C4C i greu rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4, a elwir yn 'gyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr', wedi cael ei ddileu.[43] Cafodd y cyfyngiad hwn ei osod fel amod o drwydded bresennol Channel 4 ac felly byddwn yn tynnu'r amod o'r drwydded newydd.
- mae'r ddarpariaeth i drwydded Channel 4 gynnwys cwota rhaglenni i ysgolion wedi cael ei dileu hefyd.[44] Byddwn yn tynnu'r cwota hwn oddi ar y drwydded newydd.

# Ein dull gweithredu ar gyfer gosod trwydded newydd i Channel 4

## Yr hyn roeddem wedi'i ddweud

4.18 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roeddem wedi nodi, wrth bennu amodau a hyd priodol trwydded newydd Channel 4, ein bod wedi ystyried y newidiadau cyflym yn y dirwedd ddarlledu a'r tebygolrwydd y bydd arferion cynulleidfaoedd yn parhau i esblygu dros gyfnod y drwydded. Roeddem hefyd wedi ystyried yr angen i C4C ymateb i'r heriau hyn drwy drawsnewid tuag at fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf, yn unol â'i strategaeth.[45]

4.19 Wrth ystyried y ffactorau hyn, gwnaethom ddweud bod ein dull gweithredu yn ceisio taro cydbwysedd rhwng rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C yn y dyfodol i ddatblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu i gefnogi ei drawsnewidiad digidol, gan barhau i ddiogelu ei fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw yn y DU a diogelu'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol. Gwnaethom ailadrodd y dull hwn yn ymgynghoriad mis Gorffennaf.[46]

4.20 Ymatebodd rhai rhanddeiliaid i'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gosod y drwydded newydd yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr. Rydym yn nodi'r safbwyntiau hyn a'n hymateb isod.

---

[42] Ofcom, Map Deddf Cyfryngau, Chwefror 2024.

[43] Nodwyd y cyfyngiad yn adran 295 o'r Ddeddf. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i C4C beidio â chymryd rhan, ac eithrio i'r graddau y gallai Ofcom eu caniatáu, yn y broses o wneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4. Caiff ei ddirymu gan adran 31 o'r Ddeddf Cyfryngau.

[44] Roedd y ddarpariaeth yn adran 296 o'r Ddeddf a ddirymir gan adran 16 o'r Ddeddf Cyfryngau.

[45] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 31.

[46] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 10.

## Sylwadau rhanddeiliaid

4.21 Roedd C4C yn cytuno â'n dull gweithredu. Dywedodd ei fod yn gyson â'i drawsnewid digidol parhaus ac y byddai'n sicrhau effeithiau cadarnhaol i gynulleidfaoedd yn y DU.[47]

4.22 Roedd Dr Phil Ramsey o Brifysgol Ulster yn cytuno â'n dull o "sicrhau cydbwysedd" rhwng cadw elfennau craidd cylch gwaith Channel 4 a rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C o ran sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau, gan gyfeirio at newid mewn arferion teledu a'r ffaith bod sefyllfa unigryw C4C yn golygu ei fod yn fwy agored i amrywiadau yn y farchnad hysbysebu ac na allai wneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4 ar yr adeg.[48]

4.23 Roedd ITN yn cytuno'n fras â'n dull gweithredu sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut mae allbwn newyddion Channel 4 yn cael ei ddarparu. Ond, roedd yn annog "peidio â rhoi gormod o bwyslais ar un math o berfformiad dros un arall".[49]

4.24 Roedd VLV yn cytuno â'n dull gweithredu a'n hasesiad o'r newid yn y dirwedd darlledu ac arferion gwylio cynulleidfaoedd, sy'n mynnu bod darlledwyr yn ehangu eu darpariaeth ar-alw. Roedd yn cwestiynu i ba raddau y mae'n bosibl rhagweld yn gywir sut bydd y dirwedd yn esblygu dros gyfnod nesaf y drwydded, ac roedd yn croesawu ymrwymiad C4C y bydd newidiadau i'w fodel darparu cynnwys yn digwydd yn raddol, gan gydnabod bod gwylio Channel 4 yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd.[50]

4.25 Roedd nifer o randdeiliaid yn cytuno'n fras â'n dull gweithredu, ac eithrio ein cynigion ynghylch cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol Channel 4.[51]

4.26 Dywedodd Screen Scotland fod strategaeth C4C o flaenoriaethu twf digidol dros niferoedd llinol ond yn rhesymegol os yw Channel 4 yn parhau i gyflawni yn erbyn ei gylch gwaith a'i ddibenion craidd, a bod risg, wrth "lacio cynifer o ofynion" a chaniatáu i C4C ganolbwyntio ar ennill cynulleidfaoedd torfol gyda chynnwys masnachol gan osgoi "genres mewn perygl", bod Ofcom yn "galluogi C4C i oroesi ond ar draul ei ddiben".[52]

4.27 Roedd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom yn cytuno â'r hyblygrwydd sy'n rhan annatod o'n dull gweithredu cyffredinol ond yn rhybuddio na ddylai "chwilio am gynaliadwyedd masnachol [ar gyfer C4C] wanhau cylch gwaith amrywiol a diwylliannol Channel 4". Dywedodd fod yn rhaid i ddull gweithredu Ofcom ar gyfer y drwydded newydd gael ei weld fel rhan o ddarlun mwy er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft unrhyw effaith ar y sector cynhyrchu yn yr Alban.[53]

4.28 Dywedodd RNIB y dylai ein dull gweithredu bwysleisio, tra ein bod ni'n cefnogi strategaeth digidol yn gyntaf C4C, ein bod yn ceisio "taro cydbwysedd rhwng rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C yn y dyfodol i ddatblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu i gefnogi ei drawsnewidiad digidol, gan barhau i ddiogelu ei fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw yn y DU a diogelu'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol i *holl gynulleidfaoedd y DU*". Dywedodd yr RNIB, er bod Channel 4 yn honni ei fod yn canolbwyntio ar allbynnau digidol, mae diffyg

---

[47] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8-9.
[48] Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1.
[49] Ymateb ITN i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[50] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[51] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5-6; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1.
[52] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[53] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.

gwasanaethau mynediad ar ei arlwy digidol, sy'n golygu nad yw gwasanaethau digidol Channel 4 yn barod eto i gyflawni eu rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[54]

### Ein hymateb

4.29 Wrth benderfynu ar ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer trwydded newydd Channel 4, rydym wedi ystyried y sefyllfa ehangach y mae C4C yn ei hwynebu, y newidiadau tebygol yn ymddygiad cynulleidfaoedd dros gyfnod nesaf y drwydded a sut mae C4C wedi mynegi ei ymateb i hyn drwy ei strategaethau presennol. Rydym yn rhoi pwys mawr ar yr angen i C4C drawsnewid yn ddigidol yn llwyddiannus er mwyn sicrhau ei gynaliadwyedd tymor hir a sicrhau ei fod yn gallu parhau i gyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf er budd cynulleidfaoedd y DU. Ein dull cyffredinol o bennu'r drwydded, lle bo hynny'n briodol, yw rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C sicrhau bod ei gynnwys yn cael yr effaith fwyaf bosibl gyda chynulleidfaoedd, yn enwedig y cynulleidfaoedd iau y mae'n ofynnol iddo eu gwasanaethu yn benodol.

4.30 Nid ydym yn cytuno bod caniatáu mwy o hyblygrwydd i C4C yn awtomatig yn arwain at berygl o wanhau'r gwaith o gyflawni cylch gwaith Channel 4 nac yn ei annog i ganolbwyntio ar ysgogi cynulleidfaoedd torfol yn unig. Ein barn ni yw y bydd rhoi hyblygrwydd priodol i C4C o ran ei rwymedigaethau yn ei alluogi i ddarparu cynnwys unigryw a fydd yn sefyll allan ar wasanaethau ffrydio ac yn ystod oriau brig llinol ar Channel 4 yn unol â'i strategaeth *Fast Forward*. Bydd hyn yn sicrhau bod C4C yn parhau i ddarparu cynnwys lle mae cynulleidfaoedd yn gwylio a lle mae'n diwallu eu hanghenion orau. Dylai hyn, yn ei dro, helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd dros gyfnod nesaf y drwydded. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod arwyddocâd parhaus tebygol gwylio llinol i Channel 4 yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, rhywbeth y tynnodd C4C ei hun sylw ato yn ei gyflwyniad cychwynnol i ni ym mis Mai 2023, yn nodi ei safbwyntiau ar y drwydded newydd ('cyflwyniad Mai 2023' gan C4C) ac rydym wedi ceisio diogelu elfennau cyflawni cylch gwaith C4C ar Channel 4 y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi fwyaf. Byddwn yn parhau i asesu sut mae C4C yn cyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar draws ei holl wasanaethau drwy ein Hadroddiad SMPC blynyddol, a'i ddal i gyfrif lle rydym o'r farn nad yw'n cyrraedd y nod, fel rydym wedi'i wneud yn ddiweddar ar gyfer plant hŷn ac oedolion iau.[55]

4.31 Rydym yn cytuno â'r RNIB y dylai strategaeth digidol yn gyntaf barhau i fod yn hygyrch i gynulleidfaoedd anabl. Fel y dywedodd RNIB, mae C4C yn darparu llawer mwy o wasanaethau mynediad darlledu na'r hyn sy'n ofynnol gan Ofcom – er enghraifft, yn 2023, roedd 51.8% o oriau ar Channel 4 yn cynnwys disgrifiadau sain ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall, o'i gymharu â'i gwota o 10%. Bydd y Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad ar wasanaethau ar-alw Channel 4, yn ogystal â gofynion y gall pobl anabl ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau teledu cysylltiedig. Byddem bob amser yn annog unrhyw ddarlledwr i ystyried y gofynion hyn fel isafswm, ac rydym yn nodi bod C4C eisoes yn darparu disgrifiadau sain (mewn niferoedd uwch na'r hyn sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfryngau)[56] ar ei wasanaeth ar-alw pan fydd yn cael ei ddefnyddio drwy lwyfannau penodol – er enghraifft, yn 2023, roedd 39% o'r oriau rhaglennu yn cynnwys disgrifiadau sain wrth gael gafael arnynt drwy wefan Channel 4, Roku, neu'r ap symudol Android. Yn 2023, roedd

[54] Ymateb RNIB i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.
[55] Ofcom, Perfformiad Corfforaeth Channel Four Television wrth gyflawni ei dyletswyddau cynnwys a'i chylch gorchwyl yn 2021, t. 15; Ofcom, Perfformiad Corfforaeth Channel Four Television wrth gyflawni ei dyletswyddau cynnwys a'i chylch gorchwyl yn 2022, t. 12.
[56] Ofcom, Map Deddf Cyfryngau, Chwefror 2024, t. 15.

gwasanaeth ar-alw Channel 4 yn darparu bron i 100% o gynnwys gydag isdeitlau drwy'r rhan fwyaf o lwyfannau ac yn darparu rhywfaint o gynnwys iaith arwyddo ar bob llwyfan.[57]

[57]Ofcom, Gwasanaethau rhaglenni teledu ac ar-alw: Adroddiad gwasanaethau mynediad – mis Ionawr i fis Rhagfyr 2023.

# 5. Penderfyniadau ynghylch y drwydded

## Newyddion

### Amodau trwydded newydd

Bydd C4C yn darparu:

- **dim llai na 208 awr** o newyddion **yn ystod oriau gwylio brig**, bob blwyddyn galendr ar Channel 4; ac
- **un rhaglen newyddion** yn achlysurol drwy gydol y cyfnod tra darperir Channel 4, gan gynnwys un rhaglen yn gynnar gyda'r nos bob diwrnod o'r wythnos ac ar **ddydd Sadwrn a dydd Sul.**

### Gofyniad statudol

5.1 Mae Adran 279 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn sicrhau: a) bod y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y sianel yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes; b) bod y rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol; ac c) bod rhaglenni newyddion o'r fath yn cael eu darlledu i'w gwylio yn achlysurol drwy gydol y cyfnod tra darperir y sianel.

5.2 Mae Adran 279 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn gosod amodau sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau nad yw'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn llai na'r hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel cyfran briodol o'r amser sy'n cael ei neilltuo i ddarlledu'r holl raglenni, a bod yr amser ar gyfer pob un yn cael ei rannu mewn dull sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol rhwng oriau gwylio brig ac adegau eraill.

5.3 Wrth osod amodau yn y drwydded sy'n ymwneud â newyddion, rhaid i ni ystyried y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn adran 264 o'r Ddeddf, yn benodol:

> bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (o'u hystyried gyda'i gilydd) yn darparu, i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch newyddion a materion cyfoes, sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes y Deyrnas Unedig, a'r gwahanol rannau ohoni, ac o bedwar ban byd.[58]

## Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

### Cadw dim llai na 208 awr o newyddion yn yr oriau brig

5.4 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gwnaethom gynnig cadw'r gofyniad presennol i C4C ddarparu dim llai na 208 awr o newyddion yn ystod oriau gwylio brig bob blwyddyn galendr ar Channel 4. Gwnaethom nodi nad yw'r darpariaethau hyn wedi newid ers i Ofcom gyhoeddi ei drwydded gyntaf ar gyfer Channel 4 yn 2004. Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023,

[58] Adran 264(6)(c) o'r Ddeddf.

roedd C4C yn cynnig bod Ofcom yn cadw’r cwota presennol ar gyfer oriau o newyddion yn ystod y cyfnod brig ond yn dileu’r gofynion amser cinio a phenwythnos.[59]

5.5 Gwnaethom ddweud bod newyddion teledu byw yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd, gan gyrraedd 70% o oedolion y DU yn 2023, a bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn gonglfaen o ran darparu newyddion teledu, gan gyrraedd cyfanswm o 94% o gynulleidfaoedd newyddion teledu yn 2023 gyda’i gilydd. Roedd gan *Channel 4 News* ran bwysig i’w chwarae yn hyn, gan gyrraedd 24% o’r holl gynulleidfaoedd a oedd yn defnyddio’r teledu ar gyfer newyddion. Roeddem hefyd wedi dweud bod *Channel 4 News* yn cynnig rhywbeth gwahanol i ddarparwyr newyddion eraill ac wedi cyrraedd cynulleidfa ychydig yn wahanol i raglenni newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[60]

5.6 Er bod y cyfryngau cymdeithasol wedi chwarae rhan bwysig o ran denu cynulleidfaoedd newydd ac iau i allbwn newyddion Channel 4 ac wedi bod yn ddefnyddiol o ran eu cyflwyno i’r bwletinau llinol, roedd y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, yn dal i wylio newyddion ar y teledu.[61] Arweiniodd hyn atom yn dod i'r casgliad y dylid cadw’r ddarpariaeth bresennol o newyddion teledu llinol drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf.[62]

## Cael gwared ar y gofyniad amserlennu newyddion amser cinio

5.7 Gwnaethom ddweud nad oedd bwletin amser cinio *Channel 4 News*, sydd ddim ond yn para 5 munud, yn cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol ac nad oedd yn rhan sylweddol o allbwn newyddion Channel 4. Gwnaethom nodi bod gostyngiad wedi bod yn y gyfran sy’n gwylio’r bwletin amser cinio ers 2015, yn wahanol i gyfrannau gwylio rhaglenni newyddion amser cinio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, ffaith nad oedd yn adlewyrchu perfformiad allbwn newyddion cyffredinol Channel 4. Gwnaethom hefyd ddweud bod ein dadansoddiad yn dangos y gallai’r bwletin amser cinio amharu ar wylio Channel 4 yn ystod y dydd, gan arwain at golli cyfran y gynulleidfa ar ôl y bwletin.[63]

5.8 Roeddem wedi asesu a allai colli’r bwletin newyddion amser cinio gael effaith anghymesur ar rai cynulleidfaoedd. Oherwydd bod cynulleidfaoedd cyson i’r bwletin amser cinio yn gwylio mwy o newyddion mewn mannau eraill ar Channel 4, a mwy o newyddion yn gyffredinol, na’r gwyliwr cyfartalog, nid oedd yr effaith ar gynulleidfaoedd yn debygol o fod yn sylweddol.[64]

5.9 Gwnaethom hefyd ddweud, pe baem yn dileu’r gofyniad hwn, fod C4C wedi dweud na fyddai’n dileu’r bwletin amser cinio ar unwaith. Yn hytrach, roedd am gael yr hyblygrwydd i’w ddileu ar adeg briodol yn ystod cyfnod y drwydded nesaf.[65]

## Cadw gofynion amserlennu newyddion dros y penwythnos

5.10 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gwnaethom nodi, yn wahanol i’r bwletin amser cinio, fod tystiolaeth bod rhaglenni newyddion dros y penwythnos yn darparu gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd, fel y dangosir gan eu cyrhaeddiad a’u cyfran gwylio. Mae ganddynt tua’r un

[59] Cyflwyniad mis Mai 2023 C4C, t. 18.
[60] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 34-35.
[61] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 36-37.
[62] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 38.
[63] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 38-39.
[64] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 39.
[65] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 39.

gyfran gwylio â'r rhaglenni gyda'r nos yn ystod yr wythnos (tua 4%) ac maent yn cyfrannu 14% at lefelau gwylio newyddion cyffredinol Channel 4.[66]

5.11 Roeddem wedi asesu sut gallai unrhyw newid i ddarpariaeth rhaglenni newyddion y penwythnos effeithio ar gynulleidfaoedd. Roeddem wedi canfod, oherwydd proffil hŷn cynulleidfa newyddion y penwythnos, y gallai unrhyw newid yn narpariaeth newyddion y penwythnos gael effaith anghymesur ar gynulleidfaoedd hŷn sy'n tueddu i ddibynnu ar ffynonellau newyddion mwy cyfyngedig.[67]

5.12 Roeddem hefyd wedi dweud, pe byddem yn dileu'r gofyniad yn unol â chais C4C, y gallai hyn arwain at golli'r ddarpariaeth newyddion ar un diwrnod ar y penwythnos. Gwnaethom ddweud nad oeddem yn credu bod bwlch yn y ddarpariaeth newyddion ddyddiol yn briodol i gynulleidfaoedd nac i gyflawni'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[68] Daethom i'r casgliad ein bod yn credu ei bod yn briodol cadw'r gofynion presennol i sicrhau bod rhaglenni newyddion ar benwythnosau yn parhau i gael eu darparu i gynulleidfaoedd ar Channel 4.[69]

# Crynodeb o'r ymatebion

## Cadw dim llai na 208 awr o newyddion yn yr oriau brig

5.13 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gryf â'n cynnig i gadw dim llai na 208 awr o newyddion yn ystod yr oriau brig.

5.14 Roedd ymateb C4C yn cefnogi ein cynnig i gynnal y cwota presennol ar gyfer newyddion yn ystod oriau brig. Dywedodd C4C fod hyn yn cydnabod y cyfraniad y mae ei raglenni newyddion min nos yn ei wneud i'w gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Nododd hefyd, o ystyried natur ddarniog y dirwedd newyddion a'r bygythiad cynyddol o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, fod darpariaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o newyddion dibynadwy yn bwysicach nag erioed.[70]

5.15 Roedd rhanddeiliaid eraill yn cytuno â'n rhesymeg, er bod mwy a mwy yn cael gafael ar newyddion ar-lein a bod hynny'n dod yn fwyfwy pwysig, yn enwedig i wylwyr iau, mae newyddion llinol yn dal i gael yr effaith fwyaf a dylid ei ddiogelu.[71] Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn cytuno â ni wrth dynnu sylw at natur unigryw arlwy newyddion Channel 4.[72]

5.16 Nododd Screen Scotland fod cadw'r gofyniad newyddion brig yn arbennig o bwysig yng ngoleuni ein cynigion i ddileu'r gofyniad amserlennu newyddion amser cinio ac i leihau cwota materion cyfoes Channel 4 (gweler paragraff 5.33 isod).[73]

5.17 Yn ei ymateb i'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, roedd ITN yn cytuno'n fras â'n dull gweithredu ar gyfer gosod trwydded newydd sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut

---

[66] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 40.
[67] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 40-41.
[68] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 40.
[69] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t.41.
[70] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 10.
[71] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4-5; Ymateb ITN i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb ITN i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Dienw 2 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6; Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1-2; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[72] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[73] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.

mae allbwn newyddion Channel 4 yn cael ei ddarparu, gan gydnabod y newidiadau yn ymddygiad gwylio cynulleidfaoedd sy'n golygu bod cynulleidfaoedd iau yn benodol yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fwyfwy i gael newyddion. Ar yr un pryd, roedd yn pwysleisio cadernid newyddion llinol ac yn annog "peidio â rhoi gormod o bwyslais ar un math o berfformiad dros un arall".[74]

## Cael gwared ar y gofyniad amserlennu newyddion amser cinio

5.18 Yn unol â'i gyflwyniad cyn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roedd C4C yn cefnogi cael gwared ar y bwletinau newyddion amser cinio yn ystod yr wythnos er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd iddo wneud penderfyniadau amserlennu yn ystod cyfnod y drwydded nesaf.[75]

5.19 Roedd rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi ein cynigion i gael gwared ar y gofyniad amserlennu newyddion amser cinio.[76] Dywedodd ITN – sy'n gwneud y bwletin amser cinio ar gyfer C4C – fod y bwletin newyddion amser cinio yn cynnig cyfle i'r ystafell newyddion feddwl am ddatblygiadau'r diwrnod, ond nid yw'n gyrchfan hanfodol i gynulleidfaoedd ac y gellid ystyried bod darparu cynnwys ar-lein yn fwy o flaenoriaeth.[77] Roedd Dr Phil Ramsey yn cytuno â'n cynnig, gan nodi bod y ffaith fod y bwletin amser cinio ddim ond yn cyfrif am 1% o gyfanswm gwylio newyddion cyffredinol Channel 4 yn golygu ei fod yn chwarae rôl gyfyngedig iawn yn narpariaeth newyddion cyffredinol Channel 4.[78] Dywedodd VLV mai dim ond penawdau y mae'r bwletin amser cinio yn eu darparu ac nad yw'n darparu gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd o'i gymharu â'r bwletin min nos.[79]

5.20 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom yn cytuno â'n cynigion. Ond, roedd yn nodi y dylai unrhyw arbedion cost a wneir drwy gael gwared ar y bwletin gael eu rhoi yn ôl yn y bwletin newyddion min nos neu yn y ddarpariaeth newyddion ar-lein.[80] Roedd TAC yn cytuno hefyd, gan nodi y gallai cael gwared ar y bwletin greu cyfleoedd newydd ar gyfer rhagor o gomisiynu gwreiddiol yn ystod y dydd.[81]

5.21 Fodd bynnag, roedd nifer o randdeiliaid yn anghytuno â'n cynigion i gael gwared ar y gofyniad newyddion amser cinio, gan nodi bod rhai cynulleidfaoedd yn ei chael hi'n anoddach cael gafael ar newyddion oriau brig; er enghraifft, roedd Screen Scotland a Cymru Greadigol wedi tynnu sylw at yr effaith bosibl y gallai cael gwared ar y bwletin ei chael ar bobl hŷn a'r rheini sydd â phatrymau gweithio shifftiau.[82] Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom y bydd sectorau bach o gymdeithas yn dal i werthfawrogi'r bwletin amser cinio, e.e. y rheini sydd bellach yn gweithio gartref.[83]

5.22 Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom nad yw dileu'r bwletin amser cinio yn cyd-fynd ag ymrwymiad cyffredinol C4C i ddarparu newyddion, fel y nodwyd yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023. Hefyd, nid oedd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom yn credu bod tarfu ar yr

---

[74] Ymateb ITN i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[75] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 12.
[76] Ymateb Richard Langworthy i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Dienw 1 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Dienw 2 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1.
[77] Ymateb ITN i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 4-5.
[78] Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[79] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.6.
[80] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.
[81] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[82] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[83] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.

amserlen yn rheswm dilys a digonol dros ddileu'r bwletin newyddion amser cinio.[84] Dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n bryderus o weld unrhyw ostyngiad yn allbwn newyddion presennol Channel 4, gan gynnwys y bwletin amser cinio.[85]

### Cadw gofynion amserlennu newyddion dros y penwythnos

5.23 Roedd rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi ein cynigion i gadw'r gofyniad i ddarparu newyddion ar Channel 4 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

5.24 Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom y byddai rhoi newyddion penwythnos mewn slot penodol yn annog pobl i wylio.[86] Dywedodd Vernon Barnes fod allbwn newyddion Channel 4 ar benwythnosau yn unigryw, ac roedd yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newid i ofynion amserlennu newyddion y penwythnos.[87]

5.25 Er bod C4C wedi gofyn o'r blaen i gael gwared ar y gofyniad amserlennu newyddion dros y penwythnos,[88] yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roedd yn derbyn ein cynnig i gadw'r gofyniad ar y sail bod newyddion ar y penwythnos yn dal yn bwysig yn enwedig i gynulleidfaoedd hŷn.[89]

## Ein hymateb

5.26 Rydym yn nodi bod rhanddeiliaid yn cefnogi ein cynnig i gadw'r gofyniad presennol am ddim llai na 208 awr o newyddion yn ystod oriau brig bob blwyddyn galendr, ac rydym yn parhau i ystyried bod ein cynnig yn dal yn briodol. Rydym o'r farn y bydd newyddion llinol yn ystod oriau brig yn dal yn bwysig drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf. Mae cwota presennol Channel 4 o 208 awr o newyddion yn ystod oriau brig, ynghyd â'r gofyniad i ddarparu rhaglen yn gynnar gyda'r nos bob diwrnod yn ystod yr wythnos, wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod rhaglen deledu newyddion fanwl yn cael ei darparu ar Channel 4 yn ystod oriau brig bum noson yr wythnos. Rydym o'r farn y bydd y cwota yn dal yn effeithiol o ran cyflawni hyn yn ystod cyfnod y drwydded newydd. Canfu ymchwil Jigsaw a gomisiynwyd gennym fel rhan o'r broses aildrwyddedu fod gan Channel 4 News hunaniaeth unigryw ymysg ei gynulleidfaoedd. Roedd cynulleidfaoedd yn teimlo ei fod yn darparu newyddion diduedd a dibynadwy ac yn barod i herio syniadau sefydliadau. Mae cymeriad unigryw Channel 4 News, o ran ei fformat a'i ddull golygyddol, yn parhau i ategu'r gwaith o ddarparu newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, er mwyn sicrhau bod y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyflawni ar y cyd.

5.27 Rydym yn cydnabod y gallai'r bwletin amser cinio fod yn ddefnyddiol i rai pobl – yn enwedig y rheini nad ydynt yn gweithio oriau safonol. Fodd bynnag, o ystyried bod ein dadansoddiad yn dangos bod gwylwyr cyson y bwletin amser cinio yn gwylio mwy o newyddion mewn mannau eraill ar Channel 4, a mwy o newyddion yn gyffredinol, na'r gwyliwr cyfartalog, rydym o'r farn bod y cynulleidfaoedd hyn yn cael eu gwasanaethu'n dda gan newyddion o ffynonellau eraill. Bydd buddsoddiad parhaus C4C mewn darpariaeth newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn helpu i wrthbwyso'r effaith ar bobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar y rhaglen newyddion min nos. Mae cynulleidfaoedd i'r slot newyddion amser cinio yn iau na'r rheini i'r rhaglen gyda'r nos, felly nid ydym yn credu bod gwylwyr hŷn – sy'n llai

[84] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 3-4.
[85] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 2.
[86] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[87] Ymateb Mr Vernon Barnes i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.1.
[88] Cyflwyniad mis Mai 2023 C4C, t. 18.
[89] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 12.

tebygol o ddefnyddio ffynonellau eraill, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol, ar gyfer newyddion – yn debygol o fod ar eu colled os na ddarperir y bwletin amser cinio.

5.28 Roedd yr ymatebwyr yn rhannu ein barn, bod rhaglenni newyddion y penwythnos, yn wahanol i'r bwletin amser cinio, yn rhoi gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd, eu bod yn llawer mwy sylweddol a manwl, fel sy'n cael ei ddangos gan eu cyrhaeddiad a'u cyfran sylweddol o'r gwylio. Felly, rydym yn dal o'r farn y dylai Channel 4 barhau i ddarparu newyddion bob dydd, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

## Ein penderfyniad

5.29 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i gadw'r gofyniad am o leiaf 208 awr o newyddion yn ystod oriau brig bob blwyddyn galendr, i gael gwared ar y gofyniad amserlennu newyddion amser cinio ac i gadw'r gofyniad amserlennu newyddion ar benwythnosau.

# Materion Cyfoes

### Amodau trwydded newydd

Bydd C4C yn darparu:

- **dim llai na 80 awr o** faterion cyfoes yn ystod oriau gwylio brig bob blwyddyn galendr ar Channel 4; a
- **dim llai na 178 awr o** faterion cyfoes nob blwyddyn galendr ar Channel 4.

### Gofyniad statudol

5.30 Mae Adran 279 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae Ofcom yn credu sy'n briodol i sicrhau'r canlynol: a) bod y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y sianel yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes; a b) bod rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol.

5.31 Mae Adran 279 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn gosod amodau sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau nad yw'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn llai na'r hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel cyfran briodol o amser sy'n cael ei neilltuo i ddarlledu pob rhaglen, a bod yr amser ar gyfer pob un yn cael ei rannu yn yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel dull priodol rhwng oriau gwylio brig ac adegau eraill.

5.32 Wrth osod amodau yn y drwydded sy'n ymwneud â materion cyfoes, rhaid i ni hefyd ystyried y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn adran 264 o'r Ddeddf, yn benodol: bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (o'u hystyried gyda'i gilydd) yn darparu, i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch newyddion a materion cyfoes, sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes y Deyrnas Unedig, a'r gwahanol rannau ohoni, ac o bedwar ban byd.[90]

[90] Adran 264(6)(c) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

# Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

## Lleihau'r cwota 'pob awr' i ddim llai na 178 awr

5.33 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr roeddem yn cynnig lleihau'r gofyniad am gynnwys materion cyfoes o'r 208 awr bresennol i 178 awr ym mhob blwyddyn galendr. Roedd hyn yn unol â chais C4C.[91] Roeddem yn dadlau bod y gostyngiad hwn yn briodol i gefnogi strategaeth ddigidol C4C a sut roedd yn cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau i wneud "cynnwys cyfryngau perthnasol sy'n apelio at chwaeth a diddordebau plant hŷn ac oedolion ifanc" a'i fod "yn cynnwys newyddion a materion cyfoes". Roeddem hefyd yn dadlau y byddai cadw'r gofyniad am 178 awr o faterion cyfoes llinol yn parhau i ddiogelu cynnwys materion cyfoes llinol o ansawdd uchel.[92]

5.34 Roeddem yn cydnabod, o ystyried ei fodel gweithredu, ei bod yn annhebygol y byddai C4C yn gallu buddsoddi cyllideb ychwanegol sylweddol mewn materion cyfoes digidol yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, a bod y gyfran a ddyrannwyd i faterion cyfoes o gyfanswm ei gyllideb yn annhebygol o newid yn sylweddol. O ystyried hyn, gwnaethom ddweud ein bod yn credu ei bod yn briodol i ni leihau'r cwota materion cyfoes cyffredinol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C gomisiynu a darparu cynnwys materion cyfoes ar lwyfannau y mae cynulleidfaoedd iau yn fwyaf tebygol o fod yn eu gwylio.[93] Dywedodd C4C wrthym fod llwyddiant ei elfen *Untold* yn awgrymu y gallai eu cyrraedd drwy gynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf o safon wedi'i ddosbarthu drwy Channel 4 Streaming, YouTube a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill. Dywedodd y byddai'r gostyngiad hwn yn caniatáu iddo ail-fuddsoddi mewn comisiynu digidol ac roedd yn amcangyfrif y gallai ganiatáu iddo "dreblu ei allbwn o benodau *Untold* o tua 20 pennod y flwyddyn i hyd at tua 60".[94]

5.35 Gwnaethom ddweud dylai Channel 4, yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, anelu at gynyddu faint o gynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf mae'n ei ddarparu, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd iau gyda newyddiaduraeth ymchwiliol o ansawdd uchel, gan barhau i gynyddu'r gwylwyr ffrydio.[95]

5.36 Gwnaethom nodi bod C4C wedi dweud ei fod yn dal wedi ymrwymo i ddarparu materion cyfoes llinol, yn enwedig drwy ei brif elfennau materion cyfoes *Dispatches* ac *Unreported World*. Roeddem yn cydnabod, er mwyn buddsoddi mwy mewn materion cyfoes digidol yn gyntaf, y byddai angen i C4C ailgydbwyso ei gyllideb ar draws ei fformatau materion cyfoes, a allai arwain at lai o faterion cyfoes sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar Channel 4.[96]

5.37 Gwnaethom ddweud nad oeddem yn credu y byddai newid y cwota yn cael effaith ar unwaith ar gyfansoddiad allbwn materion cyfoes C4C gan fod C4C wedi rhagori'n gyson ar ei gwota yn ystod cyfnod y drwydded hon.[97] Gwnaethom nodi fod C4C wedi dweud y byddai ailddyrannu gwariant materion cyfoes yn newid graddol, gyda buddsoddiad yn symud yn raddol i fwy o gynnwys digidol yn gyntaf wrth i lefelau gwylio llinol barhau i ostwng yn raddol dros gyfnod y drwydded.[98] O'r herwydd, gwnaethom ddweud ein bod yn credu y byddai

---

[91] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 3.
[92] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 45.
[93] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 45.
[94] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 6-7.
[95] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 44.
[96] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 45.
[97] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 45.
[98] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 7.

effaith gyfyngedig ar nifer y materion cyfoes ar gyfer ei gynulleidfaoedd llinol ar ddechrau'r drwydded newydd ac y byddai'n fwy tebygol o gael effeithiau amlwg ar ôl 2030.[99]

5.38 Mae C4C wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i ni am nifer y teitlau materion cyfoes digidol yn unig y mae'n eu darparu bob blwyddyn.[100] Gwnaethom ddweud yn yr ymgynghoriad y byddem yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP blynyddol i fonitro ac asesu sut mae C4C yn darparu materion cyfoes ar draws ei holl wasanaethau.[101]

### Cadw'r cwota oriau brig

5.39 Rydym yn nodi bod gwylio yn ystod oriau brig yn dal yn bwysig ac mai dyma sydd â'r cyrhaeddiad mwyaf. Rydym yn disgwyl i hyn barhau hyd yn oed wrth i lefelau gwylio llinol ostwng dros gyfnod y drwydded. O'r herwydd, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod cyfran sylweddol o ddarllediadau materion cyfoes C4C ar deledu llinol yn aros yn ystod oriau brig, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gael yr effaith fwyaf.[102]

## Crynodeb o'r ymatebion

5.40 Yn unol â'i gyflwyniad i ni ym mis Mai 2023, roedd C4C yn cefnogi ein cynnig i leihau'r cwota materion cyfoes 'pob awr' i gefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn cynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf, a fydd, meddai, yn cynyddu effaith ei ddarpariaeth materion cyfoes ar gyfer cynulleidfaoedd iau.[103]

5.41 Roedd Pact yn cytuno â ni ynghylch pwysigrwydd materion cyfoes i C4C wrth gyflawni ei gylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r angen i newid i fodel digidol yn gyntaf. Ond, nododd y dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'r sylfaen gyflenwi bresennol dan anfantais. Dywedodd Pact hefyd "y dylai Ofcom sicrhau bod tariffau a hawliau ar lefelau sy'n caniatáu i brosiect fod yn hyfyw yn ariannol i gwmni cynhyrchu". Dywedodd y byddai'r Ddeddf Cyfryngau yn caniatáu i'r rhaglenni hyn gyfrif tuag at ei gwota, a fyddai'n helpu i liniaru rhai o'r materion a godwyd gennym yn yr ymgynghoriad.[104] Yn yr un modd, roedd Directors UK yn poeni y byddai gwneud rhywfaint o gynnwys materion cyfoes yn ddigidol yn gyntaf neu ar-lein yn unig yn arwain at gyllidebau is ac y byddai'n cael effaith negyddol ar gyfarwyddwyr ffeithiol.[105]

5.42 Roedd ITN – sy'n gwneud *Unreported World* ar gyfer Channel 4 – yn cytuno â'n cynnig ond dywedodd mai ystyriaeth allweddol oedd "a fyddai cyllid yn parhau i gael ei gynnal ar yr un lefel o leiaf, hyd yn oed os bydd cwotâu'n cael eu lleihau ac a fydd angen cwotâu ar gyfer darpariaeth ar-lein".[106] Nododd ITN hefyd fod *Unreported World* yn ennill nifer o ddilynwyr digidol. Dywedodd fod perfformiad digidol *Unreported World* a'i effaith ar enw da yn enghraifft o pam y dylid ystyried yn ofalus yr effaith ar frandiau presennol wrth ganiatáu i gwotâu gael eu lleihau er mwyn darparu mwy o gynnwys ar-lein. Yn yr un modd, dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom "y byddai'n hoffi gwybod pa sicrwydd sydd

[99] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 45.
[100] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 7.
[101] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 46.
[102] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 46.
[103] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 14.
[104] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6.
[105] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[106] Ymateb ITN i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.

wedi cael ei roi y bydd y cronfeydd hyn sy'n cael eu harbed yn cael eu defnyddio at y diben hwn a sut bydd effaith a budd yn cael eu monitro."[107]

5.43 Dywedodd VLV ei fod yn cefnogi ein cynnig, gan nodi buddsoddiad cynyddol C4C mewn cynnwys materion cyfoes digidol a llwyddiant ei strategaeth ddigidol.[108]

5.44 Fodd bynnag, roedd nifer o randdeiliaid yn anghytuno â'n cynnig i leihau'r cwota materion cyfoes 'pob awr'. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo pe bai cwota materion cyfoes Channel 4 yn cael ei leihau, y byddai'r ddarpariaeth gyffredinol yn gwanhau oherwydd y byddai'r gostyngiad mewn oriau yn annhebygol o gael ei ysgwyddo gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[109] Er enghraifft, dywedodd Screen Scotland y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, fel y nodir yn y Ddeddf "hwyluso, i raddau priodol, ddealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus ar newyddion a materion cyfoes".[110]Yn yr un modd, dywedodd Llywodraeth yr Alban "na ddylai cynlluniau Channel 4 i roi hwb i allbynnau digidol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a chynyddu'r lleisiau hynny nad oes neb yn gwrando arnynt [...] fod ar draul cyfyngu ar yr allbwn presennol ar draws rhaglenni llinol, sydd yn y pen draw yn lleihau faint o gynnwys materion cyfoes sydd ar gael ar draws yr ecosystem darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach".[111]

5.45 Roedd Dr Phil Ramsey yn teimlo y gallai'r newidiadau roeddem yn eu cynnig wanhau'r rhesymeg dros ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol, gan ddweud y byddai graddio'r ddarpariaeth yn ôl ar deledu llinol yn gam yn ôl. Dywedodd Dr Ramsey y gallai hyn arwain at "sefyllfa *fait accompli* sy'n dod i'r amlwg o ran darpariaeth ddarlledu" sy'n golygu, os bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dechrau colli'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw o ran darpariaeth darlledu, sef cynnwys materion cyfoes yn yr achos hwn, mae'r ddadl a'r rhesymeg dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwanhau ni waeth pa fesurau gwella neu ehangu sy'n cael eu gwneud ar-lein.[112]

5.46 Roedd Screen Scotland yn cwestiynu a oedd angen lleihau cwota materion cyfoes Channel 4 er mwyn iddo oroesi.[113]

5.47 Dywedodd rhai rhanddeiliaid hefyd fod posibilrwydd y byddai 'genres sy'n fasnachol heriol' fel materion cyfoes yn cael eu symud ymlaen i wasanaethau digidol nad oes gan bawb fynediad atynt ac nad yw pawb yn eu defnyddio – gydag effeithiau negyddol ar gynulleidfaoedd.[114] Roedd rhanddeiliaid eraill a oedd yn anghytuno â'n cynnig yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r newid hwn yn effeithio'n benodol ar gynulleidfaoedd hŷn, sy'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau digidol.[115]

---

[107] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[108] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 5-6.
[109] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4; Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.2-3; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3-4; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[110] Adran 264(6) o'r Ddeddf.
[111] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 2.
[112] Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2-3.
[113] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.
[114] Ymateb Directors UK Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[115] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.

### Cadw’r cwota materion cyfoes oriau brig ar 80 awr

5.48 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys C4C, yn cytuno’n llwyr â’n cynnig i gadw’r cwota materion cyfoes oriau brig ar 80 awr.[116]

# Ein hymateb

5.49 Fel y gwnaethom nodi yn 4.19, ein dull cyffredinol o bennu’r drwydded, lle bo hynny’n briodol, yw rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C sicrhau bod ei gynnwys yn cael yr effaith fwyaf bosibl gyda chynulleidfaoedd, yn enwedig y cynulleidfaoedd iau y mae’n ofynnol iddo eu gwasanaethu yn benodol.[117] Mae C4C yn bwriadu darparu mwy o’i gynnwys materion cyfoes ar-lein, yn unol â’i strategaeth i annog twf Channel 4 Streaming. Rydym yn cefnogi’r strategaeth hon, sy’n ymateb i’n canfyddiad mewn Adroddiadau SMCP blaenorol, bod angen i C4C fuddsoddi mwy mewn cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc, a datblygu strategaeth glir i wasanaethu’r cynulleidfaoedd hyn.[118]

5.50 Rydym yn parhau i feddwl ei bod yn briodol lleihau’r cwota materion cyfoes llinol ‘pob awr’ er mwyn i C4C allu gwneud y buddsoddiadau sydd eu hangen i gyrraedd cynulleidfaoedd iau gyda chynnwys materion cyfoes apelgar sy’n cael ei wneud ar gyfer y llwyfannau maent yn eu defnyddio’n gyson. Mae C4C wedi nodi y byddai cynyddu faint o faterion cyfoes digidol yn gyntaf y mae’n ei gynhyrchu y tu hwnt i lefelau cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol iddo ailddyrannu ei gyllideb materion cyfoes bresennol, gan wario cyfran o’i gyllideb ar gyfer materion cyfoes llinol (yn bennaf o’r hyn a ddyrennir i raglenni materion cyfoes sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr) ar gomisiynau digidol.[119]

5.51 Mae C4C eisoes wedi bod yn buddsoddi mwy mewn cynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf, yn bennaf drwy ei elfen newydd o newyddiaduraeth ymchwiliol ar hyn o bryd, sef *Untold*. Y bwriad yw cryfhau ei ystod o raglenni sy’n adlewyrchu bywydau a diddordebau gwylwyr iau. Yn Adroddiad a Datganiad Ariannol 2022 (‘Adroddiad Blynyddol’), dywedodd C4C fod *Untold* wedi dangos bod gwylwyr iau yn dangos diddordeb mewn pynciau difrifol pan roddir sylw iddynt drwy gyfrwng straeon sy’n debyg i'w profiadau eu hunain a gyda thôn llais a thalent sy’n berthnasol iddynt. Dywedodd fod 1.6m wedi gwylio penodau *Untold* yn 2022, gyda 45% o’r rhain o bobl 16-34 oed.[120] Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023, dywedodd C4C fod dwy gyfres *Untold* yn 2023 wedi denu 2.2 miliwn o wylwyr byd-eang ar YouTube ar draws 14 pennod. Ar Channel 4 Streaming, denodd *Untold* 3.8 miliwn o wylwyr, ac roedd 39% ohonynt yn bobl ifanc 16-34 oed.[121] Bydd rhoi’r hyblygrwydd i C4C gynyddu ei fuddsoddiad mewn materion cyfoes digidol yn gyntaf yn arwain at y cynnwys hwn yn cael mwy o gyrhaeddiad ac effaith ar gynulleidfaoedd iau, ac y mae ganddo ddyletswydd i’w gwasanaethu o dan ei ddyletswydd cynnwys cyfryngau i wneud “cynnwys cyfryngau perthnasol sy’n apelio at chwaeth a diddordebau plant hŷn ac oedolion ifanc” a’i fod “yn cynnwys newyddion a materion cyfoes”.[122]

---

[116] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 14.
[117] Mae gan C4C ddyletswydd o dan adran 198A(2) o’r Ddeddf i wneud “cynnwys cyfryngau perthnasol sy’n apelio at chwaeth a diddordebau plant hŷn ac oedolion ifanc”.
[118] Ofcom, Perfformiad Corfforaeth Channel Four Television wrth gyflawni ei dyletswyddau cynnwys a’i chylch gorchwyl yn 2021, t. 15; Ofcom, Perfformiad Corfforaeth Channel Four Television wrth gyflawni ei dyletswyddau cynnwys a’i chylch gorchwyl yn 2022, t. 12.
[119] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 6-7.
[120] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 64
[121] Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel 4 Television 2023, t.62.
[122] Adran 198A(2) o'r Ddeddf.

5.52 Nid ydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid[123] y bydd lleihau'r cwota yn gwanhau'r ddarpariaeth gyffredinol o faterion cyfoes. Rydym yn cytuno ag asesiad C4C ei bod yn fwyfwy annhebygol y bydd cynulleidfaoedd iau yn gwylio cynnwys materion cyfoes ar sianeli teledu sy'n cael eu darlledu. Ond mae llwyddiant yr elfen sy'n ymwneud â materion cyfoes i bobl ifanc, *Untold* yn awgrymu y gall eu cyrraedd drwy gynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf o ansawdd sy'n cael ei ddosbarthu drwy Channel 4 Streaming, YouTube a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill.[124] O ystyried cynlluniau C4C i fuddsoddi mwy yn ei gynnwys digidol yn gyntaf, nid ydym yn credu y bydd lleihau'r gofyniad am faterion cyfoes llinol yn gwanhau'r ddarpariaeth o ran cynnwys materion cyfoes ar draws ecoleg darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei chyfanrwydd.

5.53 Hefyd, o ystyried cynlluniau C4C i fuddsoddi mwy mewn materion cyfoes digidol yn gyntaf drwy ailgydbwyso ei wariant ar faterion cyfoes i ffwrdd oddi wrth faterion cyfoes llinol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr,[125] nid ydym yn credu y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar gyflawni amcan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i roi "sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes y Deyrnas Unedig, a'r gwahanol rannau ohoni, ac o bedwar ban byd". Nid yw'r hyn y mae C4C yn ei ddisgrifio fel rhaglenni materion cyfoes sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn tueddu i berfformio'n dda gyda chynulleidfaoedd ar-alw. Mae C4C wedi dweud wrthym fod 98% o'r gwylio o ran [✂] er enghraifft, yn 2022 ar deledu llinol (dim ond 2% a gafodd ei ffrydio). Mae'r math hwn o gynnwys materion cyfoes hefyd yn llai tebygol o apelio at gynulleidfaoedd iau; dim ond 8% o'r gynulleidfa [✂] sydd rhwng 16 a 34 oed, ac mae 10% o'r gynulleidfa ar gyfer [✂] yn y grŵp oedran hwnnw.[126] Mae C4C wedi dweud ei fod yn bwriadu cadw buddsoddiad yn ei brif elfennau materion cyfoes llinol ymchwiliol fel *Dispatches*.

5.54 Rydym yn cytuno â Screen Scotland ei bod yn annhebygol y bydd lleihau'r cwota 'pob awr' yn gwneud unrhyw wahaniaeth sylweddol i hyfywedd C4C. Fodd bynnag, nid dyna bwrpas y newid. Ein bwriad yw galluogi C4C i fuddsoddi mewn materion cyfoes digidol yn gyntaf neu ar-lein yn unig, mewn ymateb i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a datblygiadau yn y farchnad hysbysebu ehangach, sy'n golygu bod ehangu twf ffrydio yn flaenoriaeth.

5.55 Rydym yn deall pryderon rhai rhanddeiliaid am genres penodol neu fathau penodol o gynnwys sy'n cael eu gwneud yn 'ddigidol yn gyntaf' neu 'ar-lein yn unig' a'r effaith y gallai hyn ei chael ar gynulleidfaoedd. Fel y nodwyd gan Cymru Greadigol[127] a Directors UK[128] gallai cynulleidfaoedd hŷn, sy'n llai tebygol o wylio ar-alw, fod ar eu colled os bydd C4C yn raddol yn gwneud elfennau o'i ddarpariaeth materion cyfoes yn ddigidol yn gyntaf neu ar-lein yn unig. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y risg hon yn cael ei lliniaru drwy gadw gofyniad sylfaenol ar gyfer cynnwys materion cyfoes ar Channel 4. Hefyd, nid ydym yn credu y bydd lleihau'r cwota yn debygol o gael effaith ar unwaith ar gyfansoddiad allbwn materion cyfoes C4C. Mae C4C wedi rhagori'n gyson ar ei gwota yn ystod cyfnod y drwydded hon, yn fwyaf

---

[123] Er enghraifft, Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3-4; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2; Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2-3.
[124] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 7.
[125] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 6-7.
[126] Barb, 28 diwrnod cyfunol, drwy setiau teledu yn unig. Yn cynnwys Channel 4 +1. Penodau newydd yn unig.
[127] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 5.
[128] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.

diweddar yn 2023, o 51 awr. Roedd C4C yn cydnabod bod hyn eisoes yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd iddo symud y ddarpariaeth o fod yn llinol i fod yn ddigidol.[129]

5.56 Roeddem yn cynnig gostyngiad o 30 awr y flwyddyn, o 208 i 178 awr, ar sail amcangyfrif C4C y gallai gwneud gostyngiad ar y raddfa hon ganiatáu iddo dreblu ei allbwn o benodau *Untold* o tua 20 pennod y flwyddyn hyd at tua 60.[130] Gwnaethom fodelu effeithiau lleihau'r cwota hwn ac rydym yn dal i gytuno ag amcangyfrifon cyffredinol C4C o'r arbedion y byddai'r gostyngiad hwn yn eu cynhyrchu. Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom ddweud ein bod yn cydnabod mai ychydig iawn y gall C4C ei fuddsoddi'n rhesymol mewn materion cyfoes ac nad oeddem yn disgwyl i hyn gynyddu dros gyfnod y drwydded.[131] Mae gosod yr amod ar 178 awr yn taro cydbwysedd priodol rhwng cadw nifer sylweddol o faterion cyfoes llinol a galluogi C4C i barhau i fuddsoddi mewn materion cyfoes digidol yn gyntaf neu ar-lein yn unig.

5.57 Mae C4C wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i Ofcom am nifer y teitlau materion cyfoes digidol yn unig y mae'n eu darparu bob blwyddyn. Byddwn yn defnyddio ein Hadroddiadau SMCP blynyddol i ddal C4C i gyfrif am ei ddarpariaeth materion cyfoes ar draws llwyfannau, yn enwedig ar gyfer y cynulleidfaoedd iau y mae'n eu targedu gyda chynnwys sy'n cael ei ddosbarthu ar-lein neu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn bwysig er mwyn datblygu brand Channel 4 yn gynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gynulleidfaoedd sydd, fel y dengys ein hymchwil, â chysylltiad llawer gwannach â brand Channel 4, a chyda darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol.

5.58 O ran sylwadau Pact a Directors UK am dariffau ar gyfer cynnwys digidol yn gyntaf neu ar-lein yn unig, sicrhau'r nodau a'r amcanion a nodir ym mharagraffau 5.30-5.32 yw ein ffocws wrth bennu'r cwota. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd y pryderon yn cael eu lliniaru gan y ffaith ein bod yn mynnu o leiaf 178 awr o faterion cyfoes llinol a fydd yn dod o dan dariffau llinol presennol. Rydym yn anghytuno â barn Pact y bydd y Ddeddf Cyfryngau yn mynd i'r afael â'r materion a gyflwynwyd gennym ynghylch y cyfyngiadau ar gyllideb C4C oherwydd, yn wahanol i rai o'r cwotâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill (cynyrchiadau gwreiddiol, cynyrchiadau rhanbarthol a chynyrchiadau annibynnol), ni fydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cyflawni eu cwotâu materion cyfoes drwy eu gwasanaethau ffrydio.

5.59 Rydym yn derbyn y pwynt cynnil y mae ITN wedi'i wneud ynghylch yr effaith ar enw da rhaglenni a brandiau presennol Channel 4 pe bai darpariaeth ddigidol yn gyntaf neu ar-lein yn unig yn cael ei hehangu, ac mae hyn yn rhywbeth y dylai C4C ei ystyried yn ofalus.

5.60 Roedd rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig i gadw'r cwota oriau brig ar 80 awr. Wrth gadw'r cwota oriau brig ar 80 awr, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod cyfran sylweddol o raglenni materion cyfoes y mae C4C yn eu darlledu ar deledu llinol yn aros yn ystod oriau brig, er mwyn sicrhau bod hyn yn cael yr effaith fwyaf ar gynulleidfaoedd. Bydd cadw'r gofyniad hwn yn sicrhau bod C4C yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu newyddiaduraeth materion cyfoes ac ymchwiliol o ansawdd uchel gyda rhaglenni materion cyfoes oriau brig blaenllaw ac yn sicrhau bod ei raglenni materion cyfoes digidol yn cael mwy o effaith ar yr un pryd.

# Ein penderfyniad

[129] C4C yn meddwl mwy am y sefyllfa materion cyfoes, Medi 2023, t. 1.
[130] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 7.
[131] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 44.

5.61 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i leihau'r cwota materion cyfoes 'pob awr' i 178 awr, ac i gadw'r cwota oriau brig o 80 awr.

## Cynyrchiadau gwreiddiol

### Amodau trwydded newydd

- Dylai o leiaf **70% o'r oriau** o raglenni sydd wedi'u cynnwys yn ystod oriau gwylio **brig** Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr gael eu comisiynu neu eu cynhyrchu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth.
- Dylai o leiaf **45% o'r oriau** o raglenni sydd wedi'u cynnwys yn Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr gael eu comisiynu neu eu cynhyrchu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth.

## Crynodeb o gynigion a rhesymeg yr ymgynghoriad

### Gofyniad statudol

5.62 Mae trwydded Channel 4 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer darlledu 'cynyrchiadau gwreiddiol'. Cynyrchiadau gwreiddiol yw'r rheini sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer sianel gwasanaeth cyhoeddus fel Channel 4, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU ar y sianel honno.

5.63 Mae Adran 278 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae'n ystyried sy'n briodol ar gyfer sicrhau'r canlynol:

"(a) nad yw'r amser a ddyrennir, ym mhob blwyddyn, i ddarlledu cynyrchiadau gwreiddiol sydd wedi'u cynnwys yn y sianel honno yn llai na'r hyn sy'n ymddangos iddynt hwy fel cyfran briodol o gyfanswm yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer darlledu'r holl raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y sianel honno; a

(b) bod yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol yn cael ei rannu yn yr hyn sy'n ymddangos iddynt hwy fel dull priodol rhwng oriau gwylio brig ac adegau eraill."

5.64 Amcan y cwota hwn yw sicrhau bod y sianel o ansawdd uchel yn gyson.[132] Fel sy'n wir ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gall C4C ddefnyddio ailddarllediadau o'i gynnwys i gyflawni'r cwota hwn, sy'n golygu nad yw'r cwota yn gwarantu comisiynu cynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer Channel 4.

### Gosod y cwota 'bob awr' ar 45%

5.65 Gwnaethom ymgynghori ar gynnig sy'n mynnu bod o leiaf 45% o'r oriau o raglenni sydd wedi'u cynnwys yn Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth, gan leihau'r gofyniad presennol o 56%.

5.66 Gwnaethom gyflwyno ein barn, sef, er mwyn cyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn llwyddiannus yn y dyfodol, y byddai angen i C4C ddarparu cynnwys gwreiddiol o safon ar draws amrywiaeth o genres sy'n gweithio'n dda mewn cyd-destun ar-alw. Gwnaethom ddweud, er mwyn denu cynulleidfaoedd iau i'w lwyfan ffrydio, i ffwrdd o SVoDs, efallai y bydd angen i C4C gysoni ei ddarpariaeth ffrydio'n agosach â disgwyliadau'r

[132] Adran 278(2) o'r Ddeddf.

gynulleidfa hon drwy ddarparu mwy o raglenni newydd effaith uchel wedi'u sgriptio sy'n unigryw i Channel 4 Streaming.[133]

5.67 Roeddem hefyd yn cydnabod bod cynyrchiadau gwreiddiol yn greiddiol i ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 ac yn bwysig i gynulleidfaoedd, ac yn nodi ein bod yn credu bod C4C yn dal wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU.[134]

5.68 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr roeddem wedi dweud, er mwyn gallu buddsoddi'n sylweddol mewn cynnwys effaith uchel newydd sy'n gweithio ar ei wasanaeth ffrydio, mae'n debygol y byddai angen i C4C leihau gwariant cynnwys mewn mannau eraill, yn benodol mewn cynnwys gwreiddiol yn ystod y dydd. Gwnaethom fodelu effaith strategaeth gomisiynu bosibl C4C, fel y'i darparwyd i ni yn ei gyflwyniad, a chytuno ag amcangyfrifon bras C4C o'r cronfeydd y gallai eu buddsoddi mewn cynnwys effaith uchel, pe bai'n gwneud y newidiadau hyn.[135] O ystyried y gynulleidfa gymharol fach yn ystod y dydd a'r perfformiad o ran ailddarllediadau, gwnaethom ddweud nad oeddem yn credu y byddai lleihau nifer y cynyrchiadau gwreiddiol yn ystod y dydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar gynulleidfaoedd.[136]

5.69 Gwnaethom nodi mai cynyrchiadau tariff is yw cynyrchiadau gwreiddiol yn yr amserlen yn ystod y dydd ar Channel 4, sy'n tueddu i ddenu llai o gynulleidfa, yn enwedig ar BVoD. Gwnaethom gyfeirio at dystiolaeth o ddata Barb a oedd yn dangos bod comisiynau tariff uwch yn ystod oriau brig yn fwyaf llwyddiannus o ran denu mwy o gynulleidfa ar Channel 4 Streaming.[137] Gwnaethom ddweud ein bod o'r farn ei bod yn briodol i C4C flaenoriaethu buddsoddiad mewn cynnwys effaith uchel o'r fath cyn cynnal yr un lefel o gynyrchiadau gwreiddiol o fewn ei amserlen yn ystod y dydd, lle mae cynyrchiadau gwreiddiol â gwerth is yn cael llai o effaith.[138]

5.70 Gwnaethom ddweud bod y broses aildrwyddedu yn cynnig cyfle i Ofcom gefnogi strategaeth ddigidol C4C drwy leihau cwota cynyrchiadau gwreiddiol cyffredinol Channel 4 yn ystod cyfnod y drwydded nesaf.[139] Roeddem wedi ystyried pa mor briodol yw gwahanol lefelau cwota: 40%, 45% a 50%. Gwnaethom gyflwyno ein barn y byddai cwota o 50% yn golygu bod perygl na fyddai modd cyflawni'r manteision hyblygrwydd i ailgydbwyso gwariant ar gynnwys effaith uwch ac i sicrhau'r cydbwysedd rhwng ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu sy'n gweithio orau i gynulleidfa Channel 4 yn ystod y dydd. Ar yr un pryd, roeddem yn credu y gallai'r gostyngiad mwyaf i'r cwota a gynigir gan C4C, sef 40%, roi ansawdd y gwasanaeth yn y fantol a dechrau effeithio ar gymeriad a hynodrwydd y sianel. At ei gilydd, felly, daethom i'r casgliad y byddai lleihau'r cwota i derfyn uchaf C4C o 45% yn briodol.[140]

## Cadw 70% o gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig

5.71 Roeddem yn cynnig cadw'r gofyniad bod o leiaf 70% o'r oriau o raglenni sy'n cael eu gwylio yn ystod oriau brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth. Gwnaethom ddweud bod ein gostyngiad arfaethedig yn y cwota cynyrchiadau

[133] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 54.
[134] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 48-50.
[135] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 10.
[136] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 51-52.
[137] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 51.
[138] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 54.
[139] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 54.
[140] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 55.

gwreiddiol cyffredinol yn cydnabod bod angen i C4C ganolbwyntio ei wariant ar gynnwys ar y genres a'r mathau o gynnwys sy'n cael yr effaith fwyaf ar draws oriau brig a'i wasanaeth ffrydio.[141] Gwnaethom ddweud ein bod yn dal i gredu, yn y cyd-destun llinol, mai yn ystod oriau brig y bydd cynyrchiadau gwreiddiol Channel 4 yn cael yr effaith fwyaf ac yn denu'r cynulleidfaoedd mwyaf drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf. Gwnaethom ddweud ein bod yn credu bod y cwota presennol o 70% ar gyfer oriau brig yn dal yn briodol i sicrhau bod Channel 4 yn cadw ei hunaniaeth a'i gymeriad unigryw.[142]

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Gosod y cwota 'bob awr' ar 45%

5.72 Roedd C4C yn cefnogi ein cynnig i leihau ei gwota cynyrchiadau gwreiddiol cyffredinol er mwyn cefnogi newid i strategaeth gomisiynu digidol yn gyntaf.[143] Cyfeiriodd at ei strategaeth *Fast Forward* (a gyhoeddwyd ar ôl yr ymgynghoriad) yn ei ymateb, sy'n blaenoriaethu twf refeniw a lefelau gwylio digidol C4C er mwyn iddo allu cyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy yn y tymor hir.[144] Dywedodd C4C ei fod, o dan *Fast Forward*, yn cyflymu'r broses o symud i strategaeth gomisiynu digidol yn gyntaf gyda newid sylweddol i fuddsoddi mewn mathau o raglenni sy'n sbarduno twf ffrydio – fel drama, rhaglenni dogfen o safon uchel, comedi a realiti. Dywedodd y bydd yn canolbwyntio ar gomisiynu llai o deitlau a theitlau cryfach sy'n ei alluogi i gael mwy o effaith wrth gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.[145]

5.73 Roedd ymateb C4C yn nodi ei farn bod yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo yn debygol o barhau'n ansicr iawn drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf a bydd yn rhaid iddo flaenoriaethu'r mathau o gynnwys y mae'n buddsoddi ynddynt.[146]

5.74 Roedd C4C yn cefnogi ein cynnig i leihau'r cwota 'pob awr' i 45%. Roedd yn credu y byddai'r gostyngiad hwn yn rhoi hwb ychwanegol ystyrlon iddo i addasu ei strategaeth gomisiynu drwy gydol y deng mlynedd nesaf, er mwyn iddo allu cyflawni yn erbyn ei amcanion strategol ac i helpu ei wasanaeth ffrydio i fod hyd yn oed yn fwy deniadol fel cyrchfan wylio i gynulleidfaoedd sydd wedi "troi cefn ar y llinol".[147] Dywedodd ei fod yn rhagweld y byddai'r dull hwn yn cael effaith gymharol gyfyngedig ar ei gynulleidfaoedd yn ystod y dydd.[148]

5.75 Roedd C4C hefyd yn cydnabod y byddai'r newid hwn i'w strategaeth gomisiynu yn cael effaith ar gynhyrchwyr. Ond dywedodd, yn ymarferol byddai'n dod i rym dros nifer o flynyddoedd, gan ganiatáu amser i'r sector addasu. Dywedodd ei fod yn rhagweld y byddai cyfnod y drwydded nesaf yn dod â chyfleoedd newydd i gynhyrchwyr o bob maint, gan gynnwys rhai newydd, i sicrhau comisiynau digidol yn gyntaf fel rhan o ffocws cynyddol C4C ar dyfu ei gynulleidfaoedd ar draws llwyfannau digidol.[149]

5.76 Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys VLV, a ddywedodd, yng ngoleuni'r gostyngiad mewn cynulleidfaoedd llinol a strategaeth C4C i flaenoriaethu

[141] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 55.
[142] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 56.
[143] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 19.
[144] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 17.
[145] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 17.
[146] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 18.
[147] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 19.
[148] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 19.
[149] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 19.

cynnwys cost uwch yn ystod oriau brig, sy'n sbarduno gwylio fideo ar-alw ar ôl y darllediad llinol cychwynnol, ei fod yn cytuno â'r cynnig i leihau'r cwota 'pob awr' ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol i 45%.[150] Dywedodd VLV hefyd ei fod yn credu mai allbwn mwyaf unigryw C4C yw'r hyn sy'n cael ei ddarlledu yn ystod oriau brig ac felly roedd yn synhwyrol i C4C ganolbwyntio buddsoddiad ar y cynnwys hwnnw pan fydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn darparu amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol sy'n boblogaidd yn ystod y dydd. Roedd hefyd yn nodi cynulleidfa gymharol fach Channel 4 yn ystod y dydd, a data a oedd yn awgrymu bod ailddarllediadau o gynyrchiadau gwreiddiol yn gallu arwain at flinder cynulleidfaoedd yn gyflymach na rhaglenni sy'n cael eu prynu.[151]

5.77 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom hefyd yn cytuno â'r cynnig ar y sail y byddai'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi yn strategaeth 'digidol yn gyntaf' Channel 4. Cyfeiriodd at gasgliadau o ymchwil Jigsaw, a oedd yn dangos bod y rheini o dan 30 oed yn gweld pwynt gwerthu unigryw 'mentrus' blaenorol Channel 4 yn lleihau, a'i fod yn dod yn fwy prif ffrwd a phoblyddol yn llygaid y gynulleidfa. Dywedodd y Pwyllgor mai'r unig ffordd gredadwy i Channel 4 gynnal ei ddyfodol tymor hir, gan gynnal ei ddiben cyhoeddus, oedd iddo gael rhaglenni gwreiddiol, unigryw ac o ansawdd da.[152] Roedd Pact hefyd yn cytuno â'n cynigion ond nododd ei fod yn credu y dylai strategaeth liniaru fod ar waith ar gyfer yr hyn roedd yn ei ystyried yn effaith bosibl ar yr economi greadigol.[153]

5.78 Roedd rhanddeiliaid eraill yn anghytuno â'n cynnig. Dywedodd Screen Scotland y byddai gostyngiad i 45% o'r holl oriau yn cael effaith sylweddol ar gyflawni cylch gwaith a dyletswyddau C4C i arloesi a chymryd risgiau creadigol, i wneud ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol, i gefnogi datblygiad pobl sydd â thalent greadigol ac i hyrwyddo safbwyntiau amgen a safbwyntiau newydd.[154] Dyma oedd y farn yn ymateb Llywodraeth yr Alban hefyd.[155]

5.79 Roedd rhanddeiliaid eraill yn anghytuno â'n barn bod angen hyblygrwydd ychwanegol ar C4C yn ei ofynion llinol i'w alluogi i gyflawni ei strategaeth ddigidol. Barn TAC oedd bod ein cynnig i leihau'r cwota 'pob awr' yn anghymesur â'r hyn roedd yn ei weld fel graddfa'r broblem. Dywedodd fod gwylio llinol wedi dal ei dir yn fwy cadarn hyd yma na'r hyn a ragwelwyd yn y gorffennol.[156] Dywedodd Dr Phil Ramsey fod ein barn bod lleihau nifer y cynyrchiadau gwreiddiol yn ystod y dydd yn annhebygol o gael effaith negyddol sylweddol ar gynulleidfaoedd fel petai'n derbyn sefyllfa o ddirywiad ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na cheisio dod o hyd i ffyrdd eraill o ddatrys y problemau sylfaenol – sy'n deillio'n bennaf o gyllid.[157] Dywedodd Screen Scotland hefyd ei fod yn credu nad oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gennym hyd yma yn cyfiawnhau "gostyngiad sylweddol, di-oed a pharhaol".[158] Dywedodd Llywodraeth yr Alban[159] na ddylai strategaeth ddigidol C4C olygu bod cynulleidfaoedd llinol ar eu colled, a dywedodd VLV[160] a Directors UK[161] ill dau y dylai

---

[150] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9.
[151] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8.
[152] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[153] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 7.
[154] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[155] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 3.
[156] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[157] Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.
[158] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[159] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 3.
[160] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 7-8.
[161] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.

rhaglenni gwreiddiol digidol yn gyntaf a chynnwys effaith uchel fod ar gael i gynulleidfaoedd llinol hefyd.

5.80 Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym y gallai'r newid arfaethedig i'r amod pob awr gael effaith negyddol ar y gweithlu cynhyrchu, yn enwedig mewn rhannau o'r DU lle ceir crynodiadau o gynhyrchwyr sy'n gweithio mewn genres tariff is, ac y gallai hyn fod yn fygythiad i genhadaeth C4C i gefnogi talent greadigol.[162] Roedd Directors UK yn gwrthwynebu ein cynnig ar y sail ei fod yn credu y byddai'n cael effaith negyddol ar y gweithlu ffilm a theledu. Roedd yn cydnabod y gallai rhai o'i aelodau elwa o'r newidiadau yn strategaeth gomisiynu Channel 4. Ond daeth i'r casgliad, ar y cyfan, bod y toriadau hyn yn debygol o waethygu'r hyn roedd yn ei weld fel yr argyfwng cyflogaeth presennol ar gyfer gweithlu cynhyrchu ffilm a theledu'r DU, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr. Roedd yn poeni y byddai cynnig C4C i gynyddu nifer y rhaglenni a brynir yn ystod y dydd yn effeithio ar gyfarwyddwyr.[163] Nododd Pact hefyd fod sicrhau bod y sylfaen gyflenwi yn cael ei chefnogi i ddiwallu'r galw am wahanol genres yn bwysig gan fod C4C yn ceisio buddsoddi mwy mewn cynnwys tariff uchel sy'n cael effaith fawr ac sy'n denu cynulleidfaoedd at Channel 4 Streaming. Dywedodd ei fod yn siomedig nad oedd Ofcom wedi nodi archwiliad mwy trylwyr o risgiau'r strategaeth hon o ran yr economi greadigol. [164] Roedd Screen Scotland yn arbennig o bryderus am effaith y cynigion ar gynhyrchu yn yr Alban.[165]

5.81 Roedd rhai rhanddeiliaid eraill yn dadlau bod ein cwota 'pob awr' arfaethedig o 45% yn rhy isel ac yn awgrymu lefelau eraill. Argymhellodd TAC ein bod yn cadw'r cwota ar 56% ond yn ei adolygu ymhen pum mlynedd. Dywedodd hefyd, pe bai Ofcom yn gostwng y cwota, na ddylai fod yn is na 50%, yn sicr.[166] Dywedodd Cymru Greadigol nad oedd yn cytuno â lleihau gofyniad cynhyrchu gwreiddiol Channel 4 i 45%. Yn hytrach, roedd yn awgrymu'r hyn roedd yn ei ystyried yn ostyngiad mwy cymedrol i 50% er mwyn cael cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a chadw cynulleidfaoedd.[167]

### Cadw 70% o gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig

5.82 Roedd pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi cytuno ar ein cynnig i gadw'r cwota 70% yn ystod oriau brig. Roedd hyn yn cynnwys C4C a oedd yn dweud, ar y cyfan, ei fod o'r farn bod gofynion sy'n gysylltiedig â'r amserlen linol yn debygol o ymddangos yn anacronistig erbyn diwedd cyfnod y drwydded nesaf, a bod y cwota amser brig o 70% yn gyson â'i strategaeth digidol yn gyntaf. Dywedodd fod y swyddogaethau cwota oriau brig yn gwarantu y bydd cynulleidfaoedd yn ystod yr oriau brig yn parhau i gael cyfran uchel iawn o gynnwys sy'n cael ei wneud yn y DU ac sy'n cynrychioli'r DU. Roedd felly'n cefnogi ein cynnig i gadw'r cwota 70% ar gyfer oriau cynhyrchu gwreiddiol yn ystod oriau brig.[168]

## Ein hymateb

[162] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[163] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6.
[164] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 7.
[165] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[166] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[167] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 3.
[168] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 19.

## Gosod y cwota 'bob awr' ar 45%

5.83 Rydym yn cydnabod bod Channel 4 yn cyflawni ei gylch gwaith yn bennaf drwy'r cynnwys gwreiddiol mae'n ei gomisiynu ac yn buddsoddi ynddo a bod amcan cyffredinol y cwota hwn yn sicrhau bod y sianel o ansawdd uchel yn gyson. Felly, rydym yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan Screen Scotland a Llywodraeth yr Alban ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod Channel 4 yn wirioneddol unigryw, a pha mor bwysig yw cynnwys gwreiddiol o'r DU i sicrhau hyn. Ein nod wrth bennu'r drwydded newydd, gan gynnwys y cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, yw cefnogi gwaith parhaus C4C o gyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn ystod cyfnod y drwydded nesaf.

5.84 Er mwyn denu cynulleidfaoedd iau i gynnwys Channel 4, efallai y bydd angen i C4C gysoni ei ddarpariaeth ffrydio'n agosach â disgwyliadau'r gynulleidfa hon drwy ddarparu mwy o raglenni newydd effaith uchel wedi'u sgriptio sy'n unigryw i Channel 4 Streaming. O'r herwydd, rydym yn dal o'r farn, er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol yn llwyddiannus, ac felly er mwyn sicrhau bod ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn parhau i gael eu cyflawni, y bydd angen i C4C fuddsoddi'n sylweddol mewn cynnwys newydd sy'n cael llawer o effaith ac sy'n gweithio ar ei wasanaeth ffrydio yn ogystal ag yn ystod oriau brig ar deledu llinol, a fydd yn dal yn bwysig drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd angen iddo hefyd leihau ei wariant ar gynnwys y tu allan i'r oriau brig, er enghraifft, gwario ar gynnwys gwreiddiol yn ystod y dydd.

5.85 Rydym o'r farn ei bod yn briodol i C4C flaenoriaethu buddsoddiad mewn cynnwys effaith uchel o'r fath cyn cynnal yr un lefel o gynyrchiadau gwreiddiol o fewn ei amserlen yn ystod y dydd, lle mae cynyrchiadau gwreiddiol â thariff is yn cael llai o effaith ar gynulleidfaoedd.

5.86 Ar hyn o bryd, mae gan Channel 4 gyfran gymharol fach o gynulleidfaoedd yn ystod y dydd sef 4.7%, i lawr 0.6% o gymharu â chyfnod y drwydded ddiwethaf, tra bo prif wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi denu mwy o gynulleidfaoedd.[169] Fel y nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, yr amserlen ddydd 10:00am-11:59am – sef cyfnod yr amserlen yn ystod y dydd lle mae Channel 4 yn dangos rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu i raddau helaeth yn hytrach na rhaglenni sy'n cael eu prynu – sy'n perfformio waethaf o bob rhan o'r dydd. Rhwng 2014 a 2022, collodd y rhan honno o'r dydd gyfran o'r gwylio, o 3.4% i 2.7%. Fodd bynnag, roedd y rhan 09:00–09:59 o'r diwrnod, pan fo Channel 4 yn dangos rhaglenni wedi'u prynu yn yr Unol Daleithiau, wedi cadw ei gyfran o 4% rhwng 2014 a 2022.[170]

5.87 O ystyried maint cymharol fach cynulleidfa Channel 4 yn ystod y dydd a'r gyfran is o'i ailddarllediadau o gynnwys gwreiddiol, rydym yn dal o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd lleihau cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' yn cael effaith negyddol sylweddol ar gynulleidfaoedd. Nid ydym chwaith yn credu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar gyflawni cylch gwaith Channel 4 a dyletswyddau cynnwys cyfryngau ehangach C4C, o ystyried bod y cynyrchiadau gwreiddiol y mae Channel 4 yn eu darlledu yn ystod y dydd yn

[169] Dros gyfnod y drwydded ddiwethaf, mae Channel 4 wedi gweld colled o 0.6 pwynt canran yn ei gyfran gwylio yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos. Channel 5 oedd yr unig wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus arall a welodd ostyngiad, o 0.3 pwynt canran. Cynyddodd ITV1 3.1 pwynt canran, BBC One 1.8 pwynt canran a BBC Two 1.2 pwynt canran. Mae hyn yn cymharu â chynnydd yn y gyfran gwylio ar Channel 4 o 6.1% i 6.5% ar gyfer gwylio gyda'r nos, a chynnydd o 7.5% i 7.9% ar gyfer gwylio rhwng 21:00-22:59, sef lle mae C4C yn canolbwyntio llawer o'i gynyrchiadau gwreiddiol effaith uchel. Ffynhonnell: Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, gan gynnwys sianeli +1. Unigolion 4 oed a hŷn, yn ystod yr wythnos 0900-1759, drwy'r wythnos 1800-2229 a thrwy'r wythnos 2100-2259.

[170] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 54.

rhaglenni adloniant ysgafn a rhaglenni ffordd o fyw tariff isel yn bennaf. Nid yw'r genres hyn o reidrwydd yn cyfrannu'n sylweddol at ei gylch gwaith i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel sy'n dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd, er ein bod yn parhau i gydnabod y gallant gael effaith gadarnhaol ar gynhyrchu y tu allan i Lundain.

5.88 Wrth newid yr amod hwn, rydym yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng cefnogi strategaeth ddigidol C4C a sicrhau bod yr amserlen yn ystod y dydd yn dal i gadw cyfran o gynnwys gwreiddiol o'r DU ac yn darparu gwerth i'r cynulleidfaoedd sy'n ei wylio.


5.89 Dros gyfnod nesaf y drwydded, rydym o'r farn ei bod yn debygol iawn y bydd y tueddiadau gwylio sy'n sail i strategaeth ddigidol C4C yn parhau i ddwysáu. Yn ei gyflwyniad i ni ym mis Mai 2023, dywedodd C4C ei fod yn disgwyl er byddai cyfanswm y munudau gwylio ffurf hir yn dal yn gyson yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, y byddai lefelau gwylio llinol yn parhau i ostwng, a bydd y gostyngiad hwn yn cael ei liniaru gan lefelau gwylio uwch i BVoD.[171] Fel roeddem wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, er nad ydym yn disgwyl i arferion gwylio llinol ddiflannu dros gyfnod nesaf y drwydded, mae'n debygol o ddod yn llai pwysig, wrth i fwy o gynulleidfaoedd ddefnyddio llwyfannau ffrydio a chyfryngau cymdeithasol i gael gafael ar gynnwys. Rydym yn dal o'r farn bod y newidiadau cyflym o un flwyddyn i'r llall mewn lefelau gwylio dros gyfnod y drwydded bresennol yn cefnogi barn C4C y bydd y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd, erbyn diwedd cyfnod y drwydded nesaf, yn gwbl gyfarwydd â gwylio cynnwys ar-alw pryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny.[172]

5.90 Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd, yn enwedig gan Directors UK a Pact, ynghylch goblygiadau posibl ein cynigion i'r sector cynhyrchu. Rydym hefyd yn cydnabod y pwynt a wnaed gan Screen Scotland a Directors UK ynghylch y potensial y byddai llai o gomisiynu yn ystod y dydd yn arwain at effeithiau penodol. Nid yw'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn gwota cynnwys 'sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf' ac felly nid yw'n sicrhau swm o gomisiynu newydd yn uniongyrchol ar Channel 4 (neu unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus arall) oherwydd gall C4C ddefnyddio ailddarllediadau o'i gynnwys i gyflawni'r cwota hwn. I'r graddau hynny, rydym yn derbyn pwynt Directors UK y gallai gostyngiad mewn ailddarllediadau o blaid rhaglenni sy'n cael eu prynu effeithio ar daliadau parhaus i'w aelodau am ddangos ailddarllediadau. Fodd bynnag, er y byddai ein newid arfaethedig i'r amod yn galluogi C4C i ailgydbwyso cyfran y rhaglenni gwreiddiol a'r rhaglenni sy'n cael eu prynu y tu allan i'r cyfnod gwylio brig, ni fydd yn newid yn uniongyrchol faint o gynnwys newydd sy'n cael ei gomisiynu ar Channel 4. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, mae Channel 4 wedi darparu nifer gymharol gyson o gynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ers 2014, ar draws amrywiaeth eang o genres fel sy'n cael ei ddangos yn ffigur 1 isod.[173]

---

[171] Cyflwyniad mis Mai 2023 C4C, t. 6.
[172] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 13.
[173] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 50.

**Ffigur 1: Oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar Channel 4, yn ôl genre: 2014-2023**





**Ffynhonnell: Ofcom/C4C**

5.91 Yn ogystal â chynnal nifer gweddol gyson o oriau o gynyrchiadau gwreiddiol, er y bu gostyngiad yn y cwota gwreiddiol yn 2010 o 60% i 56%, mae C4C wedi cynyddu ei wariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn sylweddol ers hynny (ffigur 2 isod). Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023, dywedodd C4C wrthym ei fod yn rhagweld y bydd ei fuddsoddiad mewn cynnwys ar draws ei holl wasanaethau yn cynyddu dros gyfnod y drwydded nesaf i dros £[✂] y flwyddyn erbyn diwedd cyfnod y drwydded, gan ddangos ei ymrwymiad i fuddsoddi mewn rhaglenni newydd, unigryw.[174] Mewn ymateb i gais am wybodaeth ym mis Ebrill 2024, dywedodd C4C wrthym ei fod yn disgwyl y byddai mesurau lliniaru yr oedd yn eu rhoi ar waith o ganlyniad i refeniw is na'r disgwyl yn ei gynllun tair blynedd diweddaraf yn golygu y byddai gwariant ar gynnwys yn olrhain yn ôl i'r alldro 2034 yn ei gyflwyniad gwreiddiol.[175] Nodwn fod C4C yn disgwyl y byddai unrhyw newid i'w strategaeth cynnwys o ganlyniad i'r newid hwn mewn cwota yn dod i rym dros nifer o flynyddoedd, gan ganiatáu amser i'r sector addasu, a'i fod yn disgwyl y byddai cyfnod y drwydded nesaf yn dod â chyfleoedd newydd i gynhyrchwyr o bob maint.[176]

**Ffigur 2: Gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar Channel 4 (£m): 2010-2023**

[174] Cyflwyniad mis Mai 2023 C4C, t. 6.
[175] C4C Atodiad 2 (Cyfrinachol) – Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi ymatebion i adnewyddu trwydded RFI Ofcom, Ebrill 2024, t. 12.
[176] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 19.




**Ffynhonnell: Ofcom/C4C**

### Cadw 70% o gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig

5.92 Rydym yn cytuno â phryderon Llywodraeth yr Alban, VLV a Directors UK na ddylai strategaeth ddigidol C4C olygu bod cynulleidfaoedd llinol ar eu colled ac y dylai cynnwys effaith uchel fod ar gael i gynulleidfaoedd llinol hefyd. Dyna pam roeddem yn cynnig cadw'r gofyniad presennol bod o leiaf 70% o'r oriau yn ystod oriau brig yn gynyrchiadau gwreiddiol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr un faint o allbwn gwreiddiol ar gael ar amser pan fydd cynyrchiadau gwreiddiol Channel 4 yn cael yr effaith fwyaf ac yn denu'r cynulleidfaoedd mwyaf drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf. Rydym o'r farn y bydd hyn yn sicrhau bod Channel 4 yn cadw ei hunaniaeth a'i gymeriad unigryw yn y dyfodol.

## Ein penderfyniad

5.93 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n cynigion, rydym yn dal o'r farn bod ein cynnig i leihau'r cwota 'pob awr' o 56% i 45%, gan gadw'r gofyniad brig presennol o 70% ar yr un pryd, yn briodol. Rydym o'r farn y bydd y lefelau cwota hyn yn cefnogi dyletswyddau cynnwys cyfryngau a chylch gwaith C4C i barhau i gael eu cyflawni drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf, gan sicrhau hefyd bod Channel 4 yn cadw ei hunaniaeth a'i gymeriad unigryw.

5.94 Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein Hadroddiadau SMCP i adolygu buddsoddiad C4C mewn cynnwys gwreiddiol a monitro a yw C4C, pan fydd yn dechrau symud gwariant oddi wrth yr amserlen yn ystod y dydd, yn cyflawni'r strategaeth y mae wedi'i nodi; sef ailfuddsoddi'r gwariant hwnnw mewn cynnwys effaith uchel.

# Cynyrchiadau'r gwledydd a'r rhanbarthau

### Amodau trwydded newydd

Rhaid i o leiaf 35% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a rhaid i o leiaf **35% o wariant C4C** ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni **y tu allan i'r M25** a defnyddio amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu.

Tan 31 Rhagfyr 2029, bydd yn rhaid i o leiaf **9% o'r oriau** o raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, a bydd yn rhaid i o leiaf **9% o wariant C4C** ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni **y tu allan i Loegr** a defnyddio canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

O 1 Ionawr 2030 ymlaen, y bydd yn rhaid i o leiaf **12% o'r oriau** o raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, a bydd yn rhaid i o leiaf **12% o wariant C4C** ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni **y tu allan i Loegr** a defnyddio canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Y Cefndir Statudol

5.95 Mae Adran 264 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer yr amcan y dylai'r gwasanaethau darlledu cyhoeddus gyda'i gilydd, cyn belled â'u bod yn cynnwys rhaglenni a wneir yn y DU, gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel amrywiaeth a chyfran briodol o raglenni a wneir y tu allan i ardal yr M25.[177] Mae hefyd yn darparu ar gyfer yr amcan y dylent gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel nifer ddigonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol yn y DU, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r DU.[178] Rydym o'r farn bod cynhyrchu rhaglenni ledled y DU yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn.

5.96 Mae Adran 288 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod yr amodau sy'n briodol yn ein barn ni ar gyfer sicrhau bod C4C yn gwneud cyfran addas o raglenni ar gyfer gwasanaeth Channel 4 y tu allan i'r M25, bod y rhain yn cynnwys amrywiaeth addas o raglenni a bod cyfran addas o'r gwariant yn mynd tuag at gynhyrchu'r rhaglenni hyn mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

5.97 Mae ein canllawiau cynhyrchu rhanbarthol (a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019) yn nodi, er mwyn cyfrif tuag at y cwota cynhyrchu rhanbarthol fesul awr, ei bod yn rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:

- i) Canolfan sylweddol y tu allan i'r M25.
- ii) O leiaf 70% o gyfanswm y gwariant cynhyrchu y tu allan i'r M25.
- iii) Man cyflogaeth arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu, yn ôl y gost, y tu allan i'r M25.

5.98 Mae'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn berthnasol i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i raglenni newyddion. Hefyd, nid yw'r cwotâu yn berthnasol i gynnwys a gaiff ei hunanhyrwyddo na rhaglenni a gaiff eu prynu.

## Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

### Cadw'r cwotâu cynhyrchu rhanbarthol ar 35% o'r oriau a'r gwariant

5.99 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom gynnig cadw cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol 'MoL' ar 35% o'r oriau a'r gwariant.

[177] Adran 264(6)(j) o'r Ddeddf.
[178] Adran 264(6)(i) o'r Ddeddf.

5.100 Roeddem yn nodi ein barn bod y cwotâu presennol wedi hwyluso buddsoddiad sylweddol gan C4C y tu allan i Lundain a oedd wedi cyfrannu at dwf y sector cynhyrchu yn y DU y tu allan i Lundain ac at bortreadu gwahanol gymunedau ledled y DU yn ddilys.[179]

5.101 Gwnaethom ddweud bod y cwota wedi bod yn isafswm wrth gefn effeithiol dros gyfnod y drwydded, ac mae C4C wedi gor-ddarparu swm sylweddol yn gyson a buddsoddi yn y sector a chyfrannu at yr economi greadigol y tu allan i Lundain ar draws ei wasanaethau eraill ar yr un pryd. Gwnaethom gyfeirio at ddata Pact a oedd yn dangos mai comisiynau C4C yn 2021 oedd yr ail ffynhonnell fwyaf o wariant comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr y tu allan i Lundain.[180]

5.102 Gwnaethom asesu a oedd hi'n briodol cynyddu'r gofynion sylfaenol yn y drwydded newydd yng nghyd-destun gor-ddarpariaeth gyson C4C a'i ymrwymiad gwirfoddol i wario 50% o'i gyllideb ar gomisiynau prif sianeli ar raglenni a wneir y tu allan i Lundain erbyn 2023.[181]

5.103 Gwnaethom ddefnyddio ymchwil a gynhaliwyd ar ein rhan gan Oliver and Ohlbaum Associates (O&O), a oedd yn rhagweld twf sector cynhyrchu'r DU yn arafu.[182] Roeddem yn cydnabod pryderon y gallai unrhyw ostyngiad sylweddol mewn buddsoddiad gan C4C o'i lefelau presennol gael effaith negyddol ar y sector. Ond roeddem yn credu na fyddai gostyngiad o'r fath yn gyson â'r cynlluniau a'r ymrwymiadau a gyhoeddwyd gan C4C. Gwnaethom fodelu sut gallai unrhyw ostyngiad mewn gwariant gan C4C o'r lefelau presennol effeithio ar wariant cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain. Roedd ein gwaith modelu, yn seiliedig ar ffigurau 2022, yn awgrymu pe bai C4C yn gwneud y gostyngiad mwyaf a ganiateir yn y gwariant ar raglenni y tu allan i Lundain ar Channel 4, yn ôl i lefel ei gwota o 35%, byddai wedi arwain at ostyngiad o 6.5% yng ngwariant cymwys cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain o'i gymharu â lefelau gwariant gwirioneddol yn 2022. Dywedasom fod unrhyw amrywiad llai o dan ei lefelau presennol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar wariant cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain.[183]

5.104 Daethom i'r casgliad bod y cwotâu presennol wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni'r amcan polisi o fuddsoddi yn yr economi greadigol ledled y DU. Wrth groesawu'r ffaith bod C4C yn rhagori ar y cwota a'i fuddsoddiad ehangach yn y gwledydd a'r rhanbarthau, roeddem yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gan C4C yr hyblygrwydd o hyd i addasu i bwysau masnachol ac amrywiadau o ran cyflenwad yn y sector cynhyrchu. Felly, roeddem o'r farn bod 35% yn dal yn ddewis wrth gefn priodol ar gyfer cyfnod y drwydded nesaf, a bydd yn gwarantu lefel sylfaenol briodol o wariant ac oriau y tu allan i Lundain.[184]

5.105 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, dywedasom fod gan C4C hefyd nifer o gynlluniau ar waith sydd â'r nod o ddatblygu talent a sgiliau ledled y DU a hyrwyddo twf cynyrchiadau annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys ei gynllun 4Skills, ei Gynllun Hyfforddiant Cynhyrchu, a chronfeydd fel y Gronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd a'r Gronfa Twf Cwmnïau Annibynnol, yn ogystal â'i bartneriaethau ag asiantaethau sgrin ledled y DU.[185]

---

[179] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 59.
[180] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 60.
[181] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 60.
[182] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 61-63.
[183] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 64.
[184] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 64.
[185] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 60-61.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

5.106 Roedd yr ymatebion i'n cynnig i gadw'r cwotâu MoL ar eu lefelau presennol yn gymysg. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cael eu sicrhau gan y ffaith bod C4C yn gorgyflawni'r cwotâu hyn ac eraill yn teimlo y dylid ffurfioli targedau mwy heriol.

5.107 Roedd C4C yn cytuno â'n cynnig i gadw'r cwotâu ar eu lefelau presennol ac ailddatgan ei ymrwymiad gwirfoddol i fuddsoddi 50% o'i gyllideb ar gomisiynau ei brif sianel y tu allan i Lundain yn y dyfodol. Nododd C4C hefyd fod ei wariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn uwch nag erioed yn 2022, a'i fod yn gyson wedi rhagori'n sylweddol ar ei gwotâu gwariant ac oriau MoL. Fodd bynnag, roedd C4C yn teimlo y byddai cynyddu lefel y cwotâu yn arwain at risg fasnachol a rheoleiddiol ychwanegol wrth iddo barhau â'i newid strategol tymor hir i fod yn "ffrydiwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf".[186] Dywedodd C4C hefyd ei fod wedi ymrwymo i dyfu'r sector cynhyrchu ffilmiau annibynnol y tu allan i Lundain a chefnogi'r gwaith o gynhyrchu ffilmiau Prydeinig yn y gwledydd a'r rhanbarthau drwy ei gangen cynhyrchu ffilmiau, Film4.[187]

5.108 Cytunodd Dr Phil Ramsey â'n cynigion, gan nodi bod C4C yn rhagori'n gyson ar gwotâu MoL. Dywedodd Dr Ramsey fod cwotâu o'r fath yn ffordd bwysig o sicrhau bod cyllid a swyddi'n cael eu gwasgaru'n decach ledled y DU ac roedd o'r farn bod y dystiolaeth yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, ar y sail roeddem yn cynnig y dylid cadw'r cwotâu ar y lefel bresennol, yn gadarn.[188] Yn yr un modd, soniodd VLV am y ffaith bod C4C wedi rhagori ar y cwotâu, a chyfeiriodd at yr heriau economaidd a oedd yn wynebu C4C a'r sector cynhyrchu ehangach, gan ddod i'r casgliad y byddai'n annoeth cynyddu cwotâu MoL C4C ar hyn o bryd.[189] Roedd rhanddeiliaid eraill hefyd yn cytuno â'n cynnig, gan gynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom [190] a Richard Langworthy.[191]

5.109 Roedd rhanddeiliaid eraill yn cytuno â'n cynnig i gadw'r cwotâu 35% ond roeddent yn teimlo y gellid gwneud mwy i dyfu canolfannau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac i wella sgiliau. Er enghraifft, roedd Directors UK yn cytuno â chadw'r cwotâu ond yn mynegi pryder y byddai ein cynigion i leihau'r cwota materion cyfoes 'pob awr' a'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn golygu colli rhaglenni ffeithiol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Awgrymodd Directors UK hefyd y dylai Ofcom a Channel 4 roi cynllun ar waith ar gyfer sut bydd Channel 4 yn helpu'r gwledydd a'r rhanbarthau i ddatblygu eu gallu i gynhyrchu rhaglenni ffeithiol ac eiddo deallusol, yn ogystal â chynhyrchu mwy o genres eraill fel drama a chomedi, er mwyn datblygu canolfannau cynhyrchu amrywiol a meithrin doniau a sgiliau lleol.[192]

5.110 Dywedodd nifer o randdeiliaid yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr y dylid cynnwys targed gwirfoddol C4C o 50% yn y drwydded i ddiogelu cynyrchiadau y tu allan i

---

[186] Ymateb Channel 4 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 20.
[187] Ymateb Channel 4 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 21.
[188] Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[189] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 8-9.
[190] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[191] Ymateb Richard Langworthy i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2.
[192] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 7.

Lundain.[193] Ategodd rhai rhanddeiliaid y pwynt hwn yn eu hymatebion i ymgynghoriad mis Gorffennaf.[194]

5.111 Dywedodd TAC y gallai Ofcom fod yn fwy uchelgeisiol a gosod gofyniad yn nes at ymrwymiadau Channel 4 ei hun ynghylch lefelau cynhyrchu y tu allan i Lundain. Awgrymodd y dylid codi cwotâu MoL i 45% o leiaf.[195] Dywedodd Llywodraeth yr Alban, er bod Channel 4 wedi cyflawni'n gyson y tu hwnt i'r cwota o 35%, fod perygl y gallai allbwn yn ystod cyfnod y drwydded nesaf suddo i'r lefelau isaf".[196] Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod angen lliniaru'r risg a "sicrhau bod y lefelau presennol yn cael eu cynnal o leiaf, ond yn cael eu gwella yn y pen draw" ac y dylai gynyddu ei lefelau cynhyrchu rhwydwaith y tu allan i Lundain ar sail "decach".[197] Fodd bynnag, ni ddywedodd i ba lefel y dylid codi'r cwotâu MoL.[198]

5.112 Roedd TAC yn dadlau "bod lefel o anghysondeb yn Ofcom ar y naill law yn newid y targed ar gyfer comisiynu gwreiddiol ar y sianel graidd yn radical [cyfeirio at ei farn ar ein cynnig arfaethedig i leihau'r cwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol – gweler paragraff 5.79 uchod], ond gan adael y cwotâu MoL heb eu newid, er ei bod yn amlwg nad yw'r olaf yn cael ei osod ar lefel sy'n ystyried patrwm newydd arferion comisiynu Channel 4".[199]

5.113 Roedd rhai rhanddeiliaid wedi gwneud cymariaethau rhwng C4C a'r BBC, gan awgrymu y gallai C4C efelychu elfennau llwyddiannus o ddull gweithredu'r BBC ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Lundain. Nododd Screen Scotland fod gan y BBC erbyn hyn gomisiynwyr o'r gwledydd i'r rhwydwaith sydd wedi'u lleoli yn Glasgow, Caerdydd a Belfast a'i fod wedi datblygu ei sylfaen o gyflenwyr y tu allan i Lundain yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[200] Tynnodd Pact sylw at yr effaith gadarnhaol y mae canolfannau'r BBC yn Salford a Bryste wedi'i chael ar y sector cynhyrchu lleol.[201]

5.114 Mynegodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth yr Alban[202] a Pact,[203] bryder y gallai C4C ostwng lefel cynhyrchu MoL yn ôl i lefel y cwotâu yn y dyfodol, er ei fod yn ailddatgan ei ymrwymiad i'r targed gwirfoddol o 50%. Dywedodd Pact, er y gallai gostyngiad yng ngwariant C4C y tu allan i Lundain gael effaith fach ar wariant cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae ITV a Channel 5 yn gwario swm cymharol fach y tu allan i Lundain o'i gymharu â'r BBC a Channel 4. Dywedodd Pact petai C4C yn dod â'i wariant y tu allan i Lundain i lefel y cwota, byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y sector cynhyrchu ac mae'n annhebygol y byddai gwariant gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn

---

[193] Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6
[194] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Finestripe i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t.11; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.
[195] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[196] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 4.
[197] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 3-4.
[198] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 3-6.
[199] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4.
[200] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[201] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 10.
[202] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 4.
[203] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9.

gwneud iawn am y golled.[204] Roedd Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon yn teimlo y byddai parhau â'r rhwymedigaeth o 35% yn "ddatgymhelliad" i Channel 4 barhau i gyflawni ei ymrwymiad gwirfoddol o 50% o gynhyrchu y tu allan i Lundain.[205]

5.115 Dywedodd Northern Ireland Screen fod rhywfaint o anghysondeb yn ein dadleuon yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, lle'r oeddem yn dweud nad yw cadw lefel bresennol cwota MoL Channel 4 yn debygol o gael effaith sylweddol ar y sector cynhyrchu.[206] Nododd Northern Ireland Screen ein bod wedi dweud bod comisiynu C4C y tu allan i Lundain yn bwysig, ond ein bod hefyd wedi dweud bod unrhyw amrywiadau bach pellach yng nghyfran gwariant cymwys Channel 4 o dan ei lefelau presennol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar wariant cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain. Dywedodd Northern Ireland Screen "os oes unrhyw resymeg yn y paragraffau hyn, mae'n cael ei bwysoli'n llwyr i C4C ac nid yw'n ystyried y cwmnïau cynhyrchu ar ochr arall yr hafaliad o gwbl".[207]

5.116 Dywedodd Pact ei fod yn cefnogi sicrhau bod gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yr hyblygrwydd angenrheidiol i ymateb i ansicrwydd economaidd ac unrhyw newidiadau yn y farchnad. Fodd bynnag, nid oedd yn cytuno y byddai ymgorffori ymrwymiad gwirfoddol Channel 4 o 50% i'w drwydded yn lleihau ei allu i ymateb i unrhyw newidiadau. Tynnodd sylw at y ffaith bod C4C wedi cyflawni ei ymrwymiad gwirfoddol yn ystod pandemig Covid-19, a nododd fod gan C4C yr hyblygrwydd i ymateb i newidiadau economaidd neu newidiadau yn y farchnad nad oedd modd eu rhagweld. Dywedodd hefyd y dylai Ofcom ystyried yr hyblygrwydd cynyddol fydd gan C4C o ganlyniad i'r Ddeddf Cyfryngau (gweler paragraff 4.15).[208]

5.117 Rhoddodd Pact gyfres o astudiaethau achos i ni o gwmnïau cynhyrchu a chanolfannau cynhyrchu rhanbarthol a oedd, yn ei farn ef, yn gallu ymdopi'n rhwydd â'r galw cynyddol gan ddarlledwyr am gomisiynu genres effaith uchel yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Tynnodd Pact sylw at y rôl y gallai canolfannau cynhyrchu sefydledig fel Manceinion, Bryste a Salford ei chwarae o ran diwallu'r galw cynyddol, yn ogystal â chanolfannau llai fel y rheini yng Nghanolbarth a Gogledd-ddwyrain Lloegr.[209] Yn benodol, er bod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn y DU yn canolbwyntio ar gynyrchiadau heb eu sgriptio, nododd Pact fod llawer ohonynt yn fodlon ac yn gallu addasu a newid i genres eraill. Roedd Pact yn dadlau y gallai hyn gefnogi cwota uwch yng nghyd-destun strategaeth C4C i ganolbwyntio ar lai o gomisiynau effaith uchel.[210]

5.118 Dywedodd Pact hefyd, er bod unrhyw fuddsoddiad ychwanegol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynlluniau hyfforddi a datblygu i'w groesawu, bod angen comisiynau ar gynhyrchwyr er mwyn uwchraddio eu busnesau, buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau, a datblygu syniadau newydd.[211]

[204] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9.
[205] Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 1.
[206] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 63.
[207] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3.
[208] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 12
[209] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9-10.
[210] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 10.
[211] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 11.

5.119 Dywedodd Pact hefyd, wrth ddatblygu ein cynigion mewn perthynas â'r cwotâu MoL y dylem fod wedi ystyried bod y Ddeddf Cyfryngau yn dileu'r cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr, gan ganiatáu i C4C wneud ei raglenni ei hun am y tro cyntaf.[212] Yn ei ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf, dywedodd Pact hefyd fod ysgrifennu'r 50% o ymrwymiad gwirfoddol i drwydded newydd Channel 4 hyd yn oed yn fwy hanfodol gan y bydd yn effeithio ar y cwotâu mae Ofcom yn eu gosod wrth weithredu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau.

## Ein hymateb

5.120 Roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn rhanedig ar ein cynnig i osod cwotâu MoL ar 35%, gyda rhai'n cefnogi ein sefyllfa ac eraill yn ceisio cynnydd yn y cwotâu.

5.121 Roedd rhanddeiliaid a oedd yn anghytuno â'n cynnig yn anghytuno am ddau brif reswm: oherwydd bod C4C wedi bod yn rhagori'n sylweddol ar y cwotâu ers cryn amser ac felly, yn eu barn nhw, nid oedd unrhyw reswm pam na allai barhau i wneud hynny; ac oherwydd pryderon y gallai lefel y ddarpariaeth ostwng dros amser, heb gynnydd yn y cwota.

5.122 Mae'r cwotâu presennol wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni'r amcan polisi o fuddsoddi yn yr economi greadigol ledled y DU. Rydym yn cydnabod bod C4C wedi bod yn rhagori'n sylweddol ar y cwotâu yn ystod cyfnod y drwydded bresennol. Rydym yn croesawu'r gorgyflawni hwn ac yn credu bod lefel y buddsoddiad gan C4C yn y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ystod cyfnod y drwydded bresennol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r sector. Fel cyd-destun, mae C4C hefyd wedi rhagori ar lawer o'i gwotâu eraill yn ystod cyfnod y drwydded hon. Er enghraifft mae ei gwota cynhyrchu annibynnol o 25% wedi bod yn agosach at 50% ar gyfartaledd.[213]

5.123 Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gan C4C yr hyblygrwydd o hyd i addasu i bwysau masnachol ac amrywiadau o ran cyflenwad yn y sector cynhyrchu. Credwn fod cadw'r lefelau cwota presennol yn darparu'r hyblygrwydd hwn a bod 35% yn ffigur wrth gefn priodol a chymesur ar gyfer cyfnod y drwydded nesaf, gan warantu lefel sylfaenol briodol o wariant ac oriau y tu allan i Lundain.

5.124 Rydym yn deall pryderon rhai rhanddeiliaid, pe na bai C4C yn cael ei ddal yn ffurfiol i'w lefel bresennol o orgyflawni, y gallai leihau ei wariant gan barhau i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran y cwota. Mae C4C wedi nodi'n glir yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023 ac yn ei ymatebion i ymgyngoriadau mis Rhagfyr a mis Gorffennaf, ei fod wedi ymrwymo'n llwyr i'w sefyllfa, a nodir yn *4 All the UK*, y bydd yn gwario 50% o'i brif gyllideb comisiynu sianeli y tu allan i Lundain. Ailddatganodd yr ymrwymiad hwn yn gyhoeddus ym mis Tachwedd 2023.

5.125 Dywedasom yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr bod ein model, ar sail ffigurau 2022, yn awgrymu pe bai C4C yn gwneud y gostyngiad mwyaf a ganiateir yn y gwariant ar raglenni y tu allan i Lundain ar Channel 4, yn ôl i lefel ei gwota o 35%, y byddai hyn wedi bod yn ostyngiad o 6.5% yng ngwariant cymwys cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain o'i gymharu â lefelau gwariant gwirioneddol yn 2022. Mae unrhyw amrywiad llai o dan ei berfformiad presennol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar wariant cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain. Rydym yn dal i fod o'r farn, er bod buddsoddiad C4C yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn bwysig, mae unrhyw amrywiadau

[212] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8.
[213] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, Ffigur 27, 6 Rhagfyr 2023, t. 73.

bach yn y buddsoddiad hwn yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar y sector cynhyrchu yn y DU.[214]

5.126 Rydym yn parhau i gredu ei bod yn bwysig taro cydbwysedd rhwng y sicrwydd uwch a ddarperir drwy ffurfioli cwotâu uwch a sicrhau hyblygrwydd priodol i C4C gyflawni ei gylch gwaith. Rydym o'r farn bod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried sefyllfa ariannol bresennol C4C a'i drawsnewidiad digidol. Fel y nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gallai bwriad C4C i fuddsoddi mwy mewn cynnwys tariff uchel, effaith uchel sy'n denu cynulleidfaoedd i Channel 4 Streaming gyfyngu ar y gronfa o gynhyrchwyr y byddai'n gallu eu comisiynu, gan fod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn y DU yn canolbwyntio ar gynnwys heb ei sgriptio.[215] Rydym yn derbyn prif ddadl C4C, a gyflwynwyd hefyd gan randdeiliaid eraill, fod y lefel cwota bresennol o 35% yn darparu'r lefel briodol o hyblygrwydd yn ogystal â gwarantu lefel sylfaenol briodol o wariant ac oriau y tu allan i Lundain.

5.127 Mewn ymateb i bwynt Pact y dylem fod wedi ystyried dileu'r cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr, rydym o'r farn o hyd na allwn asesu effaith bosibl ei ddileu ar hyn o bryd. Nid yw C4C wedi cyhoeddi cynlluniau eto i nodi a fydd yn manteisio ar ddileu'r cyfyngiad, na phryd neu sut y bydd yn gwneud hynny. Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023, dywedodd C4C, er ei bod yn bosibl y bydd yn datblygu capasiti cynhyrchu mewnol yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, mai tyfu'n raddol fyddai'r capasiti hwn, ac nad yw'n gwybod ar hyn o bryd ble y byddai wedi'i leoli.[216] Mewn ymateb i bwynt Pact bwynt ynghylch y newidiadau i'r cwotâu fel rhan o weithredu'r Ddeddf Cyfryngau, byddwn yn ymgynghori ar y newidiadau hyn, a fydd yn effeithio ar yr holl drwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol, yn gynnar y flwyddyn nesaf.

5.128 Mewn ymateb i bwynt TAC ynglŷn â'r berthynas rhwng y cwotâu MoL a'r cwota rhaglenni gwreiddiol, fel rydym yn ei egluro ym mharagraff 5.64, nid yw'r cwota rhaglenni gwreiddiol yn amod 'dangos am y tro cyntaf' sy'n gwarantu lefel benodol o raglenni newydd bob blwyddyn a gellir ei fodloni gydag ailddarllediadau o gynnwys a gomisiynwyd yn flaenorol. I'r gwrthwyneb, mae'r cwotâu MoL yn mynnu bod cyfran sylfaenol o'r gwariant cymwys ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cael ei gwneud y tu allan i Lundain. Felly, nid ydym yn cytuno bod ein dull gweithredu'n anghyson.

5.129 Mewn ymateb i randdeiliaid a oedd wedi gwneud cymariaethau rhwng C4C a'r BBC, rydym yn parhau i gredu mai rhan bwysig o C4C yn gwella ei ddarpariaeth yn y gwledydd yw cryfhau mynediad at gomisiynwyr i gynhyrchwyr ar draws y DU. Fel rhan o'r wybodaeth ychwanegol y byddwn yn gofyn i C4C ei chyhoeddi'n flynyddol, bydd angen iddo nodi sut mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob gwlad a sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys sut mae'n galluogi mynediad at gomisiynwyr a byddwn yn ychwanegu hynny at ein canllawiau (gweler paragraff 5.234).

## Ein penderfyniad

5.130 Rydym wedi penderfynu cadw'r cwotâu MoL ar 35% o'r oriau a'r gwariant cymwys.

[214] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 63-64.
[215] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 63.
[216] Cyflwyniad mis Mai 2023 C4C, t. 7.

5.131 Byddwn yn parhau i fonitro darpariaeth C4C y tu allan i Lundain bob blwyddyn drwy ein Hadroddiad SMCP ac i gyhoeddi lefel yr oriau a'r gwariant mewn perthynas â'i ymrwymiad gwirfoddol.

### Cynyddu cwotâu'r cynyrchiadau Gwaned y tu allan i Loegr (MoE) i 12% o'r oriau a'r gwariant o 2030 ymlaen

## Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

5.132 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom gynnig cadw'r cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau a wneir y tu allan i Loegr ar 9% o'r oriau a'r gwariant.

5.133 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r sector cynhyrchu yn anghytuno â'r cynnig hwn. Ar ôl ystyried yr ymatebion, ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, a chael gwybodaeth ychwanegol gan C4C, gwnaethom ymgynghori ym mis Gorffennaf ar gynnig i gynyddu cwotâu MoE Channel 4 i 12% o'r oriau a'r gwariant o 2030 ymlaen.

5.134 Yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, gwnaethom egluro ein bod yn ceisio gosod y cwotâu MoE ar lefel briodol i gefnogi cynyrchiadau y tu allan i Loegr, i gyfrannu at amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau cymunedau ledled y DU, a rhoi hyblygrwydd priodol i C4C er mwyn iddo lwyddo a chyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU.[217]

5.135 Gwnaethom asesu'r opsiynau canlynol yn ymgynghoriad mis Gorffennaf:

- Cadw'r cwotâu ar 9% o'r oriau a'r gwariant (ein cynnig yn ymgynghoriad mis Rhagfyr);
- Cynyddu'r cwotâu i 16%;
- Cynyddu'r cwotâu i 12%;
- Ychwanegu cwotâu manylach 'sy'n benodol i'r gwledydd unigol'.

5.136 Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roeddem yn cydnabod y byddai codi'r cwotâu yn debygol o arwain at fanteision ychwanegol i gynhyrchwyr yn y gwledydd drwy gynyddu'r lefel o wariant ac oriau cynhyrchu sy'n cael eu gwarantu ac y gellir eu gorfodi.[218]

5.137 Rydym hefyd yn nodi ein barn y gallai cynyddu'r cwotâu i lefel rhy uchel gael effaith negyddol ar gynaliadwyedd ariannol C4C. Gwnaethom fodelu effaith ariannol pennu'r cwotâu ar 12% a 16%, ac roeddem yn amcangyfrif y gallai'r cynnydd mewn costau sy'n ofynnol i gyflawni cwota 16% arwain at ddiffyg cyffredinol ar ddiwedd cyfnod y drwydded nesaf. Ar sail ein dadansoddiad, dywedasom mai ein barn ni oedd, er ei fod yn dal i gynrychioli risg fach i gynaliadwyedd ariannol C4C a'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau trwydded, fod cynyddu'r cwotâu MoE o 9% i 12% yn ystod cyfnod y drwydded nesaf yn debygol o ganiatáu i C4C gadw digon o hyblygrwydd masnachol a chael ei gefnogi gan ei refeniw amcanestynedig. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ehangach yn y farchnad a heriau ariannol presennol C4C, roeddem o'r farn y byddai cynyddu'r cwotâu MoE ymhellach, i 16%, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar hyblygrwydd masnachol C4C, yn peri mwy o risg i

[217] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 14.
[218] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 17.

gynaliadwyedd C4C yn y dyfodol a'i allu i gyflawni ei gylch gwaith a'i rwymedigaethau trwydded. Dywedasom y byddai hyn er anfantais i gynulleidfaoedd yn y DU.[219]

5.138 Gwnaethom nodi y gallai'r cwotâu gynyddu'r heriau sy'n wynebu C4C wrth gomisiynu yn y gwledydd a bod gwahaniaeth barn sylweddol rhwng C4C a rhanddeiliaid eraill ar y mater hwn.[220]

5.139 Dywedasom fod cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd yn well yn y gwledydd yn bwysig ond nad oedd cwotâu cynhyrchu yn gwarantu hynny, gan y gallai rhaglen sy'n cael ei gwneud mewn gwlad benodol olygu ei bod yn adlewyrchu'r lle hwnnw ond nid yw hynny bob amser yn wir.[221] Roeddem hefyd yn anghytuno â'r farn a gyflwynwyd gan rai rhanddeiliaid y dylai Channel 4 gael yr un rhwymedigaethau â'r BBC, gan nodi'r gwahaniaethau sylweddol yn eu modelau cyllido a llywodraethu. Dywedasom na ellid cymharu'r BBC a C4C yn uniongyrchol, gan fod C4C ar raddfa lai o lawer a bod y BBC yn gallu bodloni ei gwotâu drwy ei ganolfannau cynhyrchu mewnol sylweddol ei hun yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU tra bo C4C ar hyn o bryd yn gwbl ddibynnol ar argaeledd cwmnïau cynhyrchu allanol.[222]

5.140 Roeddem yn cydnabod y byddai gwarantu lefel sylfaenol o gynhyrchu ym mhob gwlad yn golygu y gallai cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd fod yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y sectorau cynhyrchu yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, roeddem hefyd wedi nodi'r ansicrwydd ynghylch capasiti ac effaith oedi neu ganslo comisiynau'r gwledydd ar gwotâu sy'n benodol i'r gwledydd.[223] Dywedasom ein bod wedi cynnig cadw'r gofyniad bod yn rhaid i wariant MoE fod yn berthnasol i ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ym mhob blwyddyn galendr. Byddai hyn yn sicrhau na all C4C gyflawni ei gwota mewn un neu ddwy o'r gwledydd yn unig, a bod yn rhaid iddo gyfrannu gwariant at ganolfannau cynhyrchu ym mhob gwlad bob blwyddyn.[224]

5.141 Ochr yn ochr â chynnig y dylai'r cwotâu MoE gynyddu i 12% roeddem wedi edrych ar yr amserlen briodol i C4C bontio i'r lefel uwch. Gwnaethom ddadansoddi barn C4C na ddylai'r cynnydd i 12% ddigwydd cyn 2030.[225]

5.142 Dywedasom y byddai angen i C4C reoli cynnydd yn ei gwotâu ar yr un pryd â chyflawni strategaeth *Fast Forward*, a byddai angen i gomisiynwyr a chynhyrchwyr addasu i flaenoriaethau newydd. O ystyried ei sefyllfa ariannol, ansicrwydd yn y farchnad ehangach, a'r angen i C4C ganolbwyntio ar gyflymu ei drawsnewidiad digidol gan sicrhau bod ei allbwn yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ar yr un pryd, daethom i'r casgliad bod cyfnod addasu pum mlynedd ar gyfer cwotâu uwch MoE yn rhesymol. Fodd bynnag, dywedasom ein bod yn disgwyl i fuddsoddiad C4C mewn rhaglenni y tu allan i Loegr gynyddu dros y cyfnod rhwng

---

[219] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 18-20.
[220] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 22-23.
[221] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 23.
[222] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 24.
[223] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 26.
[224] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 27.
[225] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 28-29.

2025 a 2030 er mwyn paratoi ar gyfer y cwotâu uwch o 2030 ymlaen ac y byddem yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP blynyddol i asesu ei gynnydd.[226]

5.143 Yn ogystal â chynnig cynyddu'r cwotâu i 12% erbyn 2030, roeddem hefyd wedi dweud ei bod yn bwysig bod dull gweithredu C4C ar gyfer comisiynu yn fwy tryloyw ym mhob un o'r gwledydd. Roeddem felly hefyd yn cynnig rhoi rhagor o arweiniad ar yr hyn roeddem yn disgwyl i C4C ei nodi yn ei SMCP ynglŷn â'i ddull o gomisiynu ym mhob gwlad unigol.[227]

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

### Lefel arfaethedig y cwotâu MoE

5.144 Roedd C4C yn cytuno â'n cynigion, gan ddweud y byddai cynyddu'r cwotâu oriau a gwariant MoE i 12% o 2030 ymlaen yn estyniad heriol ond hylaw i ofynion y drwydded bresennol. Roedd C4C hefyd yn cytuno â'n dadansoddiad a oedd yn credu y byddai codi'r cwotâu MoE i 16% yn golygu mwy o risg i gynaliadwyedd ariannol C4C yn y dyfodol.[228]

5.145 Nid oedd Pwyllgor Cynghori Lloegr Ofcom yn cynnig barn ar lefel y cwotâu ond dywedodd y byddai'n bryderus petai'r cwotâu arfaethedig o 12% ar gyfer rhaglenni a wneir y tu allan i Loegr cael effaith negyddol ar y sector cynhyrchu yn rhanbarthau Lloegr.[229]

5.146 Roedd Writer's Guild of Great Britain (WGGB) yn cefnogi ein cynigion i gynnal y gofyniad o 9% tan 2030 ac yna cynyddu'r gofyniad i 12% ar y ddealltwriaeth mai dyma'r cam cyntaf tuag at gwotâu cynhyrchu "tecach" yn y dyfodol.[230]

5.147 Roedd Pact yn siomedig ein bod wedi penderfynu peidio â chynnig cynyddu'r cwotâu MoE i 16% yn ymgynghoriad mis Gorffennaf.[231] Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn deall yr angen i C4C gynnal lefel benodol o hyblygrwydd i addasu i'r newidiadau yn y farchnad a'r newid i ddigidol, a bod cwotâu o 12% yn gallu darparu mwy o hyblygrwydd na chwotâu 16%, o leiaf yn y tymor byr.[232] Dywedodd hefyd, o ystyried y rhyngweithio rhwng y cwotâu MoL a'r cwotâu MoE, ei bod yn bwysig i Ofcom egluro a yw'r lefel cwotâu MoE arfaethedig o 12% yn 12% o'r cwota MoL ar ei ffurf bresennol (35%), neu'n 12% o ymrwymiad gwirfoddol C4C o 50% (fel roedd Pact yn ei gynnig yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr).[233] Rydym yn trafod hyn ymhellach ym mharagraff 5.204 isod.

5.148 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n cynnig ym mis Gorffennaf yn dadlau mai 16% oedd y lefel fwyaf priodol ar gyfer y cwota MoE.[234] Roedd y rhan fwyaf yn

---

[226] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 29-30.
[227] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 30-31.
[228] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[229] Ymateb ACE i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[230] Ymateb y Writer's Guild of Great Britain i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[231] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3.
[232] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[233] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 14.
[234] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Finestripe i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t 1-2; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Maramedia i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3-4; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t 1; Ymateb ACS i

gwneud hynny drwy wneud cysylltiad â chyfran poblogaeth y DU y tu allan i Loegr, gan ddadlau y dylai'r cwota MoE adlewyrchu hyn.[235] Dywedodd Screen Scotland y byddai 16% yn sicrhau bod C4C yn "darparu gwerth i gynulleidfaoedd a'r sector creadigol yn gyfartal ar draws pedair gwlad y DU, heb ffafrio unrhyw un dros y llall", a oedd yn angenrheidiol meddai, o ystyried sefyllfa C4C ym mherchnogaeth y cyhoedd.[236] Dywedodd Directors UK hefyd y dylai darlledwyr sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd gyflawni eu cylch gwaith a gwario eu cyfalaf creadigol yn deg ledled y DU.[237]

5.149 Roedd rhai hefyd yn cymharu hyn â chwotâu'r BBC sy'n benodol i wledydd, sy'n cyfateb i 16%.[238] Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom "yn wahanol i'r 12% a awgrymwyd, nid yw 16% yn rhif mympwyol. Mae'n adlewyrchu poblogaethau'r DU ac mae eisoes wedi bod yn un o gwotâu llwyddiannus Gwledydd y BBC ers blynyddoedd lawer".[239] Dywedodd Screen Scotland fod "16% yn cael ei gynnig gan ei fod yn cysoni'r cwota â chyfrannau poblogaeth y DU ar draws y pedair gwlad ac nad oedd bwriad iddo gysoni gofynion trwydded C4C a rhai'r BBC fel y cyfryw".[240] Yn yr un modd, dywedodd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom bod "nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon yn cynrychioli bron i 16% o boblogaeth y DU. Ar sail yr egwyddor syml o gynrychioli'r boblogaeth, mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn dadlau nad yw'r cynnydd arfaethedig mewn cwotâu MoE i 12% erbyn 2030 yn ddigon uchelgeisiol na chynrychioladol a'i fod yn fygythiad i ymrwymiad penodol Channel 4 i gyflawni ar gyfer y DU gyfan".[241] Dywedodd Directors UK fod "16%+ o boblogaeth y DU yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'r newid arfaethedig diweddaraf hwn o 9% i 12% yn adlewyrchu hynny'n deg".[242] Dywedodd Northern Ireland Screen nad yw 16% yn cyfleu dulliau rheoleiddio'r BBC, yn hytrach, mae wedi'i seilio ar Deyrnas Unedig gyda thair Gwlad ddatganoledig sydd â phoblogaeth gyfun o 16%. Mae'r DU ddatganoledig wedyn yn cyd-fynd â gweledigaeth C4C i gynrychioli'r DU gyfan a'i strategaeth 4 All the UK".[243]

---

ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 13-15; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Senedd Cymru i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

[235] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3-4; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3-4; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t 1; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Senedd Cymru i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

[236] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10.

[237] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

[238] Mae gan y BBC gwotâu sy'n benodol i wledydd ar gyfer oriau a gwariant yn yr Alban (8%), Cymru (5%) a Gogledd Iwerddon (3%). Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3;

[239] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.

[240] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10.

[241] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

[242] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

[243] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.

5.150 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod 16% yn briodol oherwydd y byddai o fudd i'r sectorau cynhyrchu a chynulleidfaoedd yn y gwledydd. Er enghraifft, dywedodd Directors UK y byddai cynyddu cwota MoE Channel 4 i 16% yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i greu "mwy o degwch o ran y cyfleoedd i gyfarwyddwyr sgrin, a thalent arall oddi ar y sgrin, yn y gwledydd".[244] Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom ei fod yn credu y byddai 16% o gwotâu "nid yn unig o fudd i'r sectorau yn y Gwledydd ond hefyd i C4, gan ddarparu'r cynnwys arloesol mae'n chwilio amdano".[245]

5.151 Dywedodd Screen Scotland y byddai gweithredu'r cynigion a nodwyd gennym yn ymgynghoriad mis Gorffennaf yn rhoi swyddi creadigol mewn perygl yn y gwledydd, gan arwain at ragor o dalent yn mynd o'r gwledydd i Lundain. Dywedodd Screen Scotland hefyd na fyddai ein cynigion yn gwneud dim i gynulleidfaoedd ledled y DU sydd eisiau gweld eu buddiannau, eu bywydau a'u pryderon yn cael eu hadlewyrchu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU.[246] Dywedodd Directors UK fod methiant Channel 4 i fuddsoddi lefel "deg a chyfartal" o'i wariant mewn cynyrchiadau a wneir y tu allan i Loegr wedi cyfrannu at brinder cyfleoedd swyddi i gyfarwyddwyr sgrin a thalentau eraill oddi ar y sgrin sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd ac na fyddai'r cwotâu MoE sy'n cael eu cynnig yn ein hailymgynghoriad yn mynd i'r afael â hyn yn ddigonol.[247]

5.152 Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom ein bod, drwy dderbyn awgrym 'ceidwadol' C4C o gynnydd (i 12%) wedi derbyn goramcangyfrif o'r risg i'r darlledwr.[248] Heriodd Pact yr honiad a gyflwynwyd gan C4C yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr bod cyfyngiadau capasiti yn y sector cynhyrchu y tu allan i Loegr. Nododd Pact fod Glasgow, Caerdydd a Belfast eisoes yn ganolfannau cynhyrchu sydd wedi hen ennill eu plwyf a bod ganddo oddeutu 77 o aelodau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedodd Pact hefyd fod cwmnïau o wahanol faint yn y gwledydd, ynghyd â chwmnïau cynhyrchu eraill nad ydynt yn aelodau o Pact.[249] Nododd Screen Scotland hefyd fod Glasgow wedi datblygu dros yr ugain mlynedd diwethaf yn un o ganolfannau cynhyrchu mwyaf y DU y tu allan i Lundain, gyda chefnogaeth comisiynu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[250] Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom mai Gogledd Iwerddon yw'r ganolfan cynhyrchu clyweledol fwyaf yn y DU y tu allan i Lundain Fwyaf.[251]

5.153 Roedd rhanddeiliaid eraill hefyd wedi nodi eu sylwadau, ar sail eu gwybodaeth am y sector, eu bod o'r farn bod gan y gwledydd y capasiti i gefnogi cynnydd mewn cynhyrchu.[252] Roedd rhai yn dadlau bod cwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd eisoes yn cynhyrchu'r math o gynnwys effaith uchel a fyddai'n cyfrannu at strategaeth gomisiynu newydd C4C. Tynnodd Cymru Greadigol sylw at y ffaith bod cwmnïau cynhyrchu yn cynhyrchu cynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel yn rheolaidd ar gyfer darlledwyr a ffrydwyr eraill ar draws sawl genre (fel *Sex Education* a *House of the Dragon*), gan ychwanegu eu bod yn "hyderus bod y sector yng Nghymru yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw gan Channel 4".[253] Cyfeiriodd

---

[244] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[245] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[246] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8-9.
[247] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[248] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[249] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10.
[250] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 13.
[251] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[252] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 7-10; Ymateb Writer's Guild of Great Britain i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[253] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.

Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom at seilwaith cynhyrchu datblygedig Gogledd Iwerddon a chynyrchiadau poblogaidd fel *Game of Thrones* a *Derry Girls* fel tystiolaeth y gallai Gogledd Iwerddon ddarparu comisiynau sy'n addas i strategaeth gomisiynu newydd C4C.[254]

5.154 Roedd y Writer's Guild of Great Britain yn anghytuno ag awgrym C4C y byddai cynyddu'r cwotâu MoE i 16% yn rhoi cyfyngiadau ar ei waith comisiynu ac yn ei orfodi i gomisiynu rhaglenni gyda'r bwriad o fodloni cwota yn hytrach nag am eu bod yn cynrychioli'r syniadau gorau posibl.[255] Dywedodd WGGB nad oes prinder talent na syniadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau; barn a rennir gan randdeiliaid eraill.[256]

5.155 Dywedodd Pact ei fod yn cydnabod bod gan y BBC a C4C rai gwahaniaethau sylfaenol, a bod C4C yn llai o ran maint, ond mae C4C yn parhau i fod yn un o'r darlledwyr mwyaf yn y DU. Dywedodd Pact, er bod gan y BBC gapasiti cynhyrchu sylweddol drwy BBC Studios, nad yw ei gapasiti mewnol yn y gwledydd yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni cwotâu'r BBC. Fel rhan o'i ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf, comisiynodd Pact O&O i archwilio'r cynigion roeddem wedi'u nodi. Cyfeiriodd Pact at y dadansoddiad hwn i ddangos nad yw'r BBC yn dibynnu ar ei gapasiti mewnol yn y gwledydd i fodloni ei gwotâu.[257] Nododd Northern Ireland Screen hefyd nad oes gan y BBC gapasiti cynhyrchu mewnol yng Ngogledd Iwerddon.[258]

5.156 Roedd effaith Deddf y Cyfryngau yn ymwneud â rhai rhanddeiliaid, a oedd yn teimlo y dylem roi cyfrif am newidiadau posibl i'r dirwedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth osod amodau'r drwydded newydd. Roedd Pact yn "annog Ofcom yn gryf" i ystyried y cynigion yn y Ddeddf Cyfryngau mewn perthynas â'r cwotâu MoE a sut bydd yr hyblygrwydd hwn yn cyfrannu at gynaliadwyedd cyffredinol C4C yng nghyd-destun cwotâu MoE.[259]

5.157 Dywedodd Pact hefyd ei bod yn debygol y byddai C4C wedi symud i gynhyrchu cyn diwedd cyfnod y drwydded nesaf. Dywedodd, er ei bod yn annhebygol y bydd C4C yn gallu graddio i'r un lefel ag ITV Studios a BBC Studios dros y deng mlynedd nesaf, ei fod yn bryderus nad oeddem wedi ystyried hyn wrth bennu'r drwydded.[260]

## Amseru cyflwyno cwotâu MoE uwch

5.158 Dywedodd C4C "rydym yn cytuno â barn Ofcom mai dim ond o 2030 ymlaen y dylai'r cwota o 12% ddod i rym yn ffurfiol. Rydym bob amser wedi gweld ein cwotâu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau fel isafswm, ac rydym yn ceisio rhagori arnynt lle bynnag y gallwn. Felly, ein huchelgais yw cyrraedd y lefel o 12% ac, os yw'n bosibl, rhagori arni cyn 2030."[261] Roedd C4C yn dadlau, er gwaethaf ei ymgais i gyrraedd y lefel o 12% cyn 2030, bod "amser paratoi digonol cyn gweithredu'r cwota uwch yn angenrheidiol er mwyn i ni allu addasu i gwota uwch gan wneud newidiadau sylweddol i'n dull comisiynu a'n strwythur sefydliadol ehangach ar yr un pryd o dan y strategaeth Fast Forward. Ffactor arall yw bod y Ddeddf Cyfryngau yn gwneud newidiadau mawr i'r fframwaith rheoleiddio darlledu gwasanaeth

---

[254] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[255] Ymateb y Writer's Guild of Great Britain i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[256] Ymateb y Writer's Guild of Great Britain i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 16; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[257] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5-6.
[258] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[259] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.
[260] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.
[261] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8.

cyhoeddus, gan gynnwys newid sail sut mae cwotâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyfrifo. Nid yw'r newidiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith eto, ac rydym o'r farn bod angen gohirio cychwyn lefel cwota MoE uwch yn ffurfiol nes bod hyn wedi digwydd er mwyn caniatáu i'n gweithrediadau mewnol addasu i'r fethodoleg cwota newydd".[262]

5.159 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r lefel uwch ddod i rym cyn 2030.[263] Cafodd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch pryd dylid codi cwotâu eu cyflwyno gan randdeiliaid.

5.160 Roedd Pact yn dadlau dros gwotâu MoE o 12% o 2027 ymlaen, gan godi i 16% erbyn 2034.[264] Gan ddefnyddio'r dadansoddiad a gomisiynwyd ganddo gan O&O, dywedodd Pact, er bod oriau a gwariant C4C yn y gwledydd wedi amrywio, mae'r oriau cymwys o'r gwledydd wedi aros ar 9% neu'n uwch ers 2015. Er ei fod yn cydnabod bod gwariant cymwys wedi amrywio i raddau mwy, roedd yn dadlau bod y cynnydd mewn gwariant o 7.9% yn 2019 i 9.4% yn 2020 (pan ddaeth cwota 9% MoE i rym) "yn tynnu sylw at y ffaith bod C4C yn gallu cyflawni unrhyw gwotâu gwell pan fo angen".[265] Roedd Pact hefyd yn dadlau bod C4C wedi cyflawni ei gwota 9% ers ei gyflwyno a nododd, yn 2023, fod gwariant wedi cynyddu'n agos i 11%, ac roedd Pact yn dadlau ei fod yn dangos "y byddai cyrraedd y 12% arfaethedig yn ymarferol cyn 2030".[266]

5.161 Gofynnodd Pact i O&O ystyried sut gallai C4C fodloni cwota o 12% o 2027 ymlaen. Roedd Pact yn cydnabod y byddai angen rhywfaint o gynllunio ar gyfer cynnydd mewn cwota ond dywedodd "gan mai dim ond 1.1% yw'r newid arfaethedig mewn cwota ar gyfer gwariant ac 1.4% ar gyfer oriau yn uwch na'r lefelau a gyflawnwyd gan Channel 4 yn 2023", na fyddai C4C angen cyfnod addasu pum mlynedd.[267]

5.162 Roedd gwaith modelu O&O yn awgrymu y byddai bodloni'r cwota o 12% yn 2027 yn gofyn am £4-7m o fuddsoddiad ychwanegol yn y gwledydd gan C4C y flwyddyn rhwng 2025 a 2027.[268] Nododd Pact y byddai'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn debygol o ddeillio o ddargyfeirio gwariant i ffwrdd o Lundain.[269] Roedd yn dadlau bod comisiynau newydd yn cyfrif am gyfran uwch o gomisiynau yn Llundain na'r tu allan, a oedd, yn ei farn ef, yn awgrymu y gallai C4C ddargyfeirio rhywfaint o'i wariant ar gomisiynau newydd yn Llundain

---

[262] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8.

[263] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Finestripe i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t 1-2; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Maramedia i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3-4; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t 1; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 13-15; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Senedd Cymru i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.

[264] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3.

[265] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 11.

[266] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 11.

[267] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 11.

[268] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 12.

[269] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 12.

i'r gwledydd yn hytrach na symud cyfresi sy'n dychwelyd neu gynyddu ei gyllideb ar gynnwys yn sylweddol.[270]

5.163 Roedd Pact yn deall y byddai'n cymryd amser i C4C newid ei strategaeth gomisiynu i roi cyfrif am gwotâu MoE uwch ond dywedodd y byddai gweithredu cwota mwy o'r gwledydd yn 2027 yn gymhelliant i C4C chwilio am syniadau newydd gan gyflenwyr newydd.[271] Dywedodd Screen Scotland, os yw'r sector cynhyrchu yn y gwledydd i fod yn barod i wasanaethu strategaeth ddigidol C4C yn 2030, y bydd cadw'r cwotâu MoE ar 9% tan hynny yn rhoi mantais anghymesur i gynhyrchwyr yn Lloegr, ac yn debygol, yn Llundain.[272]

5.164 Roedd Screen Scotland yn defnyddio dadansoddiad O&O ar ran Pact i ddadlau dros gwotâu MoE o 12% o 2027, gydag 16% yn "nod ymestynnol" ar draws y cyfnod 2027 i 2034.[273] Dywedodd Screen Scotland fod "2027 yn darged y mae modd i C4C ei gyflawni o ran cyrraedd cwota o 12%, gan ei fod yn cynnig digon o 'amser i addasu'. Mae taro 16% yn fwy heriol, ond o 2027 ymlaen bydd Ofcom mewn sefyllfa llawer cryfach i benderfynu a yw 16% yn gyraeddadwy nag ydyw yn 2024. Yna gellir pennu cyflymder y nod ymestynnol hwn o 16% i sicrhau bod y cydbwysedd y mae Ofcom yn ei geisio yn cael ei gynnal yr holl ffordd i 2034".[274]

5.165 Wrth ddadlau dros ddyddiad o 2027, dywedodd Screen Scotland hefyd nad oedd amcangyfrif Ofcom o'r swm ychwanegol y byddai'n rhaid i C4C ei wario i gyrraedd cwotâu MoE uwch yn ystyried ei bod "...yn anghyffredin nawr i unrhyw brosiect ar raddfa gael ei ariannu gan ffi trwydded darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn unig...yn amlach na pheidio mae'n gyfuniad o ffi'r drwydded, ffi ymlaen llaw am ddosbarthu, a ffynonellau eraill – gan gynnwys cyllid cyhoeddus – sy'n ffurfio cyllid cyffredinol unrhyw brosiect." Dywedodd Screen Scotland hefyd ei fod yn deall bod 2030 wedi cael ei chynnig oherwydd mai dyma pryd roedd disgwyl i *Fast Forward* C4C ddod i ben.[275] Roedd nifer o randdeiliaid eraill hefyd yn awgrymu y dylai cwotâu godi o 12% i 16% yn ystod y cyfnod 2027-2034.[276]

5.166 Roedd y British Film Institute (BFI) yn dadlau dros 16% erbyn diwedd 2034, [277] a Phwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom yn dadlau dros "cyn pen deng mlynedd i adnewyddu'r drwydded hon", gan nodi er mai mater i Ofcom yw penderfynu ar hyd y drwydded newydd, gan fod trwyddedau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi cael eu hadnewyddu am gyfnod o ddeng mlynedd yn ddiweddar, bod cyfnod o ddeng mlynedd yn dderbyniol i C4C gyflawni'r newid hwn.[278]

5.167 Cyflwynwyd awgrymiadau eraill, er enghraifft dywedodd yr Athro Robert Beveridge y dylid cyflwyno cwotâu MoE newydd ar ddechrau 2025 neu'n agos at hynny.[279] Roedd Northern

---

[270] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 12.
[271] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 7.
[272] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10-11.
[273] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[274] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 14.
[275] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10. Mae'n ymddangos mai camddealltwriaeth yw hyn. Lansiwyd *Fast Forward* yn 2024, ac felly mae disgwyl i *Fast Forward* ddod i ben yn 2034. Rydym yn trafod ymhellach isod ym mharagraff 5.226.
[276] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Finestripe i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3;
[277] Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 6.
[278] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[279] Ymateb Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.

Ireland Screen yn dadlau dros 12% erbyn 2027, 14% erbyn 2030 ac 16% erbyn 2032.[280] Dywedodd TAC y gallai fod yn ofynnol i Channel 4 gyrraedd y 12% arfaethedig erbyn 2026 ac yna 16% erbyn 2029.[281] Galwodd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom am 12% erbyn 2027 ac 16% erbyn 2030.[282] Galwodd Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon am 16/17% erbyn 2030, gyda mesurau dros dro i olrhain hynny yn 2027 a 2029.[283] Dywedodd Maramedia y byddai'n decach petai cwotâu MoE yn codi i rhwng 12 ac 16% ymhell cyn 2029.[284] Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom ei fod yn ffafrio 16%, ond dywedodd petai'r cwotâu MoE is o 12% yn cael eu mabwysiadu, y dylid defnyddio dull gweithredu cynyddrannol (cynnydd bob blwyddyn) i gyrraedd y 12% o wariant ac oriau rhaglennu erbyn 31 Rhagfyr 2029.[285] Dywedodd Senedd Cymru y dylid cyflwyno 12% yn gynharach na 2030, gan ystyried cynyddu cwotâu yn y blynyddoedd dilynol.[286] Dywedodd VLV y dylid cyflwyno cwotâu o 12% yn gynharach na 2030, gyda chynnydd posibl arall o 16% ar ôl 2030.[287]

## Cwotâu'r gwledydd unigol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

5.168 Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai Ofcom osod cwotâu penodol i'r gwledydd, sef Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[288] Barn rhai ymatebwyr oedd y byddai cwotâu penodol i'r gwledydd yn diogelu buddsoddiad yn y gwledydd ac yn sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei ddosbarthu'n deg.[289] Er enghraifft, dywedodd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom y byddai cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn sicrhau bod holl wledydd a rhanbarthau'r DU yn elwa'n deg o fuddsoddiad Channel 4 mewn cynyrchiadau a chynnwys.[290] Dywedodd Cymru Greadigol y byddai cwotâu penodol i'r gwledydd yn cymell Channel 4 i ystyried ei effaith yn unigol ar draws y gwledydd.[291] Dywedodd Screen Scotland hefyd y byddai cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl dalentog ym mhob gwlad.[292]

---

[280] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[281] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[282] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[283] Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[284] Ymateb Maramedia i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[285] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[286] Ymateb Senedd Cymru i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2
[287] Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[288] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3. Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 6-7; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-4; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb yr Athro Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8-10; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2, 16-17; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4-5; Ymateb WGGB i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[289] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3; . Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 6-7; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1-2; Ymateb yr Athro Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8-10; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2, 16-17; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2, 16-17; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4-5; Ymateb WGGB i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[290] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[291] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[292] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.

5.169 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a oedd yn cynnig cwotâu penodol i'r gwledydd yn teimlo y dylai unrhyw gwotâu adlewyrchu poblogaethau penodol y gwledydd.[293] Er enghraifft, dywedodd y BFI, a oedd yn cefnogi 16% o gwotâu MoE, fod cael cwotâu penodol i'r gwledydd yn seiliedig ar gyfran y boblogaeth yn ffordd resymol o rannu'r cwotâu MoE cyffredinol ac y byddai hyn yn sicrhau bod Channel 4, fel Corfforaeth sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd, yn hyrwyddo buddiannau dinasyddion ar draws y DU mewn ffordd deg.[294]

5.170 Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai gosod cwotâu penodol i'r gwledydd yn dod â'r gofynion y mae Ofcom yn eu gosod ar gyfer C4C yn unol â'r gofynion ar gyfer y BBC. Er enghraifft, dywedodd TAC y byddai "dod â gofyniad Channel 4 hyd at 16% yn adlewyrchu ymrwymiadau'r BBC i'r gwledydd, sydd gyda'i gilydd yn 16% (8% yn yr Alban, 5% yng Nghymru, 3% yng Ngogledd Iwerddon)". Wrth gyfeirio at Ogledd Iwerddon, dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom fod y BBC wedi elwa'n fawr o'i gwota comisiynu ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan gyfeirio at lwyddiannau diweddar fel *Blue Lights*, *Line of Duty* a *Hope Street*.[295]

5.171 Dywedodd C4C na fyddai cwotâu cynhyrchu ar wahân ar gyfer y gwledydd unigol yn briodol. Dywedodd y byddent yn arwain at gyfansymiau gwario cymharol fach ar gyfer pob gwlad ac y byddent yn cyfyngu ar faint o wariant sydd ar gael i'w fuddsoddi mewn rhaglenni ar raddfa o bob gwlad.[296] Dywedodd Screen Scotland, gyda'r cwotâu MoE yn codi dros 9% - fel rydym wedi'i gynnig yn ymgynghoriad mis Gorffennaf y byddai effaith anghymesur canslo prosiectau unigol neu oedi gyda chwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn cael ei lliniaru.[297]

5.172 Dywedodd Pact y dylid cael cwotâu ar wahân ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad roedd wedi'i gomisiynu gan O&O, roedd yn dadlau petai'r cwotâu 12% roeddem wedi'u cynnig yn cael eu rhannu rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan ddefnyddio cymhareb seiliedig ar boblogaeth, y byddai hyn yn awgrymu cwotâu o 3.75% i Gymru, 6% i'r Alban a 2.25% i Ogledd Iwerddon. Dywedodd Pact fod gwaith comisiynu presennol C4C yn y gwledydd yn gogwyddo tuag at yr Alban a Chymru ac y byddai'n gallu bodloni'r cwotâu a awgrymwyd ar gyfer Cymru a'r Alban yn "eithaf hawdd". Ond mae'n debygol y byddai angen iddo roi hwb i'w weithgarwch comisiynu yng Ngogledd Iwerddon o ystyried ei fuddsoddiad isel yno yn hanesyddol. Dywedodd hefyd y byddai cwota 12% MoE ynghyd â chwotâu ar wahân ar gyfer y gwledydd unigol a dyddiad cyflwyno cynharach yn golygu bod gan fusnesau sicrwydd ac y byddant yn ceisio buddsoddi yn y gwledydd, sy'n bwysig er mwyn hyrwyddo twf economaidd. [298]

5.173 Roedd rhanddeiliaid yn cynnig amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch pryd dylid cyflwyno cwotâu penodol i'r gwledydd. Roedd nifer yn dadlau mai 2027 oedd y dyddiad mwyaf

---

[293] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 7; Ymateb Hello Halo i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[294] Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 7.
[295] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[296] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 6-7.
[297] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 18.
[298] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8-10.

priodol.[299] Roedd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom yn teimlo y dylid cyflwyno cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd ochr yn ochr â chwota 16% erbyn diwedd cyfnod y drwydded.[300] Nid oedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y BFI a TAC, yn nodi'r amser ar gyfer cyflwyno cwotâu penodol i'r gwledydd.[301]

5.174 Roedd rhanddeiliaid a ymatebodd o Ogledd Iwerddon yn nodi gwariant isel ar gynyrchiadau C4C yng Ngogledd Iwerddon yn hanesyddol ac yn dadlau mai dim ond cwota ar gyfer cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon fyddai'n cyflawni'r hyn roeddent yn ei ystyried yn fuddsoddiad cymesur yno. Dywedodd Northern Ireland Screen bod ymgysylltiad cyffredinol Channel 4 â Gogledd Iwerddon wedi bod yn eithriadol o wael dros gyfnod o ddeng mlynedd y drwydded flaenorol.[302] O ran ein cynigion ar gyfer y drwydded newydd, roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom yn pryderu na fyddai amodau'r drwydded MoE newydd arfaethedig o fudd i Ogledd Iwerddon heb gwotâu unigol ar gyfer pob gwlad yn y DU.[303] Roedd Northern Ireland Screen yn dadlau dros gwota penodol o 3% ar gyfer Gogledd Iwerddon. Dywedodd, o safbwynt Gogledd Iwerddon, fod angen hyn ar frys ar sail y sgoriau portreadu a nodwyd gan Ofcom yn Adroddiad SMCP y llynedd a'r data gwariant ar gynyrchiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad a baratôdd O&O i PACT.[304] Galwodd Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon am gwota o 3% ar gyfer Gogledd Iwerddon erbyn 2030 gyda "chymysgedd o genres".[305] Roedd Northern Ireland Screen hefyd yn anghytuno y dylem ystyried cyfraniad ehangach C4C at gefnogi'r sector cynhyrchu yn y Gwledydd, yn enwedig sgiliau a hyfforddiant. Dywedodd mai dim ond os yw cynlluniau o'r fath yn cael eu hychwanegu at waith cynhyrchu gwarantedig y byddant yn gweithio, a hyd yn oed wedyn, eu bod yn gallu gwneud cymaint o ddrwg ag o dda.[306]

5.175 Dywedodd Northern Ireland Screen fod Ofcom a C4C yn rhoi llawer o bwys ar y syniad y byddai codi lefel y cwotâu MoE neu osod cwotâu penodol i'r gwledydd yn effeithio ar hyblygrwydd C4C wrth gomisiynu. Roedd Northern Ireland Screen yn derbyn y byddai unrhyw gwota yn creu lefel o gyfyngiad ond nid oedd yn credu y byddai comisiynwyr yn cael eu cyfyngu o ran y cwmnïau y gallent eu comisiynu yn y gwledydd oherwydd y gallai cwmnïau yn Llundain gyfrannu at gynhyrchu yn y gwledydd yn unol â'n canllawiau cynhyrchu rhanbarthol.[307]

5.176 Dywedodd yr Athro Robert Beveridge na fyddem yn sicrhau ein dyletswydd statudol newydd i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd heb osod cwotâu penodol i'r gwledydd,[308] gyda rhanddeiliaid eraill hefyd yn cyfeirio at ein dyletswydd twf newydd.[309]

---

[299] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 3; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, 1; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb Finestripe i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[300] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[301] Ymateb Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 7; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[302] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[303] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[304] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[305] Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[306] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[307] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3.
[308] Ymateb Robert Beveridge i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[309] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8.

Dywedodd Pact bod yn rhaid i ni "ystyried pwysigrwydd hybu twf economaidd a sicrhau bod unrhyw gamau rheoleiddio a gymerir yn rhai angenrheidiol a chymesur. O gofio'r ddyletswydd statudol newydd hon, mae gan Ofcom gyfle nawr i roi arwydd angenrheidiol i gyflenwyr y farchnad yn y gwledydd a'r rhanbarthau ei fod yn ymddiried ynddynt y gallant gyflawni ar gyfer C4C".[310]

5.177 Roedd Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon yn dadlau bod C4C "wedi mynd ati ei hun i orliwio pa mor anodd yw hi i roi cwotâu ar waith mewn gwledydd unigol o ran capasiti'r sector neu'r amser arweiniol sy'n ofynnol er mwyn newid" ac yn awgrymu nad oeddem wedi cwestiynu rhesymeg C4C yn briodol.[311]

5.178 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylai Ofcom gefnogi'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau eraill i sicrhau bod gwariant MoE yn cael ei rannu'n fwy teg ar draws y gwledydd.[312] Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom ei fod yn teimlo bod diffyg buddsoddiad hanesyddol wedi bod yn y gwledydd ac felly diffyg dealltwriaeth o'r dalent sy'n bodoli y tu allan i Loegr ar ran C4C.[313] Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom y dylai'r gwledydd gael eu cynrychioli ar Fwrdd C4C.[314] Galwodd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom ar i C4C ymrwymo i gynyddu nifer y comisiynwyr sy'n byw ac yn gweithio yn y gwledydd, gan sicrhau bod Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n deg.[315] Dywedodd Directors UK hefyd y byddai penodi neu leoli mwy o gomisiynwyr neu benaethiaid adrannau yn y gwledydd yn helpu i sefydlu perthnasoedd creadigol mwy ystyrlon.[316]

## Cynrychioli a phortreadu

5.179 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai cwotâu uwch ar gyfer cynyrchiadau MoE arwain at y gwledydd yn cael eu cynrychioli a/neu eu portreadu'n well.[317] Dywedodd Directors UK y byddai cynnydd yn y cwotâu yn cefnogi "mwy o dwf economaidd creadigol a gwell cynrychiolaeth yn y gwledydd, datblygu talent, sgiliau a busnesau ac amrywiaeth oddi mewn hynny ledled y DU".[318] Dywedodd TAC fod "cynrychioli pob rhan o'r DU yn hollbwysig i unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus [...] mae gan bobl yng ngwledydd y DU hawl i weld eu bywydau, eu cymunedau a'u buddiannau'n cael eu cynrychioli. Ond nid cynrychiolaeth yw'r unig reswm - mae cynhyrchwyr o wahanol rannau o'r DU yn dod â gwahanol safbwyntiau, syniadau a thalent gyda nhw, a gall pob un o'r rhain fod o fudd i gynnig cyffredinol Channel 4 i'r cyhoedd ym Mhrydain".[319]

5.180 Nododd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom ein bod, yn ein Hadroddiad SMCP 2022, wedi tynnu sylw at sgoriau portreadu is yng Ngogledd Iwerddon,[320] ac roedd Northern

---

[310] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8.
[311] Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon, t. 4.
[312] Ymateb Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4-5.
[313] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[314] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1, 4.
[315] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[316] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[317] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3.
[318] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[319] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[320] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.

Ireland Screen hefyd wedi sôn am y sgoriau hyn.[321] Roedd Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon yn dadlau bod y ffaith bod "tanberfformiad" C4C yng Ngogledd Iwerddon wedi cael cryn sylw wedi bod "yn niweidiol o un genhedlaeth i'r llall" o ran portreadu rhanbarthol.[322]

5.181 Tynnodd Cymru Greadigol sylw at ddata Ofcom sy'n dangos ffigurau isel o ran cyfran y gynulleidfa Channel 4 yng Nghymru. Roedd yn awgrymu y dylai "gwell ymgysylltu a mwy o gomisiynu'n uniongyrchol gyda'r sector cynhyrchu yng Nghymru gefnogi gwell portreadau a helpu i wella tueddiadau gwylio a ffigurau cynulleidfaoedd".[323] Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, dywedodd Llywodraeth yr Alban hefyd y bydd lleoli comisiynwyr gyda phwerau cyllido a gwneud penderfyniadau yn yr Alban yn arwain, yn y pen draw, at gynnwys y mae cynulleidfaoedd yn ei gydnabod fel cynnwys mwy dilys a chynrychioladol.[324]

5.182 Yn ei ymateb i'n canllawiau arfaethedig ar well adroddiadau drwy'r SMCP, dywedodd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom "Mae'r pwyllgor yn cynnig, wrth adrodd ar amcanion cyflenwi cwotâu yn y dyfodol, bod Channel 4 yn gwahaniaethu rhwng gwariant ac oriau o'i gymharu â phortreadu a chynrychiolaeth. Dylid casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata portreadu a chynrychioli mewn perthynas â'r holl gynnwys Gwnaed y tu allan i Loegr yn annibynnol, gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol i gwestiynu'r naratif".[325]

### Canllawiau arfaethedig i C4C am sut dylai adrodd ar ei gynyrchiadau MoE yn ei SMCP (Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau).

5.183 Roedd nifer o randdeiliaid yn cytuno â'n cynnig y dylai C4C ddarparu rhagor o wybodaeth am ei dull o gomisiynu yn y gwledydd yn ei SMCP blynyddol.[326]

5.184 Roedd rhanddeiliaid eraill yn croesawu ein cynigion ar gyfer gwell prosesau monitro ac adrodd, ond yn teimlo bod angen i hyn gael ei gyplysu â chwotâu neu ofynion comisiynu o'r gwledydd.[327] Er enghraifft, dywedodd Pact nad oedd adroddiadau gwell yn ddigon i ddisodli cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd a chomisiynu a buddsoddi parhaus yn y tymor hir o'r gwledydd a'r rhanbarthau.[328] Roedd Screen Scotland yn cytuno â'n cynnig, ond dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r SMCP hefyd yn olrhain cynnydd tuag at y cwotâu uwch roedd wedi'u hawgrymu.[329] Dywedodd Directors UK fod angen mwy o dryloywder ynghyd â gofynion clir i gomisiynu cynyrchiadau sy'n cael effaith uchel ar draws yr holl wledydd.[330] Ychwanegodd Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon nad oedd yn credu "y bydd strwythur adrodd blynyddol nad yw'n rhwymo yn disodli

---

[321] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[322] Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2-3.
[323] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[324] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.
[325] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[326] Ymateb Bectu i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2. Ymateb Maramedia i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 6.
[327] Ymateb WGGB i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 16; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 18; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[328] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 16.
[329] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 18.
[330] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.

cwotâu'r gwledydd unigol mewn ffordd effeithiol a dibynadwy".[331] Dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai canllawiau pellach yn ddefnyddiol i sicrhau bod nodau'r cwotâu'n cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf priodol a chadarnhaol.[332]

5.185 Roedd Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom yn anghytuno â'n cynigion, ac yn dweud er ei fod yn croesawu tryloywder ac ymgysylltu, heb nodau a thargedau ynghlwm, ni fydd adroddiadau blynyddol yn gwarantu canlyniadau priodol.[333]

5.186 Roedd rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon yn teimlo bod angen i ni wneud mwy i ddal C4C i gyfrif o ystyried ei fuddsoddiad cymharol isel yng Ngogledd Iwerddon.[334] Dywedodd Northern Ireland Screen nad oedd wedi'i argyhoeddi y byddai ein cynnig ar gyfer strategaeth gomisiynu flynyddol ar gyfer pob un o'r Gwledydd yn arwain at y canlyniad a fwriadwyd.[335] Yn yr un modd, roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom yn anghytuno â'n cynnig ac yn dweud bod adrodd drwy Adroddiad Blynyddol Channel 4 ac SMCP yn unig wedi dangos nad yw'r canlyniadau priodol yn cael eu cyflawni ar gyfer Gogledd Iwerddon.[336]

5.187 Dywedodd Pwyllgorau Cynghori Cymru a Gogledd Iwerddon Ofcom y dylai unrhyw adroddiadau gynnwys allbynnau mesuradwy, gydag ACNI yn awgrymu comisiynau yn y gwledydd a metrigau y cytunwyd arnynt i geisio sicrhau bod cyfran cynulleidfa darlledu gwasanaeth cyhoeddus Gogledd Iwerddon o leiaf yr un fath â chyfartaledd y DU (5%).[337] Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom hefyd yn dweud y dylai Channel 4 ymrwymo i gynyddu cynhyrchu a gwylio cynnwys 'wedi'i wneud yng Nghymru' ac 'am Gymru' gyda'r nod o gynyddu cyfran gwylio Channel 4 yng Nghymru i lefelau sydd yr un fath neu'n uwch na'r cyfartaleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus erbyn 2030.[338]

5.188 Dywedodd Cymru Greadigol y dylai C4C gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar ei ddarpariaeth yn erbyn ei gwotâu MoE ochr yn ochr â'i adroddiadau strategaeth blynyddol, ac y dylai'r rhain gynnwys strategaethau comisiynu pwrpasol ar gyfer pob gwlad. Dywedodd y dylai strategaeth C4C yng Nghymru "geisio datblygu'r ecosystem frodorol go iawn, gan osgoi codi a symud, er mwyn gwella ymrwymiad Channel 4 yn sylweddol i ddatblygu cyflenwyr yng Nghymru". Ychwanegodd fod angen gwell mecanweithiau i ddal y darlledwr i gyfrif am ei ddarpariaeth yng Nghymru, fel cyfarfodydd rhwng uwch gynrychiolwyr C4C a Gweinidogion Cymru neu Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom, a mwy o ymgysylltu rhwng C4C a'r Senedd.[339]

5.189 Dywedodd Pwyllgor Cynghori Lloegr Ofcom y byddai'n bryderus petai'r cynnydd arfaethedig i 12% yn cael effaith negyddol ar y sector cynhyrchu yn rhanbarthau Lloegr. Nododd y gallai arweinyddiaeth, strategaeth ac ymrwymiad C4C i'w ymrwymiad gwirfoddol o wario 50% ar MoL newid yn ystod cyfnod y drwydded. Felly, roedd yn argymell bod Ofcom yn defnyddio Adroddiad SMCP i "blismona" cynnydd C4C tuag at gyflawni ei gwotâu newydd ac fel mecanwaith i "dynnu sylw at unrhyw ganlyniadau annisgwyl h.y. effaith negyddol ar gynhyrchu yn rhanbarthau Lloegr". Awgrymodd y dylai fod yn ofynnol i C4C gyhoeddi canran

[331] Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon, t. 1.
[332] Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[333] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 5.
[334] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t.4; Ymateb Grŵp Sector Cynhyrchu Teledu Annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3-5.
[335] Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[336] Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[337] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1.
[338] Ymateb ACW i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 2.
[339] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3-4.

y comisiynau yn Lloegr y tu allan i Lundain, ochr yn ochr â'r lefelau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn flynyddol yn ogystal â'i ddadansoddi ymhellach yn ôl lleoliad. Gofynnodd Pwyllgor Cynghori Lloegr Ofcom am eglurder ynghylch y berthynas rhwng cwotâu MoL a MoE.[340]

5.190 Dywedodd Pact, er bod Adroddiad SMCP yn adnodd defnyddiol i randdeiliaid weld sut mae C4C yn perfformio yn erbyn ei gylch gwaith a'i rwymedigaethau, y byddai'n croesawu eglurder ynghylch sut byddwn yn dal C4C i gyfrif os nad ydym yn fodlon â'i gynnydd yn y gwledydd.[341] Gofynnodd rhanddeiliaid eraill hefyd am eglurder ynghylch y pwerau monitro a gorfodi sydd ar gael i ni ar ôl i'r drwydded gael ei gosod.[342]

# Ein hymateb

## Lefel y cwotâu

5.191 Rydym yn cydnabod cryfder y teimlad mewn perthynas â'r lefel y dylid gosod y cwotâu hyn, a phryd y dylid cyflwyno unrhyw newid. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, mae ein rôl o ran pennu'r lefel briodol yn dibynnu ar lefel uchel o farn reoleiddiol, sy'n cynnwys ystyried a dadansoddi'r amrywiaeth o fewnbynnau a safbwyntiau rydym wedi'u cael gan randdeiliaid, gan ragweld ar sail data ariannol a data ansoddol arall, ac amrywiaeth o ymchwil.

5.192 Mae rhanddeiliaid yn y sector cynhyrchu yn y gwledydd wedi nodi'n glir eu barn y dylai Channel 4 fod yn comisiynu mwy o gynyrchiadau y tu allan i Loegr a bod cynnydd sylweddol yn y cwotâu yn briodol. Mae C4C wedi cyflwyno tystiolaeth ynghylch pam, er ei fod yn gallu cefnogi cynnydd wedi'i reoli, mae angen iddo gadw hyblygrwydd wrth gomisiynu i gyflawni ei gynlluniau strategol ehangach ac i sicrhau ei fod yn gallu darparu'r cynnwys gorau i gynulleidfaoedd.

5.193 Rydym yn cydnabod y farn a fynegwyd gan nifer o randdeiliaid yn y sector cynhyrchu yn y gwledydd mai'r ffactor allweddol wrth bennu lefel briodol cwotâu MoE Channel 4 ddylai fod cyfrannau poblogaeth y DU yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel y dywedasom yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, rydym yn cytuno y byddai cynyddu cwotâu MoE Channel 4 y tu hwnt i 9% ac felly gynyddu'r gyfran warantedig orfodadwy o wariant ac oriau cynhyrchu yn y gwledydd yn debygol o fod o fudd i gynhyrchu rhanbarthol. Fodd bynnag, mae angen gweithredu hyn mewn ffordd gynaliadwy. Fel y trafodir isod, nid ydym yn credu y byddai gosod y cwotâu ar 16%, sy'n cyfateb i gyfran poblogaeth y DU yn y gwledydd, yn gynaliadwy i Channel 4. Nid ydym chwaith yn credu bod angen i lefel y cwotâu fod yn gymesur â'r boblogaeth yn y gwledydd er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn adran 264 o'r Ddeddf.

5.194 Rydym yn anghytuno â safbwynt rhai rhanddeiliaid bod perchnogaeth gyhoeddus Channel 4 yn golygu y dylid gosod y cwotâu ar lefel cyfran y boblogaeth er mwyn cyflawni ei gylch gwaith yn deg ac yn gynaliadwy ar draws y pedair gwlad, ar lefel gyfun ac ar lefel gwledydd unigol.[343] Mae gan Channel 4 gylch gwaith ehangach na Channel 3 neu Channel 5, ac mae gan C4C ofynion ehangach o dan ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau, sy'n adlewyrchu ei

[340] Ymateb ACE i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3, 4
[341] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 15.
[342] Ymateb ACE i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3-4; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4.
[343] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.

berchnogaeth gyhoeddus. Yn wreiddiol, roeddem wedi cynnig cwota cynhyrchu y tu allan i Loegr ar gyfer y BBC a Channel 4, ac nid Channel 3 a Channel 5, gan ein bod yn credu bod “rhwymedigaeth o’r fath yn fwy priodol i’r BBC a Channel 4, gan fod eu hamcanion cyhoeddus yn debycach”.[344] Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, er bod C4C ym mherchnogaeth y cyhoedd, mae’n cael ei ariannu’n fasnachol yn gyfan gwbl. Mae mewn sefyllfa wahanol i’r BBC, ac wrth osod y cwotâu mae’n rhaid i ni ystyried cyd-destun y farchnad a ddisgrifir yn adran 4.[345]

5.195 Rydym yn ceisio gosod y cwotâu ar lefel briodol i ddarparu’r allbwn gorau i gynulleidfaoedd. Rydym yn anelu at gefnogi cynyrchiadau y tu allan i Loegr, cyfrannu at amrywiaeth eang o raglenni sy’n adlewyrchu bywydau a diddordebau cymunedau ar draws y DU, a rhoi’r hyblygrwydd priodol i C4C weithredu ei strategaeth ddigidol yn llwyddiannus i sicrhau y gall barhau i gyflawni ar ran cynulleidfaoedd y DU. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o’r heriau sy’n wynebu C4C wrth iddo wneud nifer o newidiadau i’w gynnwys a’i strategaeth ddosbarthu, a fydd, fel y mae strategaeth *Fast Forward* yn ei nodi’n glir, yn golygu llai o oriau o raglenni yn gyffredinol ond mwy o effaith ar y gynulleidfa.

5.196 Roedd ein cynnig mai 12% oedd y lefel briodol yn deillio o fodelu’r effaith ar sefyllfa ariannol C4C yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, sef cynnydd i 12%, y lefel a awgrymwyd gan C4C, a chynnydd i 16% fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid eraill.

5.197 Fel y gwnaethom ei gydnabod yn ymgynghoriad mis Gorffennaf, mater i C4C yw penderfynu sut dylai roi unrhyw gynnydd i’w gwotâu ar waith, ar yr amod bod y gwahanol ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir yn cyfateb i “amrywiaeth addas”.[346] Er mwyn bodloni cwotâu uwch ar gyfer gwariant ac oriau MoE[347], byddai’n rhaid i C4C:

a) Symud gwariant ac oriau cynnwys a gynhyrchir yn Llundain i’r gwledydd;
b) Symud gwariant ac oriau cynnwys a gynhyrchir yn rhanbarthau Lloegr[348] i’r gwledydd; a/neu
c) Gynyddu lefel gyffredinol ei oriau a’i wariant cynhyrchu.

5.198 Roedd ein dadansoddiad yn dangos y byddai wedi bod angen i C4C symud tua [✂] awr a thua [✂]m o wariant o Loegr i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn cyflawni 12% o oriau a gwariant MoE yn 2022. Er mwyn cyflawni 16% o oriau a gwariant MoE, byddai wedi bod angen i C4C symud tua [✂] o oriau a thua £[✂]m o wariant o Loegr i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cydnabod bod C4C wedi rhoi rhesymau credadwy i esbonio pam gallai cyfyngu ar faint o gynnwys sy’n symud o Loegr (Llundain a rhanbarthau Lloegr) gyfrannu at gyflawni cwota MoE uwch a’i bod yn debygol y byddai angen i C4C gynyddu ei wariant cynnwys cyffredinol i fodloni unrhyw gynnydd uwchlaw 12%. Felly, wrth fodelu hyn, roeddem wedi tybio y byddai C4C yn rheoli cynnydd o 9% i 12% yn bennaf drwy symud comisiynau o Lundain, ac y byddai wedyn yn gweithredu cynnydd o 12% i 16% drwy gynyddu ei wariant cyffredinol ar gynnwys. Ar y sail hon, dangosodd ein gwaith

---

[344] Ofcom, Renewal of the Channel 4 Licence: Statement, 11 Mawrth 2014, t. 6.
[345] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 24.
[346] O dan adran 288(1) o’r Ddeddf.
[347] Dim ond i ‘wariant cymwys’ y mae’r cwotâu hyn yn berthnasol. Is-set o [✂]% o wariant C4C ar raglenni ar ei brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw’r gwariant cymwys, ac nid yw’n cynnwys gwariant ar newyddion, rhaglenni a gaiff eu prynu, nac ailddarllediadau ac ati. Mae gwariant cynhyrchu cymwys Channel 4 ei hun yn is-set o tua [✂]% o’r cyfanswm gwariant blynyddol a gofnodir gan C4C ar gynnwys ar draws ei bortffolio o wasanaethau (ar sail data perfformiad cwotâu 2022).
[348] Nid yw cyfeiriadau at ranbarthau Lloegr yn cynnwys Llundain.

modelu mai effaith bosibl fwyaf cynyddu'r cwotâu MoE o 12% i 16% yw y byddai angen i C4C gynhyrchu tua [✂] awr yn rhagor o raglenni am gost ychwanegol o tua £[✂]m. Mae hyn yn cyfateb i tua [✂]% o gyfanswm costau cynnwys C4C yn 2022 a thua [✂]% o wariant cymwys Channel 4.[349]

5.199 Ar sail yr amcangyfrifon hyn, gwnaethom fodelu'r effaith bosibl fwyaf ar refeniw arfaethedig C4C dros gyfnod y drwydded, o gynyddu ei gwotâu MoE y tu hwnt i 12% i 16%. Wrth fodelu costau cynnwys ychwanegol, gwnaethom ddefnyddio costau MoE gwirioneddol Channel 4 fesul genre yn 2022, a seilio'r cynnydd mewn darpariaeth yn y dyfodol ar y genres roeddem yn deall y bydd C4C yn bwriadu comisiynu mwy ohonynt yn y dyfodol. Roeddem hefyd wedi tybio y byddai gwariant cymwys[350] Channel 4 fel cyfran o gyfanswm gwariant blynyddol C4C ar gynnwys yn aros ar yr un lefel ar gyfer cyfnod y drwydded newydd.[351]

5.200 Er mwyn asesu effaith ariannol bosibl y gost ychwanegol hon ar warged amcanestynedig C4C ar gyfer cyfnod y drwydded nesaf, gwnaethom gymhwyso'r cynnydd untro a gyfrifwyd, sef tua [✂]%, at gyfanswm costau cynnwys disgwyliedig C4C o 2030 ymlaen er mwyn adlewyrchu'r cynllun gweithredu a awgrymwyd gan C4C ar gyfer cwotâu uwch. Wedyn, gwnaethom gymhwyso'r tybiaethau ynghylch cynnwys a chwyddiant economaidd yng nghynllun busnes C4C at y costau cynnwys uwch o 2030 ymlaen a defnyddio'r holl wybodaeth a thybiaethau eraill o gynllun busnes diweddaraf C4C, gan gynnwys ei amcanestyniadau refeniw hysbysebion teledu. Yn y senario hon, rydym yn amcangyfrif cynnydd mewn costau a allai arwain at ddiffyg, ar ddiwedd cyfnod y drwydded nesaf, o hyd at tua £[✂]m yn hytrach na gwarged amcangyfrifedig C4C o tua [✂]m.[352]

5.201 Rydym yn cydnabod y byddai C4C yn debygol o ddefnyddio cyfuniad o'r opsiynau a nodir ym mharagraff 5.197 yn hytrach na dim ond cynyddu ei wariant ar gynnwys, ac felly mae'r cynnydd posibl mwyaf mewn costau rydym wedi'i ddangos yn debygol o orliwio'r effaith bosibl fwyaf ar sefyllfa ariannol C4C. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r un farn â'r hyn a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, sef o ystyried sefyllfa ariannol bresennol C4C a'r ansicrwydd masnachol a fydd yn ei wynebu yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, y byddai cynyddu'r cwotâu MoE i 16% yn peri mwy o risg i gynaliadwyedd C4C yn y dyfodol a'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau trwydded na chynnydd o 12%.[353] Felly, rydym yn parhau i feddwl mai 12% yw'r lefel briodol ar gyfer gosod y cwotâu uwch.

5.202 Rydym yn anghytuno â'r farn a gyflwynwyd gan Screen Scotland y byddai cwota o 12% yn rhoi swyddi creadigol mewn perygl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn gwneud dim i gynulleidfaoedd ledled y DU sy'n dymuno gweld eu buddiannau, eu bywydau a'u pryderon yn cael eu hadlewyrchu ar ein gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus

---

[349] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 19.

[350] Dim ond i 'wariant cymwys' y mae'r cwotâu hyn yn berthnasol. Is-set o [✂]% o wariant C4C ar raglenni ar ei brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw'r gwariant cymwys, ac nid yw'n cynnwys gwariant ar newyddion, rhaglenni a gaiff eu prynu, nac ailddarllediadau ac ati. Mae gwariant cynhyrchu cymwys Channel 4 ei hun yn is-set o tua [✂]% o'r cyfanswm gwariant blynyddol a gofnodir gan C4C ar gynnwys ar draws ei bortffolio o wasanaethau (ar sail data perfformiad cwotâu 2022).

[351] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 19.

[352] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 19.

[353] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 19.

sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd.[354] Fel y dywedasom yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, rydym yn cytuno y byddai cynyddu cwotâu MoE Channel 4 y tu hwnt i 9% ac felly gynyddu'r gyfran warantedig orfodadwy o wariant ac oriau cynhyrchu yn y gwledydd yn debygol o fod o fudd i gynhyrchu rhanbarthol, ac o bosibl i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd yn y gwledydd. Felly, rydym o'r farn y bydd cynyddu'r cwotâu i 12% yn arwain at fwy o fanteision i gynhyrchwyr ac i gynulleidfaoedd o'i gymharu â chadw'r lefel bresennol o 9%.

5.203 Felly, rydym yn dod i'r casgliad y bydd cynnydd o 9% i 12% yn y cwotâu MoE yn arwain at fanteision ychwanegol i'r sector cynhyrchu yn y gwledydd ac i gynulleidfaoedd, gan barhau i fod yn gymesur ac yn gynaliadwy i C4C.

5.204 Mewn ymateb i ymholiad Pact ynghylch y rhyngweithio rhwng cwotâu MoL a MoE, nid yw cwotâu MoE yn ganran o gwotâu MoL (ee 12% o 35% o wariant ac oriau cymwys) ond yn hytrach, yn ganran o gyfanswm yr oriau a'r gwariant cymwys yn unol â'r diffiniad yng nghanllawiau Ofcom ar gynhyrchu rhanbarthol.

## Cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd

5.205 Mewn ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf, roedd nifer o randdeiliaid wedi gofyn am gyflwyno cwotâu penodol i'r gwledydd ar gyfer Channel 4 oherwydd, yn eu barn nhw, byddai hyn yn diogelu buddsoddiad yn y gwledydd ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu'n deg. Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai'r lefelau fod yn gymesur â phoblogaeth pob gwlad. Er y gallai cyflwyno cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd roi mwy o sicrwydd i gynhyrchwyr ynghylch cyfran y gwariant mewn gwledydd unigol, byddent yn cyfyngu mwy o lawer ar C4C na'r cwotâu MoE cyfun presennol.

5.206 Mae C4C wedi dweud ei bod yn beth cyffredin i gomisiynau gael eu dal yn ôl, eu canslo neu fethu â chael eu hailgomisiynu oherwydd ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth.[355] Fel rhan o'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gwnaethom ddefnyddio data ar wariant blaenorol MoE i gynnal asesiad damcaniaethol o'r effaith y gallai colli rhaglenni tariff uchel ei chael ar wariant MoE C4C ar gyfer 2022, a chanfod y gallai colli un rhaglen tariff uchel fel *Screw* neu *Derry Girls* gael effaith sylweddol ar allu C4C i fodloni ei gwota MoE cyffredinol.[356] Felly, byddai colli un rhaglen tariff uchel mewn gwlad benodol yn cael effaith sylweddol ar allu C4C i fodloni cwota mwy manwl ar gyfer y gwledydd. Dywedasom yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf y gallai cyfyngiadau o'r fath arwain at raglenni C4C yn comisiynu rhaglenni i lenwi cwota, yn hytrach nag oherwydd eu bod yn cynrychioli'r syniadau gorau. Rydym yn dal i gredu y byddai cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn cyfyngu ar hyblygrwydd C4C o ran comisiynu ac y gallent weithio yn erbyn ei allu i gyflawni ei strategaeth *Fast Forward* ac na fyddai hyn o fudd i gynulleidfaoedd y DU.

5.207 Mae safbwyntiau gwahanol ynghylch a oes digon o gapasiti ym mhob un o'r gwledydd i C4C fodloni gofynion cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd a chyflawni ei strategaeth gomisiynu newydd ar yr un pryd. Er enghraifft, cyflwynodd Pact ddata roedd wedi'i gomisiynu gan O&O a oedd yn dangos bod nifer y cwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd wedi cynyddu dros amser yn gyffredinol, ac roedd Pact yn awgrymu bod hyn yn dangos bod cyflenwad cyson o gwmnïau i C4C gomisiynu ganddynt.[357] Roedd y data hefyd yn dangos bod mwy o gwmnïau

[354] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 8.
[355] C4C yn meddwl mwy am y cwota y tu allan i Lundain, Medi 2023, t. 3.
[356] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 66.
[357] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr t.15.

wedi cael comisiynau yn y gwledydd dros amser, a bod nifer cyfartalog yr oriau fesul cwmni wedi lleihau. Roedd Pact yn dadlau bod hyn yn dangos bod digon o gapasiti i gynhyrchu mwy.[358]

5.208 Ar y llaw arall, gan ddefnyddio data o'r Arolwg o Gwmnïau Darlledu Annibynnol, dadleuodd C4C fod cwmnïau cynhyrchu annibynnol llai yn cynrychioli cyfran fwy o'r prif gwmnïau yn y gwledydd a'r rhanbarthau o gymharu â Llundain. Er bod C4C yn cydnabod mai dim ond procsi o gapasiti cwmnïau cynhyrchu yw trosiant, awgrymodd ei fod o leiaf yn arwydd rhannol o gapasiti i gynhyrchu cynnwys mewn genres tariff uwch a fydd yn hollbwysig er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol yn llwyddiannus.[359]

5.209 Gwnaeth C4C hefyd ailddatgan ei safbwynt ei bod yn fwy heriol comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau am fod graddfa'n fwy dibynnol ar gomisiynau unigol, yn hytrach na chanolfannau cynhyrchu sefydledig, gan ei gwneud yn anodd gwarantu sefydlogrwydd ac adnoddau cynhyrchu o flwyddyn i flwyddyn. Nododd fod hyn yn rhywbeth y mae wrthi'n gweithio'n frwd i'w wella; gan gyfeirio at fentrau fel y Gronfa Twf Cwmnïau Annibynnol a'r Gronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd fel tystiolaeth o hyn.[360]

5.210 Rydym yn nodi pwynt Northern Ireland Screen y gallai cyfyngiadau capasiti yng Ngogledd Iwerddon gael eu lliniaru gan y ffaith y gall cwmnïau yn Llundain wneud cynyrchiadau rhanbarthol cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'n cofrestrau Gwnaed y tu allan i Lundain yn dangos mai dim ond un cynhyrchiad (yn 2021) oedd wedi methu bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol o blith y teitlau a oedd wedi cael eu neilltuo gan Channel 4 i Ogledd Iwerddon ers 2019.[361]

5.211 Rydym yn anghytuno â'r pwynt a wnaed gan Screen Scotland a'r BFI bod perchnogaeth gyhoeddus Channel 4 yn golygu y dylai fod cwotâu unigol wedi'u gosod ar gyfer y gwledydd, ar lefel sy'n weddol debyg i gyfran y boblogaeth. Mae'n ofynnol yn benodol i Ofcom, o dan Atodlen 2 i Gytundeb y BBC i osod cwotâu i'r BBC ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd unigol. Nid oes gofyniad statudol o'r fath mewn perthynas â Channel 4 na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol eraill. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn cael eu hariannu drwy ffi'r drwydded ac mae ei weithgareddau'n dod o dan Siarter Frenhinol. O ystyried ei fodel cyllido a'r Siarter, mae'n iawn fod gan y BBC fwy o rwymedigaethau o lawer na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

5.212 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cysylltu gosod cwotâu penodol i'r gwledydd â dyletswydd twf newydd Ofcom. Byddem yn nodi bod y ddyletswydd hon yn berthnasol ar lefel y DU. Er y gallwn hefyd "ystyried agweddau eraill ar dwf economaidd, neu amcanion eraill sy'n ymwneud â thwf economaidd, fel pa mor ddymunol yw meithrin twf rhanbarthol neu gefnogi datblygiad busnesau bach a chanolig",[362] nid oes gennym ddyletswydd benodol i hyrwyddo twf economaidd yn y gwledydd, dim ond ei ystyried yn ei holl agweddau. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai twf y DU yn gyffredinol yn cael ei hyrwyddo gan gwotâu gwledydd unigol, yn hytrach na sefyllfa bresennol cwota cyfun ar gyfer cynhyrchu y tu allan i Loegr.

---

[358] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4, 16, 20 ac mewn adroddiad wedi'i atodi ar gwotâu Channel 4 ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau a baratowyd gan O&O.
[359] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 8.
[360] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 9.
[361] Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae cofrestrau MoL hanesyddol ar gael yn ein Hadroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
[362] Yr Adran Busnes a Masnach, Growth Duty: Statutory Guidance – Refresh, 21 Mai 2024, t. 12.

5.213 Rydym yn cydnabod, o ystyried maint cymharol y sector cynhyrchu yn y gwahanol wledydd, efallai na fydd cynyrchiadau Channel 4 yn cynyddu ar yr un gyfradd ym mhob gwlad nac yn cael eu dosbarthu'n gyfartal. Rydym yn cydnabod pryder penodol rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon nad yw C4C yn cyflawni'r hyn y maent yn ei ystyried yn lefel briodol o fuddsoddiad yn sector cynhyrchu Gogledd Iwerddon. Felly, rydym wedi penderfynu monitro perfformiad Channel 4 yn fwy manwl drwy ein proses Adroddiad SMCP a darparu canllawiau y dylai C4C eu nodi yn ei SMCP bob blwyddyn a'i strategaeth gomisiynu ym mhob gwlad.

5.214 Mewn ymateb i bwynt Screen Northern Ireland am gyfraniad ehangach C4C i'r sector cynhyrchu yn y gwledydd y tu hwnt i gyflenwi cwota, mae cefnogi datblygiad pobl â thalent greadigol yn elfen bwysig o gylch gwaith C4C, ac rydym yn monitro hyn drwy ein Hadroddiadau SMCP blynyddol. Rydym o'r farn bod C4C wedi darparu tystiolaeth o'i ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r amcan hwn, yn enwedig mewn perthynas â'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae C4C wedi cyhoeddi y bydd yn dyblu ei fuddsoddiad yn ei fentrau hyfforddiant a sgiliau o £5m i £10m erbyn 2025.[363] Hoffem weld C4C yn gwneud mwy i adrodd ar effaith cynlluniau fel y Gronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd, a lansiwyd yn 2020 ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau i gystadlu am gyllid, cymorth ac amser cyswllt y comisiynydd.

5.215 Fel rydym wedi'i nodi ym mharagraff 5.129 uchod, rhan bwysig o C4C yn gwella ei ddarpariaeth yn y gwledydd yw cryfhau mynediad at gomisiynwyr i gynhyrchwyr yn y gwledydd. Fel rhan o'r wybodaeth ychwanegol y byddwn yn gofyn i C4C ei chyhoeddi'n flynyddol, bydd angen i C4C nodi sut mae ei ddull o gomisiynu y tu allan i Loegr yn cefnogi ac yn ysgogi'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd, a dylai hyn gynnwys sut mae'n galluogi mynediad at gomisiynwyr (gweler paragraff 5.234).

5.216 Er ein bod wedi penderfynu peidio â phennu cwotâu penodol i'r gwledydd, rydym wedi penderfynu cadw'r gofyniad bod yn rhaid i wariant MoE fod yn berthnasol i ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ym mhob blwyddyn galendr. Mae hyn yn sicrhau na all C4C gyflawni ei gwota mewn un neu ddwy o'r gwledydd yn unig, a bod yn rhaid iddo gyfrannu gwariant at ganolfannau cynhyrchu ym mhob gwlad bob blwyddyn. Mae hon yn rhan orfodadwy o amod y drwydded. Rydym hefyd yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP blynyddol i olrhain lefel y gwariant ym mhob gwlad, ac i wella tryloywder o ran sut mae C4C yn cyflawni yn y gwledydd.

## Amseru

5.217 Roedd nifer o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n cynnig y dylai cwota 12% fod yn berthnasol o 2030 ymlaen yn anghytuno ar sail yr adroddiad a gomisiynwyd gan Pact gan O&O i edrych ar sut gallai C4C gydymffurfio â chwota o 12% o 2027 ymlaen.[364] Rydym wedi adolygu dadansoddiad O&O. Fel y nodir isod, mae ein hasesiad yn nodi bod y casgliadau a geir yn yr adroddiad yn seiliedig ar dybiaethau nad ydynt yn gywir ynghylch pa mor gyflym y gallai Channel 4 gynyddu ei ddarpariaeth y tu allan i Loegr. Ar sail hyn, rydym yn anghytuno â safbwyntiau rhanddeiliaid sy'n seiliedig ar ddadansoddiad Pact ac O&O y gellid bodloni cwota o 12% yn gynaliadwy o 2027 ymlaen.

---

[363] Tudalen we: Channel 4 targets new wave of investment into overlooked founders.

[364] Ymateb BFI i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 4-8; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 1; Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3-4; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3-5, 11-14; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 10-18.

5.218 Mae'n ymddangos i ni fod O&O wedi tybio bod y cynnydd i 9.7% mewn gwariant MoE yn 2022 a 10.9% yn 2023 wedi'i sbarduno gan fwy o wariant y tu allan i Loegr. Yn ei ddadansoddiad, amcangyfrifodd O&O £44m o wariant y tu allan i Loegr yn 2022 a £45m yn 2023. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir. Nid oedd cyfanswm y gwariant cymwys wedi cynyddu i'r graddau yr amcangyfrifwyd gan O&O yn 2022 na 2023 - y ffigurau gwirioneddol oedd £[✂]m a £[✂]m. Yn hytrach, roedd y cynnydd yng nghyfran y gwariant cymwys y tu allan i Loegr yn cael ei sbarduno gan y gwariant cymwys cyffredinol yn gostwng wrth i wariant y gwledydd aros yn gymharol wastad. Er mwyn i'r tueddiadau hyn barhau, a rhagori ar 12% o ganlyniad, byddai'n rhaid i C4C gadw gwariant y gwledydd yn wastad a lleihau gwariant yn Lloegr ar yr un pryd. Nid ydym yn credu bod hyn yn ganlyniad dymunol.

5.219 Yn ail, defnyddiodd Pact ddadansoddiad O&O hefyd i ddadlau ein bod wedi goramcangyfrif pa mor anodd oedd hi i C4C symud rhaglenni o Lundain a'n bod wedi rhoi gormod o bwyslais ar ddadl C4C am bwysigrwydd cyfresi sy'n dychwelyd. Er enghraifft, dywedodd Pact fod "comisiynau newydd yn cyfrif am gyfran uwch o gomisiynau yn Llundain na'r tu allan, a oedd yn awgrymu y gallai C4C ddargyfeirio rhywfaint o'i wariant ar gomisiynau newydd yn Llundain i'r gwledydd yn hytrach na symud cyfresi sy'n dychwelyd neu gynyddu ei gyllideb ar gynnwys yn sylweddol".[365]

5.220 Nid ydym yn credu mai'r nifer sylfaenol o gomisiynau yw'r metrig mwyaf perthnasol, gan y gallai fod llawer o gomisiynau newydd yn Llundain nad ydynt efallai'n cyfateb i rai gwariant uchel na chomisiynau mawr, ac felly efallai na fyddant yn cael effaith sylweddol ar berfformiad cwota.

5.221 Er nad oes gennym wybodaeth fanwl am wariant ar raglenni ar gyfer comisiynau nad ydynt yn gymwys fel rhai a wneir y tu allan i Lundain, mae gennym wybodaeth am gylchoedd bywyd[366] rhaglenni Channel 4 o ran oriau. Mae'r data hwn yn dangos bod y cysyniad o gylch bywyd rhaglenni yn gymhleth, gan y gallai comisiynau newydd gynnwys rhaglenni untro neu gyfresi byr, fel rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni dogfen. Hefyd, nid yw'n glir lle mae amserlennu craidd fel operâu sebon a darllediadau chwaraeon fel Formula 1 yn eistedd. Yn ôl ein diffiniadau, nid ydym yn gweld gwahaniaeth sylweddol mewn comisiynau newydd rhwng Llundain a thu allan i Lundain o ran oriau, ac rydym yn gweld cyfran fwy o gyfresi newydd yn y gwledydd. Yn 2022, roedd tua 24% o'r oriau a oedd yn gymwys y tu allan i Loegr yn gyfresi newydd, o'i gymharu ag 11% o oriau Llundain. Mae hyn yn awgrymu mai dim ond i raddau cyfyngedig y byddai llai o gomisiynau newydd yn Llundain yn dylanwadu ar alldro cwota.[367]

5.222 Fel sy'n cael ei ddangos yn y tabl isod, mae perfformiad C4C yn erbyn y cwota wedi amrywio dros gyfnod y drwydded bresennol a byddem yn disgwyl gweld yr un peth dros gyfnod y drwydded nesaf.

### Ffigur 3: Darpariaeth Channel 4 o'r cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr dros gyfnod y drwydded

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | Cwota | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

[365] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Gorffennaf, t. 3.
[366] Mae 'cylch bywyd rhaglen' yn arwydd o hirhoedledd rhaglen neu elfen. Rydym yn dweud bod cyfres newydd sbon sy'n cael ei darlledu am y tro cyntaf (gyda'r potensial i gael ei hailgomisiynu) yn "newydd". Mae cyfres bresennol sy'n cael ei hailgomisiynu yn "dychwelyd" ac mae cyfres fer nad oes disgwyl iddi ddychwelyd yn "gyfres fer".
[367] Ffynhonnell: Ofcom/Channel 4. Rydym wedi diffinio "cyfres newydd" fel elfennau wedi'u comisiynu nad ydynt erioed wedi cael eu dangos o'r blaen. Nid ydym wedi cynnwys cyfresi bach na rhaglenni untro.

| **Gwnaed y tu allan i Loegr** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3% o'r oriau | 6.1% | 9.1% | 9.2% | 12.1% | 10.1 % | 11.2 % | 9% o'r oriau | 11.7 % | 9.8% | 9.1% | 10.6% |
| 3% o'r gwariant | 6.0% | 7.4% | 8.4% | 9.5% | 7.8% | 7.9% | 9% o'r gwariant | 9.4% | 9.4% | 9.7% | 10.9% |

**Ffynhonnell: Ofcom/C4C**

5.223 Mae C4C wedi rhannu ei ragolwg presennol ar gyfer gwariant cyffredinol a gwariant y tu allan i Loegr dros y tair blynedd nesaf, ar sail ei gynllun tair blynedd 2024 (ffigur 4).[368] Mae'r data hwn yn dangos y bydd ei ddarpariaeth ddisgwyliedig y tu allan i Loegr, ar sail gwariant wedi'i ymrwymo a heb ei ymrwymo,[369] yn parhau i fod yn [✂]% o'r gwariant cymwys cyffredinol ar gyfer y cyfnod 2025-2027. Yn y cyfnod hwn, bydd C4C yn parhau i weithredu gyda chyllidebau is wrth ddatblygu ei strategaeth gomisiynu, a fydd yn golygu bod buddsoddiad yn canolbwyntio fwyfwy ar lai o gynyrchiadau, ond cynyrchiadau sy'n cael llawer o effaith, ac yn benodol ar gyfran fwy o gynyrchiadau wedi'u sgriptio.[370] Mae C4C wedi ysgrifennu atom i ddweud, er bod ei gynlluniau y tu hwnt i'r gorwel tair blynedd hwn yn llai sicr, y bydd yn ymdrechu i gyflawni 12% o oriau a gwariant Gwnaed y tu allan i Loegr erbyn 2028. Dywedodd eto ei fod "yn credu'n gryf na ddylid cynnwys hyn yn ffurfiol yn y drwydded o ystyried yr ansicrwydd a'r newidiadau sylweddol mae Channel 4 yn eu gwneud i'w ddull comisiynu fel rhan o'r newid i fod y ffrydiwr gwasanaeth cyhoeddus digidol cyntaf". Rydym wedi cyhoeddi llythyr C4C gyda'r datganiad hwn.

**Ffigur 4: Rhagolygon presennol C4C ar gyfer perfformiad cwota'r gwledydd a'r rhanbarthau o gynllun tair blynedd 2024 (gallai'r rhain newid)**

| | **2025** | **2026** | **2027** |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf** | £[✂]m | £[✂]m | £[✂]m |
| **Cyfanswm y gwariant ar gynyrchiadau rhanbarthol *(% o'r gwariant cymwys cyffredinol)*** | £[✂]m *([✂]%)* | £[✂]m *([✂]%)* | £[✂]m *([✂]%)* |

[368] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Hydref 2024, t. 1-2.
[369] Mae 'gwariant wedi'i ymrwymo' yn gynnwys sydd wedi cael ei gymeradwyo'n llawn yn fewnol yn C4C. Mae 'gwariant heb ei ymrwymo' yn gymysgedd o ddyraniadau ar gyfer cyfresi sy'n dychwelyd nad ydynt wedi cael eu comisiynu'n ffurfiol eto neu arian ar gyfer rhaglenni newydd sbon i'w darlledu yn ystod y flwyddyn berthnasol.
[370] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf 2024, t. 10.

| | 2025 | 2026 | 2027 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gwariant cymwys yn y gwledydd *(% o'r gwariant cymwys cyffredinol)*** | £[✂]m *([✂]%)* | £[✂]m *([✂]%)* | £[✂]m *([✂]%)* |
| **Gwariant wedi'i ymrwymo** | £[✂]m | £[✂]m | £[✂]m |
| **Gwariant heb ei ymrwymo** | £[✂]m | £[✂]m | £[✂]m |
| **Amcangyfrif o'r cynnydd sydd ei angen i gyflawni 12%**<br>***(+ y cynnydd canrannol ar gyfanswm gwariant y gwledydd a ragwelir ar hyn o bryd)*** | £[✂]m *(+[✂]%)* | £[✂]m *(+[✂]%)* | £[✂]m *(+[✂]%)* |
| **Cyfanswm y gwariant cymwys rhanbarthol *(% o'r gwariant cymwys cyffredinol)*** | £[✂]m *([✂]%)* | £[✂]m *([✂]%)* | £[✂]m *([✂]%)* |
| **Gwariant wedi'i ymrwymo** | £[✂]m | £[✂]m | £[✂]m |
| **Gwariant heb ei ymrwymo** | £[✂]m | £[✂]m | £[✂]m |

**Ffynhonnell: C4C**

5.224 Gan ystyried yr holl ddadansoddiad uchod, nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol disgwyl y gallai C4C gyflawni cwotâu o 12% o 2027 ymlaen. Rydym yn dal o'r farn a nodwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, o ystyried ei sefyllfa ariannol a'i ansicrwydd ehangach yn y farchnad, a'r angen i C4C ganolbwyntio ar gyflymu ei drawsnewidiad digidol a sicrhau bod ei allbwn yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd, bod cyfnod addasu o bum mlynedd yn rhesymol.

5.225 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod dymuniad rhanddeiliaid i weld cwota uwch yn ei le yn gynt na 2030. Fe wnaethom ddweud yn ymgynghoriad mis Gorffennaf ein bod yn disgwyl i fuddsoddiad C4C mewn rhaglenni Gwnaed y tu allan i Loegr gynyddu dros y cyfnod rhwng 2025 a 2030 er mwyn paratoi ar gyfer y cwotâu uwch o 2030 ymlaen ac y byddem yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP blynyddol i asesu ei gynnydd. Er mwyn bodloni'r cwotâu'n gynaliadwy o 2030 ymlaen, rydym yn dal o'r farn y bydd angen i fuddsoddiad C4C y tu allan i

Loegr gynyddu o 2025 ymlaen. O ystyried yr amrywiadau yn ei berfformiad o un flwyddyn i'r llall, er mwyn cyrraedd cwotâu o 12% o 2030 ymlaen mewn modd cynaliadwy, bydd angen iddo fod wedi dechrau cyrraedd y lefel honno o leiaf ddwy flynedd yn gynharach, sy'n cyd-fynd â safbwynt diweddaraf C4C.

5.226 Roedd Screen Scotland yn deall ein bod yn cynnig y dylai cwotâu o 12% fod yn berthnasol o 2030 ymlaen oherwydd dyna'r pwynt terfyn disgwyliedig ar gyfer menter *Fast Forward* C4C.[371] Nid yw hyn yn wir – ein safbwynt yn yr ymgynghoriad oedd y dylai'r dyddiad y dylai unrhyw gynnydd i'r cwotâu a ddefnyddir ganiatáu amser i C4C ac i'r sector ehangach symud ei ffocws comisiynu, yn ogystal ag ystyried sefyllfa ariannol a masnachol C4C.[372] Rydym yn dal o'r farn mai'r rhain yw'r ystyriaethau perthnasol.

5.227 Rydym yn anghytuno â'r ddadl bod y ffaith y gallai cynyrchiadau gael eu hariannu gan nifer o bartïon yn ffactor perthnasol fel y dadleuir hefyd gan Screen Scotland. Wrth benderfynu ar gyflawni yn erbyn y cwotâu, dim ond ar eu gwariant uniongyrchol eu hunain y mae darlledwyr yn gallu seilio elw, ac o'r herwydd, mae cyllid trydydd parti bob amser yn cael ei eithrio o gyfrifiadau o'r fath.

5.228 Awgrymodd Screen Scotland nad yw Ofcom ar hyn o bryd yn gosod y cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr ar gyfer C4C yn ystod y deng mlynedd llawn hyd at 2034, ond yn hytrach ein bod yn eu hadolygu yn 2027. Rydym yn dod i'r casgliad nawr ar y lefel briodol ar gyfer cyfnod y drwydded. Mae'n bwysig bod gan C4C a'r sector sicrwydd am yr amod. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â Screen Scotland ei bod yn synhwyrol parhau i fonitro unrhyw ffactorau allanol perthnasol a'u heffaith ar C4C a'r sector darlledu a chynhyrchu ehangach dros gyfnod nesaf y drwydded. Byddwn yn gwneud hyn yn y lle cyntaf drwy ein Hadroddiad SMCP blynyddol.

5.229 Rydym yn nodi sylwadau Pact a C4C y bydd y cwotâu'n newid ar ôl rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith. Byddwn yn ystyried hyn fel rhan o'n gwaith yn gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau. Rydym yn gosod trwydded Channel 4 newydd o dan y fframwaith statudol presennol. Fel y nodwyd gennym yn ein Map, bydd gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau yn gofyn am newidiadau yn y dyfodol i'r holl drwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol, gan gynnwys trwyddedau Channel 4. Byddwn yn ymgynghori ar y newidiadau hyn yn gynnar yn 2025.

## Canllawiau i C4C am sut dylai adrodd ar ei gynyrchiadau Gwnaed y tu allan i Loegr yn ei SMCP (Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau).

5.230 Rydym yn croesawu'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad yn cytuno y dylem ofyn i C4C gyhoeddi rhagor o wybodaeth am ei ddull o ddarparu yn y gwledydd a'r effaith y gall hyn ei chael ar gynhyrchwyr ledled y DU a'r cynulleidfaoedd y mae angen iddo eu denu at ei gynnwys.

5.231 Fel y nodwyd uchod, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon difrifol am ymgysylltiad C4C â'r sector cynhyrchu y tu allan i Loegr. Mae penderfyniadau ynghylch lle mae timau comisiynu wedi'u lleoli yn fater i C4C, ond rydym yn cydnabod bod anfodlonrwydd sylweddol ymysg rhanddeiliaid yn y gwledydd o ran mynediad at gomisiynwyr. Mae'n bwysig bod C4C yn llawer mwy agored a thryloyw am ei weithgareddau yn y gwledydd, ei fod yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am ei ddull o gomisiynu, a'i fod yn cymryd camau i feithrin cysylltiadau cryfach â'r sector cynhyrchu ym mhob un o'r gwledydd.

---

[371] Byddem hefyd yn nodi, i ymateb Screen Scotland, mai dim ond yn 2024 y lansiwyd *Fast Forward*. Felly, byddai 2027 yn cynrychioli blwyddyn 3 yn hytrach na blwyddyn 7.
[372] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE) Channel 4, 19 Gorffennaf 2024, t. 29.

5.232 O dan adran 266 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i C4C gyhoeddi datganiad blynyddol o bolisi rhaglenni sy'n nodi ei gynigion ar gyfer sicrhau y caiff rhwymedigaethau trwydded a chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ganlynol, gan gynnwys ei gwotâu MoE. Rhaid iddo wneud hyn gan roi sylw i ganllawiau Ofcom. Yn ein canllawiau, gofynnwn i C4C gyfuno'r datganiad hwn â'i ddatganiad blynyddol o bolisi cynnwys cyfryngau o dan adran 198B o'r Ddeddf a chyfeiriwn at y ddogfen gyfun fel Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau (SMCP) C4C.

5.233 Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau newydd yn nes ymlaen eleni fel rhan o'r broses o roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith. Daw'r canllawiau hynny i rym pan gaiff y trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eu hamrywio i roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith. Er mwyn ymateb i bryderon rhanddeiliaid, yn y cyfamser byddwn yn ysgrifennu i C4C gan roi rhagor o arweiniad ar yr hyn rydym yn disgwyl iddo ei nodi yn yr SMCP ynglŷn â'i ddull o gomisiynu ym mhob gwlad unigol.

5.234 Byddwn yn gofyn i C4C nodi:

a) sut mae ei ddull o gomisiynu y tu allan i Loegr yn cefnogi ac yn ysgogi'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd, gan gynnwys sut mae'n galluogi mynediad at gomisiynwyr;
b) ei strategaeth ar gyfer comisiynu ym mhob gwlad unigol dros y flwyddyn nesaf a sut mae wedi cyflawni ei strategaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol; ac
c) ei gynlluniau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd yn y gwledydd yn ystod y flwyddyn nesaf a sut mae wedi ymgysylltu â nhw dros y flwyddyn flaenorol.

5.235 Fel sy'n wir ar hyn o bryd, yn ystod y cyfnod rhwng 2025 a 2030, bydd C4C yn adrodd ar ei gynnydd tuag at y cwota arfaethedig newydd o flwyddyn i flwyddyn, o ran cyfran yr oriau a'r gwariant a ddyrennir i'r gwledydd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn ac yn craffu ar gynnydd C4C tuag at fodloni'r cwotâu uwch drwy ein Hadroddiadau SMCP blynyddol. Byddwn yn trafod gyda C4C a ddylid cynnwys metrigau ychwanegol yn ei fframwaith adrodd a mesur newydd a fydd yn rhoi gwerthusiad mwy cywir a chraff o effaith ei gyfraniad at gynhyrchu ledled y gwledydd. Gallai adroddiadau ychwanegol ar bwyllgorau datganoledig perthnasol gynyddu tryloywder ynglŷn â strategaethau comisiynu C4C yn y gwledydd.

5.236 Bydd yr wybodaeth ychwanegol gan C4C yn rhoi mwy o dryloywder ac yn ein galluogi i graffu'n well ar berfformiad a strategaeth C4C ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd ac adrodd ar hyn yn yr Adroddiad SMCP. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro gwariant C4C yn y gwledydd yn agos.

5.237 Yn y llythyr rydym wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn, dywedodd C4C ei fod yn ymwybodol y bydd Ofcom yn disgwyl gweld cynnydd ystyrlon gan Channel 4 dros y blynyddoedd nesaf ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar Ofcom i fonitro ac i adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd Channel 4 at gyflawni'r targed hwn drwy ein Hadroddiad SMCP blynyddol.

## Ein penderfyniad

5.238 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n cynigion, rydym wedi penderfynu cynyddu lefel cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr Channel 4 o 9% i 12% o 2030 ymlaen. Mae hyn yn barhad o gynnydd sylweddol ers 2019 pan oedd lefelau'r cwota yn 3%. Bydd cynnydd o'r maint hwn a weithredir yn gynaliadwy o fudd i gynulleidfaoedd ac i'r sector cynhyrchu yn y gwledydd a bydd modd i C4C ei gyflawni. Rydym o'r farn bod cynyddu'r cwota i 12% yn taro cydbwysedd priodol rhwng parhau i sicrhau buddsoddiad C4C mewn cynnwys unigryw yn y DU sy'n apelio

at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd ar draws y DU, a chaniatáu hyblygrwydd iddo ddatblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu i gefnogi ei drawsnewid digidol.

5.239 Rydym wedi penderfynu y bydd y cwotâu o 12% yn berthnasol o 2030 ymlaen gan ein bod o'r farn bod hwn yn gyfnod priodol o amser i ganiatáu i C4C sicrhau ei fod yn bodloni cwotâu y gellir eu gorfodi'n uwch mewn modd cynaliadwy. Er nad ydym yn meddwl ei bod hi'n briodol gosod cwotâu dros dro rhwng 9% a 12% yn y cyfnod cyn 2030, rydym yn disgwyl i fuddsoddiad C4C mewn rhaglenni y tu allan i Loegr gynyddu dros y cyfnod rhwng 2025 a 2030 er mwyn paratoi ar gyfer y cwotâu uwch o 2030 ymlaen a byddwn yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP blynyddol i asesu ei gynnydd.

5.240 Rydym wedi penderfynu rhoi arweiniad i C4C y dylai ei nodi'n flynyddol yn ei SMCP, ei ddull o gomisiynu ym mhob gwlad (gweler paragraff 5.234 uchod). Bydd y tryloywder a'r eglurder uwch hwn gan C4C o fudd i'r diwydiant ehangach ac yn ein galluogi i'w ddal i gyfrif yn well am osod a chyflawni strategaeth glir ar gyfer cynhyrchu y tu allan i Loegr.

## Rhaglenni ysgol

### Amodau trwydded newydd

Byddwn yn tynnu'r amod hwn oddi ar y drwydded newydd.

## Crynodeb o gynigion a rhesymeg yr ymgynghoriad

### Cadw cwota rhaglenni ysgol ar 30 munud

5.241 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr roeddem yn cynnig cadw'r gofyniad am 30 munud o raglenni ysgolion ym mhob blwyddyn galendr am nawr. Gwnaethom ddweud y byddai'r Ddeddf Cyfryngau yn dileu'r ddarpariaeth statudol ar gyfer y cwota rhaglenni i ysgolion pan fyddai'r ddeddfwriaeth honno mewn grym, y byddem yn dileu'r cwota.

## Sylwadau rhanddeiliaid

5.242 Roedd y rhanddeiliaid a ymatebodd yn cytuno â'n cynnig i gadw'r cwota rhaglenni i ysgolion ar 30 munud, a'i ddileu pan ddaw'r Ddeddf Cyfryngau i rym.[373]

5.243 Dywedodd C4C y byddai hysbysu ac addysgu cynulleidfaoedd iau yn parhau i fod yn rhan allweddol o'i strategaeth dros gyfnod nesaf y drwydded.[374]

5.244 Dywedodd Dr Phil Ramsey y dylid monitro C4C ar draws ei weithgareddau anllinol o ran y ffyrdd mae'n darparu cynnwys i blant oed ysgol, er enghraifft drwy ein Hadroddiadau SMCP.[375] Roedd Pact yn cytuno â'n cynnig ond eglurodd ei fod yn dal i boeni am gyflwr y sector cynhyrchu rhaglenni i blant.[376]

[373] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 27; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8; Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb ACNI i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6; Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 22; Ymateb Richard Langworthy i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9.
[374] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 27.
[375] Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[376] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 22.

## Ein hymateb

5.245 Rydym yn cytuno â Dr Phil Ramsey y bydd yn dal yn bwysig monitro sut mae C4C yn parhau i ddarparu cynnwys i blant oed ysgol yn unol â’i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau. Mae monitro darpariaeth C4C ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc yn rhan allweddol o’n Hadroddiad SMCP blynyddol.

## Ein penderfyniad

5.246 Gan fod y Ddeddf Cyfryngau bellach wedi pasio a bod y ddarpariaeth sy’n dileu’r gofyniad i Ofcom osod cwota rhaglenni i ysgolion wedi cael ei chychwyn, byddwn yn tynnu’r cwota hwn o’r drwydded newydd.[377]

# Cynyrchiadau annibynnol

### Amodau trwydded newydd

Bydd o leiaf **25%** o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys yng ngwasanaeth Channel 4 yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o **gynyrchiadau annibynnol**.

5.247 Mae Adran 277 o’r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau’r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae Ofcom yn credu sy’n briodol ar gyfer sicrhau bod dim llai na 25 y cant o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys sydd wedi’u cynnwys yn y sianel yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol.[378]

5.248 Mae ‘cynyrchiadau annibynnol’[379] yn golygu unrhyw raglen gymwys[380] a wneir gan gynhyrchydd annibynnol. Nid yw cynhyrchydd annibynnol ynghlwm wrth ddarlledwr yn y DU drwy gydberchnogaeth arwyddocaol. Cynhyrchydd: (i) nid yw wedi'i gyflogi gan ddarlledwr; (ii) nid oes ganddo gyfranddaliad sy’n fwy na 25% mewn darlledwr yn y DU; neu (iii) nid oes gan yr un darlledwr yn y DU gyfranddaliad sy’n fwy na 25% neu nad oes gan unrhyw ddau neu ragor o ddarlledwyr yn y DU gyfranddaliad o fwy na 50% gyda'i gilydd.

## Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

### Cadw’r cwota cynyrchiadau annibynnol ar 25%

5.249 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gwnaethom egluro mai dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellid diwygio’r lefel cwota sylfaenol, fel y nodir yn adran 277 o’r Ddeddf. Pan gyflwynwyd y Bil Cyfryngau i’r Senedd ar 8 Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai’r lefel yn cael ei chynyddu o 25% i 35% fel rhan o becyn o fesurau lliniaru a fwriadwyd i sicrhau y byddai rôl Channel 4 yn sbarduno buddsoddiad yn y sector cynhyrchu annibynnol

[377] Daeth adran 16 o’r Ddeddf Cyfryngau i rym ar 23 Awst 2024, gan ddiddymu adran 296 o’r Ddeddf.
[378] Adran 277 o’r Ddeddf.
[379] Diffinnir hyn yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991.
[380] Mae rhaglenni cymwys yn rhaglenni nad ydynt wedi cael eu dangos yn flaenorol ar yr un ffurf i raddau helaeth ar y gwasanaeth perthnasol, ac maent yn eithrio mathau penodol o raglenni, yn enwedig newyddion.

yn cael ei diogelu pe byddai'n penderfynu datblygu ei allu ei hun i gynhyrchu.[381] Fe wnaethom ddweud ein bod yn adnewyddu'r drwydded o dan y fframwaith statudol presennol ac y byddem yn rhoi'r newid hwn ar waith pan ddaw i rym.

5.250 Fe wnaethom ddarparu dadansoddiad a oedd yn dangos bod C4C wedi rhagori'n sylweddol ar lefel y cwota cynhyrchu annibynnol dros gyfnod presennol y drwydded, ac roeddem yn cynnig bod amod presennol y drwydded, sy'n mynnu bod o leiaf 25% o oriau rhaglenni cymwys yn gynyrchiadau annibynnol, yn dal yn briodol.

## Sylwadau rhanddeiliaid

5.251 Roedd C4C yn cefnogi ein cynnig i gadw amod presennol y drwydded. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, dywedodd ei fod yn "croesawu pecyn o fesurau lliniaru'r Llywodraeth i sicrhau bod hyblygrwydd masnachol posibl yn y dyfodol ar gyfer C4C yn cael ei gydbwyso yn erbyn gofynion y sector cynyrchiadau teledu annibynnol". Nododd hefyd y byddai unrhyw newid y gallai ei wneud i gynhyrchu mewnol yn newid graddol, ac y byddai'n "bod yn ofalus iawn i osgoi siociau yn y farchnad a fyddai'n effeithio'n ormodol ar bartneriaid cynhyrchu annibynnol".[382]

5.252 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a ymatebodd yn cytuno â'n rhesymau dros gadw'r cwota hwn ar 25%, ar y sail ein bod yn adnewyddu'r drwydded o dan y fframwaith statudol presennol. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cytuno y dylid gosod y cwota ar y lefel uwch o 35% os bydd C4C yn dechrau cynhyrchu rhaglenni'n fewnol.[383]

5.253 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylai 50% fod yn "darged sylfaenol go iawn" ar gyfer Channel 4, hyd yn oed os yw amod y drwydded wedi'i osod yn swyddogol ar 35%. Roeddent yn dadlau y gallai cael C4C sy'n canolbwyntio ar gwmnïau cynhyrchu mawr nad ydynt yn gymwys fynd yn groes i'w ddyletswydd i feithrin twf y sector annibynnol.[384]

## Ein hymateb

5.254 Mewn ymateb i ddadl Screen Scotland a Cymru Greadigol y gallai C4C fod yn mynd yn erbyn ei dyletswydd i feithrin twf y sector cynhyrchu annibynnol, nid oes gan C4C ddyletswydd statudol benodol i gefnogi datblygiad y sector cynhyrchu annibynnol (y tu allan i nodau'r cwota sy'n berthnasol i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus). Fodd bynnag, mae ganddo ddyletswydd i gefnogi datblygiad pobl sydd â thalent greadigol a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad C4C o'r ddyletswydd hon drwy ein Hadroddiad SMCP blynyddol.

5.255 Rydym yn credu bod C4C wedi gwneud yn dda yn y maes hwn ers 2018 drwy barhau i weithio gydag amrywiaeth eang o gyflenwyr, rhai am y tro cyntaf, a'i fod drwy hyn wedi dangos ei ymrwymiad i gefnogi'r sector creadigol annibynnol yn y DU. Yn 2023, ar draws

---

[381] Datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan Lucy Frazer, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 8 Tachwedd 2023. Tudalen we: datganiad.
[382] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 28.
[383] Ymateb ACS i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8; Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 23; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 6; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4-5; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 10.
[384] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 4; Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 10-11

meysydd ffilm, digidol a theledu, bu C4C yn gweithio gyda 317 o gyflenwyr cynnwys, ac roedd 167 yn gynhyrchwyr annibynnol cymwys.[385]

5.256 Cawn ar ddeall bod y potensial i C4C ymgymryd â chynhyrchu mewnol yn dal yn faes o bryder i'r sector ehangach. Rydym wedi ymrwymo i graffu ar effaith hyn a byddwn yn amlinellu'n glir sut byddwn yn gwneud hynny os bydd C4C yn symud i gynhyrchu. Ar ben hynny, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal adolygiad o'r effaith ar y ffordd y caiff y cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gyflawni pe bai C4C yn gwneud rhaglenni gyda'r bwriad o'u darlledu ar Channel 4.[386]

## Ein penderfyniad

5.257 Gan ein bod yn adnewyddu'r drwydded o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, rydym wedi penderfynu cadw'r cwota ar ei lefel bresennol o 25%.

# Hyd y drwydded

### Amodau trwydded newydd

Mae cyfnod y drwydded wedi'i bennu ar **ddeng mlynedd**, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2025 a dod i ben ar 31 Rhagfyr 2034.

5.258 Mae adran 231 o'r Ddeddf yn nodi ei bod yn rhaid i Ofcom bennu hyd y drwydded newydd, a fydd yn rhedeg "am ba bynnag gyfnod sy'n briodol ym marn Ofcom".

## Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

### Cyfnod trwydded deng mlynedd

5.259 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roeddem yn cynnig adnewyddu'r drwydded am gyfnod o ddeng mlynedd, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2025 a dod i ben ar 31 Rhagfyr 2034. Roedd hyn yn cyd-fynd â chais C4C lle mynegodd ffafriaeth gref dros drwydded deng mlynedd; dywedodd y byddai hyn "yn rhoi digon o sicrwydd a hyblygrwydd i C4C gyflawni ei gylch gwaith, ac ar ei amcanion strategol tymor hir i sbarduno twf digidol a refeniw newydd.[387]

5.260 Gwnaethom ofyn i C4C am gynllun busnes i gefnogi'r hyd trwydded a oedd yn cael ei ffafrio ganddo sef deng mlynedd, a oedd wedyn yn destun craffu gennym.[388] Daethom i'r casgliad bod ei gynllun busnes yn dangos y gallai gyflawni ei gylch gwaith dros y cyfnod deng mlynedd arfaethedig.[389] Gwnaethom ddweud y gallai newidiadau cymharol fach yn refeniw C4C, y farchnad hysbysebu, a'i holl gostau gweithredu, gael effaith sylweddol, gyda'i gilydd, ar gyfanswm refeniw dros oes y drwydded, ac felly ar falans gwarged/arian parod C4C. Roeddem hefyd wedi dweud bod lle i C4C tanberfformio yn erbyn ei rhagolwg a pharhau i fod yn gynaliadwy, ond roedd cryn dipyn o ansicrwydd ac nad oedd rhagolwg a chynllun busnes C4C yn ddi-risg.

[385] Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel 4 Television 2023, t. 71.
[386] O dan adran 31(3) o Ddeddf Cyfryngau 2024, mae'n rhaid i ni wneud hyn yn ein hadolygiad cyntaf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n ymdrin â chyfnod sy'n dod i ben dair blynedd ar ôl i C4C gymryd rhan yn y broses o wneud rhaglen gyda'r bwriad o'i darlledu ar Channel 4.
[387] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023, t. 4.
[388] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 77-79.
[389] Ofcom, Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad, 6 Rhagfyr 2023, t. 79.

5.261 Yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr roeddem wedi edrych ar a fyddai newid lefel y rhwymedigaethau fel roeddem yn ei gynnig yn effeithio'n sylweddol ar gynaliadwyedd cyfnod trwydded o ddeng mlynedd ac wedi canfod bod ein cynigion i gynnal y cwotâu Gwnaed y tu allan i Lundain a Gwnaed y tu allan i Loegr ar eu lefelau presennol a lleihau'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i C4C ddilyn ei gynulleidfa wrth iddo fudo i ddigidol. Roeddem hefyd wedi dweud y byddai ein cynigion yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i C4C o ran ei gostau ac y byddai hyn yn helpu i leihau'r risg na fyddai C4C yn gallu cyflawni rhwymedigaethau ei drwydded.[390]

5.262 Gwnaethom gyflwyno ein barn y byddai trwydded deng mlynedd yn cyd-fynd â thelerau'r trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol eraill (h.y. Sianeli 3 a 5) a'r trwyddedau amlblecs teledu daearol digidol,[391] a fydd i gyd yn dod i ben yn 2034. Roeddem yn meddwl ei bod hi'n synhwyrol parhau i gysoni'r broses o ddod â'r trwyddedau hyn i ben, gan y byddai hyn yn rhoi cyfle i Ofcom gynnal asesiad cynhwysfawr o'r trwyddedau yn 2034 pe bai angen.

5.263 Roeddem hefyd wedi ystyried hyd trwyddedau sy'n para llai ac sy'n para mwy na deng mlynedd. Daethom i'r casgliad dros dro y byddai trwydded fyrrach yn rhoi llai o sicrwydd a sefydlogrwydd ariannol i C4C na thrwydded deng mlynedd, na fyddai er budd gorau cynulleidfaoedd. Nid oeddem yn credu y byddai cyfnod trwydded hirach yn briodol o ystyried na allem ragweld yn ddibynadwy beth fyddai'r tueddiadau gwylio, hysbysebu, neu sefyllfa ariannol C4C y tu hwnt i gyfnod o ddeng mlynedd. Felly, roeddem yn cynnig mai trwydded deng mlynedd oedd fwyaf priodol.[392]

5.264 Yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf gwnaethom ddiweddaru ein dadansoddiad ariannol i roi cyfrif am a) cynllun busnes tair blynedd diweddaraf C4C a b) effaith ein cynnig i gynyddu'r cwota Gwnaed y tu allan i Loegr o 9% i 12% o 2030 ymlaen. Roeddem hefyd wedi gofyn am ragor o wybodaeth[393] mewn perthynas â'r cynllun busnes wedi'i ddiweddaru. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, roedd rhag-amodau C4C yn dangos bod y man cychwyn ar gyfer ei ragolygon refeniw 5% yn is oherwydd refeniw gwirioneddol is yn 2022 a 2023, a oedd yn golygu bod gostyngiad yn y gwariant ar gynnwys yn yr un cyfnod. O ganlyniad i hynny, disgwylir y bydd y gwarged disgwyliedig diwygiedig ar gyfer cyfnod y drwydded bresennol 30% yn is na'r hyn a gyflwynwyd ganddo ym mis Mai 2023.

5.265 Roedd ein dadansoddiad yn dangos, pe gallai C4C weithredu ei strategaeth *Fast Forward* a chael yr arbedion costau a nodir yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i ni, y gallai gefnogi'r cyllidebau cynnwys a nodir yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023.

# Sylwadau rhanddeiliaid

5.266 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno mai deng mlynedd oedd yr hyd priodol ar gyfer y drwydded newydd, o ystyried yr amcanestyniadau ariannol a ddarparwyd gan C4C a'r

---

[390] Ofcom, [Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad](), 6 Rhagfyr 2023, t. 74-79.

[391] Mae teledu daearol digidol (DTT) yn caniatáu i ni fwndelu nifer o wasanaethau teledu i'r hyn a elwir yn amlblecs. Mae chwe amlblecs cenedlaethol, sef 1, 2, A, B, C a D. Mae Ofcom yn rheoleiddio'r trwyddedeion ar gyfer yr holl amlblecsau cenedlaethol hyn ac eithrio amlblecs 1, sy'n cael ei reoleiddio o dan Siarter a Chytundeb y BBC.

[393] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill 2024, Atodiad 1.v.

[393] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill 2024, Atodiad 1.v.

dadansoddiad a'r dystiolaeth a nodwyd gennym.[394] Cadarnhaodd C4C ei fod yn ffafrio trwydded deng mlynedd.[395] Roedd Directors UK yn cytuno, gan nodi bod trwydded deng mlynedd yn rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd i C4C ac i randdeiliaid at ddibenion cynllunio a buddsoddi.[396]

5.267 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom a Phwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom yn cytuno â thrwydded deng mlynedd ond roeddent yn awgrymu adolygiad hanner ffordd.[397] Yn yr un modd, roedd Screen Scotland yn cytuno â thrwydded deng mlynedd ond dywedodd y byddai adolygiad canol tymor yn caniatáu i Ofcom ac i randdeiliaid wirio'r cynnydd a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol o ystyried cyflymder presennol y newid ar draws y sector darlledu.[398] Roedd Pact yn cytuno mewn egwyddor y dylid adnewyddu'r drwydded am 10 mlynedd gyda'r ddarpariaeth yn cael ei hailasesu ar ôl i'r Bil Cyfryngau (sydd bellach yn Ddeddf) gael Cydsyniad Brenhinol.[399]

5.268 Roedd rhai rhanddeiliaid yn ffafrio trwydded pum mlynedd. Roedd Cymru Greadigol[400] a TAC[401] ill dau yn dweud y byddai cyfnod o bum mlynedd yn galluogi gwerthusiad mwy amserol o berthnasedd y drwydded, ac ystyried natur ddeinamig y sector darlledu. Roeddent hefyd yn dweud y byddai'r dull hwn yn grymuso Ofcom i osod cwotâu cynhyrchu gwreiddiol a chynhyrchu Gwnaed y tu allan i Lundain mwy uchelgeisiol.

## Ein hymateb

5.269 Fel y nodir yn y datganiad hwn, mae C4C yn wynebu heriau o ran denu a thyfu cynulleidfaoedd dros gyfnod y drwydded nesaf. Bydd gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn parhau i ostwng, yn enwedig ymysg grwpiau oedran iau. Bydd gwasanaethau ffrydio byd-eang a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gystadlu'n helaeth am y gynulleidfa honno. Mae cynaliadwyedd C4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddenu cynulleidfaoedd newydd, a pharhau i arloesi o ran sut mae'n gwasanaethu cynulleidfaoedd presennol, drwy symud oddi wrth ei fodel cyflawni llinol i un digidol yn gyntaf, fel y nodir yn ei strategaeth *Fast Forward*.

5.270 Roedd C4C wedi darparu cynllun busnes wedi'i ddiweddaru yng nghyswllt ymgynghoriad mis Gorffennaf.[402] Roedd y cynllun busnes wedi'i ddiweddaru yn cynnwys cynllun tair blynedd wedi'i ddiweddaru (hyd at 2026) a rhagolwg refeniw deng mlynedd wedi'i ddiweddaru (hyd at 2034). Roedd y cynllun tair blynedd wedi'i ddiweddaru yn dangos yn 2026, bod C4C yn disgwyl i'w warged arian cyffredinol fod yn weddol debyg i'r hyn a nodwyd yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023 (£[✂]m vs £[✂]m). Roedd y rhagolwg refeniw deng mlynedd wedi'i ddiweddaru yn dangos, erbyn diwedd cyfnod arfaethedig y drwydded deng mlynedd, bod y refeniw cyffredinol yn dal i fod yn unol â'r hyn a nodwyd yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2023.

[394] Ymateb Richard Langworthy i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 3; Ymateb Dienw 2 i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 2; Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5; Ymateb Llywodraeth yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 7; Ymateb VLV i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 10;
[395] Ymateb C4C i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 29.
[396] Ymateb Directors UK i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 9.
[397] Ymateb i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 7; Ymateb i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 8.
[398] Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 11.
[399] Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 23.
[400] Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr t. 2.
[401] Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 5.
[402] Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill 2024, Atodiad 1.v.

Mae cynllun busnes wedi'i ddiweddaru C4C yn dangos ei fod yn parhau i gredu y gall gynnal y drwydded arfaethedig am y cyfnod arfaethedig o ddeng mlynedd.

5.271 Nod strategaeth *Fast Forward* C4C yw "dod â Channel 4 i'r siâp ac i'r lle iawn ar gyfer y 2030au"[403] ac rydym yn dal o'r farn y byddai trwydded deng mlynedd yn rhoi lefel briodol o sefydlogrwydd i C4C ac i'r sector cynhyrchu a'i bod yn cyd-fynd â thelerau'r trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol eraill (h.y. Sianeli 3 a 5) a'r trwyddedau amlblecs teledu daearol digidol, a fydd yn dod i ben yn 2034.

5.272 Nid ydym yn credu bod trwydded pum mlynedd yn briodol. O ran refeniw, byddai cyfnod trwydded byrrach yn lleihau sicrwydd ffrydiau incwm C4C yn y dyfodol a allai leihau hyder ei fancwyr a'i gyflenwyr. Gyda golwg ar raglennu efallai na fydd yn rhoi gorwel cynllunio digonol i C4C i gomisiynu'r mathau o raglenni effaith uchel y mae angen iddo eu darlledu er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol.

5.273 Nid ydym yn credu ei bod yn briodol cyflwyno adolygiad hanner ffordd o'r drwydded ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu am hynny. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro sut mae Channel 4 yn cyflawni amodau ei drwydded drwy'r asesiadau perfformiad rydym yn eu cynnal fel rhan o'n hadolygiadau pum mlynedd o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a'r Adroddiad SMCP blynyddol.

5.274 Ers i Pact ddarparu ei ymateb, mae'r Ddeddf Cyfryngau wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Fel y nodwyd gennym yn ein Map, bydd gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau yn gofyn am newidiadau yn y dyfodol i'r holl drwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol, gan gynnwys trwyddedau Channel 4. Byddwn yn ymgynghori ar y newidiadau hyn yn gynnar yn 2025.

## Ein penderfyniad

5.275 Rydym wedi penderfynu gosod cyfnod y drwydded i ddeng mlynedd, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2025 a dod i ben ar 31 Rhagfyr 2034.

---

[403] Tudalen we: Fast Forward strategy.